# ECO'R WYDDFA

Rhif 203 GORFFENNAF 1994 Pris 25c

# Prif wobrau Eisteddfod yr Urdd yn dod i fro'r Eco

**Rydym yn falch o gael neilltuo'r dudalen flaen i longyfarch pedwar o ieuenctid o'r ardal a gafodd wobr gyntaf yn Eisteddfod yr Urdd yn Nolgellau. Ymfalchïwn yn arbennig bod dwy ferch o'r fro wedi cipio dwy o'r prif wobrau.**



*Eurgain Haf, Penisarwaun*
*Enillydd y Goron*



*Non Llywelyn, Bethel*
*Enillydd Tlws y Cerddor*



*Euros Wyn Williams, Deiniolen*
*Enillydd yr Unawd Pres rhwng 15 a 19 oed*
*(gyda Annette Bryn Parri ei gyfeilydd)*



*Lyndsey Vaughan Parry, Deiniolen*
*Enillydd y Llefaru rhwng 15 a 19 oed*

# ECO'R WYDDFA

Rhif 203
GORFFENNAF 1994

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon.*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru*


SWYDDOGION A GOHEBWYR


GOLYGYDDOL
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
(Ffôn: 675649)
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
(Ffôn: 872390)

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (0248) 670115
**DYDDIADUR Y MIS**
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi, Deiniolen (870394)
**FFOTOGRAFFWYR**
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (674669)
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)
Gareth Williams, Angorfa, Rhes Rhythallt, Llanrug (673683)
Tony Storey, Awel y Mynydd, Ceunant, Llanrug (650600)
**TREFNYDD HYSBYSEBION**
John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (675605)
**TREFNYDD BWNDELU**
Siân Gwenfron Hughes, Derlwyn, Ffordd yr Orsaf, Llanrug: (676846)
Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion, Pontrug (673696)
**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)
**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (650200)
**TREFNYDD PLYGU**
Sioned Roberts (650570)

**GOHEBWYR PENTREFI**
**Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd.**
**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (0248 670726)
**BRYNREFAIL:** Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
**DEINIOLEN:** W. O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
**DINORWIG:** Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Dinorwig (870576)
**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri (870491)
**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
**NANT PERIS:** Elwyn Searell Jones, Dwyfor (870440)
**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)


**Y RHIFYN NESAF**
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
**NOS IAU, MEDI 8**
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
**NOS LUN, AWST 29**
os gwelwch yn dda

# DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

**Trefnydd Plygu: Miss Sioned Roberts, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570.**

| RHIFYN | DYDDIAD PLYGU | BLE? | CYSYLLTU Â | RHIF FFÔN |
|---|---|---|---|---|
| AWST | – | – | – | – |
| MEDI | MEDI 8 | DINORWIG | Mr Meirion Tomos | 870056 |
| HYDREF | MEDI 29 | PENISARWAUN | Mrs Ann Evans | 872407 |
| TACHWEDD | HYDREF 27 | LLANBERIS | Mr Gwilym Evans | 872034 |
| RHAGFYR | RHAGFYR 1 | CAEATHRO | Mr Clive James | 677438 |

**Diolch i'r cysylltwyr am'eu cefnogaeth.**

# *Llythyrau*

## GAIR O DDIOLCH

*Annwyl Olygydd,*

***A gaf i, trwy gyfrwng eich papur, ddiolch i'ch darllenwyr a gefnogodd Plaid Cymru yn yr etholiad diweddar i Senedd Ewrop. Rydym bellach wedi sefydlu ein hunain fel yr ail blaid yng Nghymru, ar y blaen i'r Toriaid a'r Rhyddfrydwyr yn ein cefnogaeth. Roedd ein canran o'r bleidlais dros Gymru gyfan yn 17% — yr uchaf a gawsom erioed. Roedd nifer y pleidleisiau a gawsom yn fwy nag yn yr Etholiad Cyffredinol, er gwaetha'r canran isel a bleidleisiodd.***

***Diolch hefyd i'n gweithwyr a'n cefnogwyr am eu gwaith caled, ac i'r cannoedd sydd wedi cyfrannu'n ariannol i'r ymgyrch. Fe gostiodd yn ddrud i gael ein neges i bob tŷ yng Nghymru a hynny heb gefnogaeth cwmnïau mawr na'r undebau llafur, rydym yn llwyr ddibynnol ar haelioni unigolion i'n galluogi i ymgyrchu. Byddaf yn falch o glywed gan gyfeillion a ddymunant ymaelodi â'r Blaid neu sydd am gael rhagor o wybodaeth.***

***Dangosodd yr ymgyrch yn glir pa mor bwysig yw sicrhau llais cryf i Gymru yn yr Ewrop newydd sy'n datblygu, os ydym am osgoi cael ein gweld fel rhanbarth ar y cyrion — rhan o ynys nad ydyw'n sicr o'r cysylltiad Ewropeaidd. Dim ond gyda'n Senedd ein hunain y cawn lais gwir effeithiol yn Ewrop. A dim ond gwaith caled a diflino Plaid Cymru a ddaw a Senedd i'n gwlad.***

*Yn gywir iawn,*

*DAFYDD WIGLEY, A.S.*
*Llywydd Plaid Cymru*

## Aduniad y Coleg Normal 1954-56

*Neges yw hon i gyn-fyfyrwyr y Coleg Normal gychwynnodd ar eu gyrfa yno fis Medi 1954 — ddeugain mlynedd yn ôl, ymhell cyn sôn am bapurau bro, y Beatles na Mrs Thatcher.*

*Y mae Aduniad yn cael ei drefnu i Gynhaeaf '54 ddydd Sadwrn, Medi'r 10fedeleni yn y Coleg. Bydd cyfle i weld y Coleg ar ei newydd wedd a threfnir pryd o fwyd yn ogystal â chyfle am sgwrs hefo hen gyfeillion. Bydd gwely a brecwast ar gael hefyd os bydd angen.*

*Am fanylion llawn dylid cysylltu, cyn Awst 15eg, ag Ella Owens (Jones-Williams gynt), Carwyn, Ffordd Pentraeth, Ynys Môn. Ffôn: (0248) 712573. Neu gellir ei ffonio yn ei gwaith yn y Normal ar (0248) 370171, estyniad 382. Bydd manylion ar gael hefyd ym mhabell y Coleg ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghastell Nedd.*

*Croeso i unrhyw un gysylltu â mi isod.*

*HAFINA CLWYD*
*Tafwys, 36 Erw Goch,*
*Rhuthun, Clwyd*
*Ffôn: (0248) 702179*

*71 Bramham Drive*
*Harrogate*

*Annwyl Olygydd,*

*Roedd yn bleser darllen Eco'r Wyddfa a deall bod Antur Padarn yn bwriadu cofio'r diwrnod y distawodd ergydion y creigiau yn Chwarel Dinorwig. Nid oes llawer o weithwyr y graig ar ôl ym Môn nac Arfon. Fe garwn pe bai'n bosibl i'r rhai sy'n weddill gael eu cyrchu at ei gilydd ar ddiwrnod y dathlu. Roedd y Chwarel yn fywoliaeth i'r cymoedd. Mae modd cysylltu'r ddau beth, sef Craig yr Undeb a'r Chwarel er mwyn gwneud y cyfan yn hanesyddol ac ehangu ar ardal Llanberis. Dymunaf bob llwyddiant i Antur Padarn.*

*Ddau fis yn ôl roeddwn yn ymfalchio fy mod yn derbyn Eco'r Wyddfa yn rheolaidd. Ond fe garwn pe byddai y gohebwyr lleol yn casglu mwy o newyddion eu hardal. Byddai mwy o newyddion o ddiddordeb i 'Gymry ar Wasgar' fel fi. Mae llawer ohonom wedi bod yn ddiffuant hefo'r iaith, ac wedi herio'r Sais a gwrthod cymryd ein perswadio ganddo i'w anghofio. Mae'r Eco, fel Yr Herald Cymraeg, wedi bod o gymorth difesur i'n helpu i wneud hyn. Gwn yn eithaf da bod llawer o ddigwyddiadau wedi cael eu hanwybyddu gennych, a chaf sioc weithiau wrth ddeall amdanynt pan fyddaf yn ymweld â'r ardal. Bu llawer o ardalwyr gweithgar Chwarel Dinorwig yn aelodau o gôr y gwaith a chorau'r fro dan arweiniad pobl leol fel Mr Charlie Owen, Llanberis, a Mr Bob Lloyd, Brynrefail, a Mr John Peleg Williams. Ac yn aml, wrth ymweld â'r ardal byddaf yn holi 'Ble maent?' a chael yr ateb trist eu bod bellach 'yn dawel ym mynwent y llan'. Minnau heb ddeall am y bylchau newydd yn y gymdeithas.*

*Yn gywir iawn,*

*STANLEY GRIFFITHS*

**Byddai llythyr yn dda**
**Cyn diwedd yr ha'**


# CRONFA GOFFA R. H. OWEN

**Gwahoddir ceisiadau am grantiau a benthyciadau o'r Gronfa uchod. Ceir y manylion a'r amodau drwy anfon amlen gyda stamp a chyfeiriad arno i'r Ysgrifennydd:**

**John H. Hughes**
**Tan y Clogwyn**
**LLANBERIS, Gwynedd LL55 4LF**

**Ffôn: (0286) 871562**

**Y ceisiadau i gyrraedd yr Ysgrifennydd erbyn Awst 31ain 1993. Ni ystyrir unrhyw gais a ddaw i law ar ôl dyddiad cau penodedig.**

**GERAINT OWEN**
Gosodwr carpedi a phob math o loriau
**Cil-y-Mynydd**
**WAUNFAWR**
**Ffôn: Waunfawr 650552**

# CYFARFOD CYHOEDDUS

**Cafodd Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd yn Llanberis i godi ymwybyddiaeth rhieni o broblem cyffuriau yn yr ardal a'u rhybuddio o'r peryglon gryn sylw yn y wasg yn ddiweddar. Trefnwyd y cyfarfod gan y Cynghorydd Noel Davies sydd, ymysg eraill, wedi dod yn ymwybodol o'r cynnydd yn y camddefnydd o gyffuriau ymhlith rhai o bobl ifanc y fro yn ddiweddar.**

Un o'r siaradwyr yn y cyfarfod oedd PC Alan Bevan, un o Swyddogion Cyswllt y Gymuned yr heddlu. Cychwynnodd drwy sôn wrth y nifer sylweddol o rieni ac eraill oedd yn bresennol am y problemau sy'n gysylltiedig a chamddefnydd o'r cyffuriau 'cyfreithiol' megis tybaco ac alcohol cyn symud ymlaen i drafod cyffuriau eraill.

Amlinellodd wedyn y mathau o gyffuriau 'anghyfreithiol' sydd bellach yn gyffredin yn yr ardal gan egluro'r peryglon a ddaw yn eu sgîl. Disgrifiodd hefyd rai o'r symptomau allai awgrymu wrth rieni bod eu plant yn eu defnyddio.

Siaradwr arall oedd Glyn Roberts o Uned Hybu Iechyd Gwynedd. Dywedodd Mr Roberts, 'y sialens fwyaf i gymunedau yw derbyn bod cyffuriau yn cael eu gweld fel pethau deniadol, a mynd ymlaen o'r fan honno i ddarparu rhywbeth i'r ieuenctid i'w denu oddi ar y strydoedd — rhywbeth sy'n fwy deniadol.'

Un o ganlyniadau'r cyfarfod oedd sefydlu grŵp llywio i edrych ar ddulliau i frwydro yn erbyn y cynnydd yn y camddefnydd o gyffuriau gan bobl ifainc. 'Dim beirniadu na moesoli oedd bwriad y cyfarfod,' meddai'r Cynghorydd Davies, 'ond cael ein haddysgu am y problemau. Beth sydd ei angen yn awr yw ymateb positif nid agwedd negyddol.'

## ATHRAWES YN YMDDEOL

Mae un o athrawon Ysgol Dolbadarn, Llanberis, wedi penderfynu cymryd ymddeoliad cynnar yr haf yma. Bu Mrs Jane Roberts yn athrawes yno ers rhagor nag ugain mlynedd, a does dim peryg y bydd yn gallu anghofio am Ysgol Dolbadarn ar ôl ei hymddeoliad gan ei bod yn byw ar y terfyn â buarth yr Ysgol. Mae wedi dysgu plant o bob oedran yn yr Ysgol yn ystod ei gyrfa, a chafodd ddwy flynedd o secondiad yn ddiweddar i deithio o gwmpas ysgolion eraill ynglŷn â phrosiect mathemateg. Ar hyn o bryd mae'n dysgu'r plant lleiaf. Dymunir yn dda iddi ar ran staff, plant a rhieni'r Ysgol. Diolch yn fawr iawn, Jane, am bob dim ar hyd y blynyddoedd. Mwynha dy ymddeoliad — bydd chwith mawr ar dy ôl! Gyda llaw, hi oedd yn gofalu am Ddyddiadur yr Eco yn y blynyddoedd cynnar.


Cefnogwch ein Hysbysebwyr


## DDEUNAW MLYNEDD YN ÔL

Roedd stori flaen yr Eco yng Ngorffennaf 1976 yn dweud bod 80 o grefftwyr newydd ddychwelyd i'w gwaith ar safle Cynllun Trydan Dinorwig ar ôl bod ar streic am bump wythnos. Doedd y cyflogwyr MBZ ddim yn cydnabod unebau llafur y crefftwyr; ac roedd y crefftwyr yn anhapus bod y cwmni oherwydd hynny wedi bod yn cyflogi pobl ddi-grefft fel ffitwyr yn y gwaith.

* * * *

*Yn y golofn lythyrau roedd tri llythyr yn ymateb i'r cynllun i godi'r Oriel newydd yn Llanberis. Mae'n rhyfedd meddwl erbyn bod y tri llythyr yn amau doethineb codi'r Oriel newydd.*

* * * *

Sonia'r Draenog am werthwr tai lleol oedd wedi hysbysebu am ysgrifenyddes gan nodi 'Welsh not essential'.

* * * *

*Roedd hysbysiad bod pwyllgor Carnifal Llanberis wedi penderfynu trefnu ras i ben y Wyddfa ac yn ôl ar ddiwrnod y Carnifal, a gwahoddiad i bobol gymryd rhan ynddi.*

* * * *

Roedd y dudalen chwaraeon yn dweud bod Clwb Pêl-droed Llanrug wrthi'n gwella'r cae, ac yn hyderus y byddai wyneb gwell o lawer i'r cae y tymor dilynol.

## 'GYDA'N GILYDD' YN YR YSGOL SUL

Cynhaliwyd cyfarfod yn festri Capel Coch, Llanberis, nos Lun, Mehefin 27, i gyflwyno'r maes llafur newydd i Ysgolion Sul yr ardal. Agorwyd y cyfarfod gan y Parchg John Morris a chyflwynwyd y maes llafur newydd gan y Parchg John Pritchard.

Paratowyd y deunydd 'Gyda'n Gilydd' gan Y Cyngor Ysgolion Sul, a bwriedir iddo gael ei ddefnyddio o fis Medi eleni ymlaen. Mae'r cynllun yn newydd ac yn wahanol gan y bydd pawb yn yr Ysgol Sul yn trafod yr un darnau o'r Beibl, ond wrth gwrs mae deunydd arbennig ar gyfer pob oedran. Mae chwech o lyfrau yn y gyfres 'Gyda'n Gilydd'; dau lyfr athro, tri llyfr gweithgarwch ar gyfer plant ac ieuenctid o wahanol oedran, ac esboniad i'r oedolion. Oherwydd bod llawer o Ysgolion Sul yn cael eu cynnal heb fawr o gysylltiad rhyngddynt ag oedfaon yr eglwysi, darparwyd gwasanaethau fel rhan o'r cynllun, a gobeithir y bydd y rhain yn cael eu defnyddio bob mis er mwyn rhoi cyfle i blant yr Ysgol Sul ac aelodau yr eglwysi gael dod at ei gilydd i addoli.

**Mae'n bwysig bod yr Ysgolion Sul yn archebu'r llyfrau ar unwaith er mwyn gwneud yn siŵr bod ganddynt stoc ddigonol erbyn mis Medi. Ceir manylion pellach oddi wrth y Cyngor Ysgolion Sul, Canolfan Genedlaethol Addysg Grefyddol, GPGC, Ffordd Deiniol, Bangor; neu oddi wrth y Parchg John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis (ffôn: 872390). Gyda llaw, y mae gostyngiad o 10% ar bris yr holl lyfrau ar gael i'r Ysgolion Sul.**

Daeth cynrychiolaeth dda o Ysgolion Sul Dyffryn Peris i'r cyfarfod. Roedd yn braf cael cyfle i gyfarfod i drafod y gwaith gydag Ysgolion Sul eraill. Cyfeiriwyd at y ffaith bod rhai o eglwysi'r ardal wedi dod at ei gilydd i drefnu un Ysgol Sul. Awgrymwyd yn y cyfarfod y byddai'n beth da petae rhagor o eglwysi bro'r Eco yn gallu cydweithio â'i gilydd i ddarparu Ysgol Sul.



*Tîm dan 12 oed Llanberis: pencampwyr Cyngrair Gwynedd eleni. Llongyfarchiadau i'r hogia.*

## DRAENOG

**Clywais ddwy stori hynod o debyg yn ddiweddar, un am athrawes drefnus o'r ardal a'r llall am wraig o Lanbêr. Aeth un i Gaernarfon ar ôl ysgol i brynu anrheg go werthfawr, a'r llall i Glynnog i weld ffrind arbennig a chael hanner dwsin o wyau yn anrheg. A wyddoch chi beth wnaeth y ddwy? Mi ddreifiodd un efo'r anrheg ar gaead bŵt y car yr holl ffordd o Gaernarfon i Siop Sglodion Llanrug a'r llall yr holl ffordd o Glynnog i Lanbêr efo'r wyau yn eu bocs ar y to! Pwy ddeudodd fod 'women drivers' yn beryg — mi siarsiai na fuasai'r un dyn wedi dreifio mor bell efo'r parsel na'r ŵy heb syrthio.**

## DRAENOG

### GWASANAETH DWYDIEITHOG YN NEINIOLEN

**Ychydig wythnosau'n ôl y cennad ym mhulpud Ebeneser oedd y gŵr ifanc hwnnw o Fangor a fu'n weinidog ar un o eglwysi'r cylch tan iddo ymddeol yn weddol ddiweddar. Llywydd y dydd yn y capel oedd gŵr o'r un enw a'r pregethwr. Yn ôl a ddeallaf, bu trafodaeth ynglŷn â emynau'r gwasanaeth boreol. Wrth ddringo i fyny i'r pulpud sylwyd ar gerdyn yn syrthio ar lawr y sedd fawr a bu i'r llywydd yn hollol gydwybodol basio'r cerdyn a restrai rifau emynau i'r gweinidog. Lediwyd yr emynau gydag arddeliad gan gynnwys un Saesneg, sydd gyda chyfieithiad Cymraeg ohonni yn 'Y Caniedydd', yn ogystal a rhan-gân gan Bach — 'Capel Dewi' i'r gwybodus rai sy'n hynod o anodd i'w chwarae ar yr offeryn.**

**Ar ôl yr oedfa mynegwyd syndod gan un o'r gynulleidfa am y dewis o'r emynau a bu i'r ddau ŵr o'r un enw ddechrau beio'i gilydd. Erys dau gwestiwn, sef pwy oedd perchennog y rhestr emynau ac ai rhestr o 'Atodiad Llyfr Emynau'r Presbyteriaid a'r Wesleaid' oedd? Pwy ŵyr ynte? Tipyn o ddiffyg yn y drefn, mae'n debyg.**


**W.J.GRIFFITH**
PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
Pant Tirion, Llanrug
Ffôn: Caernarfon 673248
Gosodwyr Nwy Cofrestredig Corgi
CORGI GAS IN SAFE HANDS
Aelod o'r *Association of Mechanical Services Contractors*
*Dim un dasg rhy fychan*
*Dim un dasg rhy fawr*



Am Wasanaeth
Fframio Lluniau
Tystysgrifau
Tapestri
am brisiau rhesymol
**ELWYN PRITCHARD**
Parc Padarn, Llanberis
Ar agor Llun – Sadwrn
10.00 – 4.30
Ffôn: Llanberis
**870922**

# CHWILOTA



## PLAS GLANGWNA
## CAEATHRO

**Yn ystod y cyfnod pan ysgrifennwyd y caneuon yn Eisteddfod Caeathro am y plas 'newydd', John Ernest Greaves oedd y perchennog. Roedd yn fab i J. W. Greaves, Plas Waenydd, Ffestiniog, a dilynodd ei dad i fyd busnes: roedd yn berchen ac yn rheoli nifer o chwareli llechi yn ardal Blaenau Ffestiniog. Fe'i ganed yn 1847 a phriododd yn 1875 â Marianne Rigby o Lundain. Dyma'r cyfnod, mae'n debyg, pryd y daeth ef a'i wraig i fyw i Blas Glangwna. Roedd eisoes yn Ustus Heddwch ac wedi bod yn Arglwydd Raglaw Sir Gaernarfon ers 1886. Fe'i etholwyd yn ddiweddarach yn Gadeirydd Cyngor Sir Gaernarfon. Ar wahân i Blas Glangwna roedd Bron Eifion, Cricieth yn eiddo iddo hefyd.**



*Plas Glangwna: llun a dynnwyd gan y Parchg Hugh Williams, Rheithor Llanrug, ar gyfer ei gyfrol* Rural Welsh Parishes *a gyhoeddwyd yn 1907 i ddathlu adfer adeiladwaith eglwys blwyfol Llanrug.*



*John Ernes Greaves, perchennog Plas Glangwna.*

### Gwregysau haearn yr arch dderw

Yn dilyn yr ysgrif 'Colledig' gan y Gwalch fis diwethaf, daeth galwad ffôn gan Elwyn Jones, Dunstable, yn nodi fod cysylltiadau lleol ag arch y milwr anadnabyddedig. Dywedir yn yr ysgrif fod yr arch ffawydd a ddefnyddiwyd i gario'r corff o Ffrainc wedi ei chyfnewid am arch o dderw o goed Parc Hampton Court — *'Roedd hon wedi ei rhwymo a gwregysau haearn'.* Dywed Elwyn Jones mai o Gaernarfon y daeth y gwregysau haearn: wedi eu llunio'n arbennig gan gwmni enwog D. J. Williams, Ironworks.

Pan oedd Elwyn Jones yn brentis yn Swyddfa'r Herald yng Nghaernarfon un o'i oruchwylion oedd mynd â chynion yr Herald i waith D. J. Williams i'w hogi. Yno, mae'n cofio gweld hen lyfr nodiadau yn dweud hanes y gwregysau haearn. Mae'n ymddangos fod y mesuriadau anghywir wedi eu rhoi i'r cwmni o Gaernarfon, a phan aeth D. J. Williams ei hun i Lundain y sylweddolwyd y camgymeriad. Anfonwyd y mesuriadau cywir yn ôl i Gaernarfon a bu'r gweithwyr wrthi'n ddiwyd trwy'r nos yn ffurfio rhai newydd i'w hanfon yn ôl ar y trên. Oes rhywun o'r darllenwyr all gadarnhau'r stori?

### Cystylltiadau a'r Wladfa

Diolch i D. M. Jones, 17 Lôn y Bryn, Caernarfon, am wybodaeth ychwanegol ynglŷn â chysylltiadau'r fro hon â Phatagonia. Mae'n ysgrifennu: *'Roedd chwaer i 'nhad wedi priodi William Williams o Langefni, saer coed wrth ei alwedigaeth. Roeddent yn byw yn Lerpwl, ac aeth Yncl Wil allan i Batagonia. Daeth ei wraig yn ôl i Glwt y Bont i fyw at ei mam. Dychwelodd Yncl Wil i Gymru a bu'n gweithio fel saer coed, gan wneud eirch yn bennaf. Roedd y Parch. Bryn Williams a Nefydd Hughes Cadfan yn ymwelwyr cyson â'i gartref.'*

### Hanes teulu o Ddinorwig

Mae un o'r darllenwyr yn chwilio i hanes Dafydd Owen Thomas, Bwlch Gwynt, Dinorwig. Catrin oedd enw ei wraig a bu hi farw yn hen wraig dros 90 oed tua 1939. Credir fod merch iddynt wedi bod yn cadw siop yn Nghlwt y Bont a Brynsiencyn. Cafodd brawd i Dafydd Owen Thomas — Robert, neu Bob, ei ladd yn Chwarel Dinorwig tua 1936-36. Mae'n bosibl eu bod yn hannu o deulu'r Garreg Wen. Oes rhywun a gwybodaeth, cysylltwch â mi.

### Bryn Fynwent

Mae nifer o gaeau yn cario'r enw hwn i'w cael yn agos i eglwysi plwyf, fel y gellid disgwyl; ond yn ddiweddar deuthum ar draws 'Bryn Fynwent' yn enw ar gae ar dir y Gwredog Uchaf, Waunfawr, uwchben yr afon Gwyrfai. Does dim eglwys yn agos i'r lle — na mynwent 'chwaith am a wn i. Oes rhywun yn yr ardal ag eglurhad am yr enw yn y fath leoliad?

### Hen Grwydriaid

Mae D. M. Jones, Caernarfon, wedi cysylltu hefyd i'n hatgoffa nad yw agwedd pawb tuag at grwydriaid yr un fath ag un John Major. Mae hi'n cofio aros ar fferm ei thaid, ger Caernarfon, ac yntau yn caniatáu i grwydriaid gael cysgu'r nos yn llofft y beudu. Oes gan rywun arall atgofion am grwydriaid yn yr ardal?

### Traethodau'r Waen Gynfi

Diolch i gynifer ohonoch a fu'n anfon am gopiau o'r uchod. Mae'r cyfan yn gwerthu'n dda ac yn help i chwyddo cronfa'r 'Eco'. Mae rhywfaint yn parhau ar ôl heb eu gwerthu. Bargen am bunt!

Stori ddiddorol? Angen gwybodaeth? Briwsion blasus o'r gorffennol? Cofiwch gysylltu â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug (0286) 673515.

# DRAENOG



**Mae'r rhaglenni teledu yn ystod y gwanwyn a'r haf yn llawn o gynghorion gwerthfawr i arddwyr ar sut i gadw eu planhigion rhag ymosodiadau gwahanol bryfetach, llygod neu adar. Mae garddwr o Lanrug nid yn unig yn twyllo'r holl greaduriaid hyn ond yn achosi cryn benbleth iddo fo'i hun a'i deulu hefyd. Er iddo blannu rhesi o datws a'u gwarchod rhag chwilod a malwod, doedd dim golwg o dyfiant yr un ohonynt. Roedd o wedi 'codi at' pob un o'r rhesi — ond un; a doedd dim sôn am ddeilen yn ymddangos yn honno. Penderfynwyd ymchwilio i berfeddion y rhes — a sylweddoli ei fod wedi anghofio rhoi tatws hâd ynddi!**


Wavell Roberts
CIGYDD
London House
LLANRUG
Ffôn: C'fon 673574
PEN CIGYDD Y FRO
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

Am eich
ANGHENION ADEILADU
mawr a bach
MASNACHWYR A "D.I.Y."
am
BRISIAU CYSTADLEUOL
dewch at
BRYN
(B & K Williams)



Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn: 677482

IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484
★ Bysiau o 12 i 53 sedd
★ Teithiau Lleol a Thramor
★ Gwaith Contract
★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

## 'Un funud fach . . .'

### PA FATH O BOBOL?

Nid tîm criced Lloegr yw'r gorau yn y byd. Y gwir yw bod y Saeson wedi cael amser go ddiflas ar y cae criced dros y flwyddyn ddiwethaf. Curwyd hwy'n rhacs gan Awstralia ac India'r Gorllewin y llynedd. Doedd dim syndod felly bod ambell i chwaraewr wedi cael y sac pan benodwyd Ray Illingworth yn reolwr newydd i'r tîm eleni. Cael y sac fu hanes dyn efo enw tebyg i Dighby-Wight. Nid batiwr na bowliwr mo hwnnw, ond caplan swyddogol y tîm. Penderfynodd Mr Illingworth nad oes angen gwasanaeth caplan bellach.

Doedd penderfyniad y rheolwr ddim yn fy synnu. Nid wyf yn gweld bai arno, nac yn poeni'n ormodol na fydd gan y cricedwyr gaplan o hyn allan. A bod yn onest, mae'n debyg na fyddwn wedi meddwl ddwywaith am y stori oni bai am esboniad Ray Illingworth dros ei benderfyniad. Dweud oedd nad oes yna le yn ei dîm ef i'r math o berson sy'n debyg o fod angen gwasanaeth caplan. Ai dweud mae Mr Illingworth na all dyn sy'n credu yn Nuw fod yn ddigon cryf neu'n ddigon dawnus neu'n ddigon brwdfrydig i chwarae criced?

Pa fath o bobol sy'n mentro i ben draw'r byd i rannu newyddion da'r Efengyl? Pa fath o bobol sy'n dioddef carchar yn hytrach na gwadu Iesu Grist? Pa fath o bobol all fod yn dawel trwy bob math o ddioddefaint a phroblem? Pa fath o bobol sy'n rhoi oes o deyrngarwch i gapel ac eglwys? Pa fath o bobol sy'n gweini ar y gwan a'r gwael? Pa fath o bobol all wynebu marwolaeth yn llawn gobaith? Mae'n bosib eich bod chi fel finnau wedi darllen a hyd yn oed wedi cael y fraint o adnabod pobl o'r fath. Pobl sy'n gwybod yn iawn am eu gwendidau eu hunain, sy'n ymwybodol o'u methiannau, ond sy'n ymddiried yn nhrugaredd Duw. Pobl y mae Duw wedi rhoi gras a nerth iddynt i'w garu a'i wasanaethu.

Pobl sydd, trwy ras Duw, hyd yn oed yn ddigon dewr, ffyddlon ac ymroddgar i chwarae criced — cyn belled â'u bod nhw hefyd wedi cael y ddawn o drin bat a phêl!

JOHN PRITCHARD


Am bob math o **WYDR** wedi'i **DORRI, DDANFON NEU EI OSOD.** cysylltwch â

**Barrys GLASS**

**Camelot, PENISARWAUN**

**Ffôn: Llanberis 871144**


## PENISARWAUN

**Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407**

**Urdd Adran Bentref:** Bu amryw o blant yn cymryd rhan yn Mabolgampau'r Urdd yng Nghaernarfon yn ddiweddar. Diolchir i bawb a fu'n cefnogi a chludo'r aelodau. Treuliodd Elgan, Dion, Gareth, Erin ac Anna benwythnos braf yng ngwersyll Glan-llyn yn ystod mis Mehefin. Diolchir i Susan, Anti Janice ac Anti Carolyn am ofalu amdanynt.

**Parti Pippa Dee:** Dymuna Elizabeth Jones ddiolch i bawb a gefnogodd y parti a gynhaliwyd yn yr Ystafell Gymuned er budd yr Urdd. Gwnaed elw o £48.

**Ysgolion Sul y Pentref:** Bu'r plant yn cymryd rhan yng ngwasanaeth Sul y Beiblau a gynhaliwyd yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen. Diolchir i'r plant am eu cyfraniadau clodwiw ac i'r holl athrawon fu'n eu hyfforddi.

**Y Trip:** Mae'r bws wedi hen lenwi a bydd yn cychwyn am 7.30 a.m. yn brydlon o groesffordd King. Gobeithio y ceir tywydd teg yn Blackpool.

**Genedigaeth:** Testun llawenydd bob amser yw genedigaeth plentyn bach. Llongyferchir Wendy a David Phillips ar enedigaeth mab bychan arall, Siôn Dafydd, brawd bach i Matthew a Gethin — dau arall a dyna dîm pump-bob-ochr i'w tad hyfforddi! Gobeithio fod David yn brysur fendio erbyn hyn.

Siôn yw enw bachgen bach newydd teulu 9 Bryn Tirion hefyd. Llongyfarchiadau a phob bendith i chwithau fel teulu.

**90 oed:** Anfonir ein dymuniadau da a chofion annwyl i Mrs Nellie Roberts, 12 Llys y Gwynt, ar gyrraedd yr oedran teg o 90 oed, ar yr ail o Orffennaf. Llongyfarchiadau Mrs Roberts a phob bendith.

**Cydymdeimlad:** Cydymdeimlir yn ddwys â Mrs a. Evans, 26 Bryn Tirion, ar golli ei brawd yng nghyfraith ym Mhen-y-groes.

Cydymdeimlir yn ddwfn â Miss Gwyneth Owen, Minffordd, yn ei phrofedigaeth o golli ei thad, un o hynafgwyr y pentref, Owen Idris Owen.

**Ysgol Gymuned Penisarwaun:** Fel rhan o'u thema ar 'Symud' aeth y Babanod ar drên bach Llyn Llanbêr yn ddiweddar ynghyd â Mrs Thomas a Miss Owen. Roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn a mawr oedd eu brwdfrydedd i ysgrifennu stori ac i wneud llun ar ôl dychwelyd. Mawr yw ein dyled i Mr Ken Newis o 'Partneriaeth Addysg a Busnes' am drefnu'r ymweliad ar ein rhan.

Ar ymweliad tra gwahanol y bu Blwyddyn 6 pan aethant i Ysgol Brynrefail yn ddiweddar. Ymweliad cyn trosglwyddo yno ym mis Medi oedd yr achlysur ac fe gafodd y saith ohonynt gyfle i flasu diwrnod arferol yn yr ysgol uwchradd. Diolch i'r prifathro, Mr Grisdale, am ei wahoddiad ac i staff yr ysgol am eu gofal ohonynt yn ystod yr ymweliad.

Cymerodd y dosbarth hynaf ran yn y cynllun chwaraeon yn Ysgol Brynrefail yn ddiweddar. Cyfle yw hwn i'r plant brofi ystod eang o chwaraeon dan arolygyddiaeth hyfforddwyr profiadol. Bu'n bnawn difyr iawn ac o'r wynebau coch a welwyd roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn.

Croeso yn ôl i Miss Bethan Williams sydd newydd ddychwelyd atom ar ôl treulio pythefnos yng Nghanolfan MOIRA yn Budapest, Hwngari. Diolch i Mrs Gladwen Pritchard a fu'n ein cynorthwyo yn ystod absenoldeb Miss Williams.

**Cyfeillion yr Ysgol:** Cynhaliwyd Sêl Cist Car hynod o lwyddiannus eto eleni ar fuarth a chae yr Ysgol Gymuned. Daeth oddeutu deg ar hugain o geir gyda'u byrddau gwerthu. Gwnaed elw sydyn a sylweddol ar y noson drwy werthu teisennau, raffl a mân nwyddau. Diolchir i'r rhai fu'n brysur yn gwneud y baned. Enillwyr y raffl oedd Gwenda, Gareth, Ann Ifans, Ann Thomas, Keith o Gwm-y-glo ac Amanda Orrock. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd, cynorthwyodd ac a brynodd yn ystod y noson.

**'Ar ei phen bo'r goron':** Llongyfarchiadau gwresog i Eurgain Haf ar gyrraedd y brig drwy ennill Coron Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Meirionnydd. Yn sicr bu dylanwad y pentref bach hwn a'r fro gyfoethog hon yn gryf iawn arni gan mai yma yn ysgol fechan Tan-y-coed, Ysgol Sul Bosra ac Eisteddfod y Pentref y taniwyd y diddordeb mewn ysgrifennu. Cipiodd y gwpan sawl tro yn Eisteddfod y Pentref ac fe ddaeth yn ail, yna'n drydydd ac yna yn cipio Cadair Ysgol Brynrefail. Enillodd un o brif wobrau Celfyddydau Gogledd Cymru ynghyd â'r Fedal Ddrama yn Eisteddfod Ryng-golegol eleni. Dymunir pob bendith a'n dymuniadau gorau i'r dyfodol iddi.

**Cydnabyddiaeth:** Dymuna Eurgain ddiolch yn ddiffuant iawn am y llu cardiau, galwadau ffôn a rhoddion a dderbyniodd ar achlysur ennill y Goron ym Meirionnydd. Dymuna ddatgan ei gwerthfawrogiad am bob anogaeth gan ei rhieni, athrawon Tan-y-coed ac Ysgol Brynrefail. Diolch o galon.

**Ysgol Feithrin:** Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi y gweithgareddau codi arian yn ystod y flwyddyn. Diolch yn fawr i bawb.


Heliwch eich traed am fargen i

**SIOP ESGIDIAU GLENS**

**Stryd Fawr LLANBERIS**

**Ffôn: 871470**





**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**


## CEUNANT

**Trystan a Sioned Larsen, Bodafon (Waunfawr 799)**

**Cydymdeimlo:** Anfonwn ein cydymdeimlad i Robart Jones, Penhafodlas, ac Owain Jones, Garth, ar golli eu chwaer Mrs Annie Hughes, Bryn, Cwm-y-glo, a fu arw ar y 18fed o Fehefin.

## TAN Y COED

**Annwen Parry, Ael y Bryn Ffôn: 872276**

**Diolch:** Dymuna John Parry a'r teulu, Ael y Bryn, ddiolch am bob gair o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl — Mrs Ellen Jane Parry (Arwel, Groeslon gynt). Diolch hefyd am y cyfraniadau tuag at Gapel Brynrodyn.

**Yn yr Ysbyty:** Drwg gennym fod Mr Emyr Tomos, Tanycae, wedi dychwelyd i Ysbyty Gwynedd. Dymunwn wellhad buan iddo.

## BRYNREFAIL

**Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580**

**Cymdeithas y Chwiorydd:** Cyfarfu'r Gymdeithas yn y Festri, nos Iau, Mehefin 2, dan lywyddiaeth Miss Lowri P. Roberts. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Mrs Ellen George yn seiliedig ar 'Y Gwynfydau'. Gŵr gwadd y noson oedd Mr J. H. Hughes, Llanberis, a chafwyd sgwrs ddifyr ganddo am gymeriadau a ddylanwadodd arno yn ystod ei fywyd. Diolchwyd iddo gan y llywydd a Mrs Betty Owen. Paratowyd y baned gan Mrs J. A. Roberts a Mrs J. Maxwell. Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Iau, Gorffennaf 7fed, pryd y disgwylir Mr Selwyn Griffith, Penisarwaun, i roi sgwrs.

**Cofion:** Anfonwn ein cofion at Mr W. Evans, Cae Gwyddel, sydd wedi bod am gyfnod yn Ysbyty Gwynedd ac yn awr yn Ysbyty Eryri, Caernarfon.

**Cydymdeimlo:** Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Eirianwen Evans, 1 Ffrwd Madog, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd, y diweddar Mr Alun Evans, Pen-y-groes, ar Fehefin 12fed.

**Graddio:** Llongyfarchiadau i Catrin Gwyn, Rhandir, ar ennill gradd anrhydedd mewn Sbaeneg a Ffrangeg yn Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

**YSGOL FEITHRIN PENISARWAUN**

**SÊL CIST CAR**

**YN YNYS LLECHARIAN LLANDDEINIOLEN**

**(ger cylchfan Tŷ Mawr)**

**NOS FERCHER, GORFFENNAF 12**

**am 6 o'r gloch**

**Bydd lluniaeth ar gael**

# O SIAMBAR SELWYN

**Mi fydd diwrnod hiraf y flwyddyn wedi llithro i'r gorffennol cyn i chi ddarllen y geiriau hyn. Ys gwn i a fydd gwenau'r haf wedi disgyn arnon ni? Ta waeth, tra rydwi'n sgwennu hyn o eiriau mae hi'n hynod o drymaidd ac yn dywydd sychedig, ac mae hyn yn fy atgoffa i am erthygl Dafydd Whiteside yn y rhifyn diwethaf o'r Eco ac am ei ymholiad ynglŷn â thafarndai.**

Dwy sbonc llyffant o'r lle y saif tafarn Y Bedol ym Methel heddiw mae'r hen dyddyn bach a adwaenir fel Blaen Rhos. Tua'r flwyddyn 1830 bu un o'r enw Wil Ffowc (Llwyn Bedw) yn cadw tafarn yma. Gwnaed mwy nag un cais yn yr hen ddyddiau i sefydlu tafarn ym Methel ond bu'r cyfeillion dirwestol yn gadarn yn erbyn a buont o flaen yr Ynadon bum gwaith yn gwrthwynebu'r ceisiadau.

Ceisiodd rhai gael trwydded i agor tafarn yn y lle a adweinir Gwynant — (yr hen Siop James Davies i ni blant Bethel) tua'r flwyddyn 1870, ond oherwydd i'r ardalwyr sefyll yn gryf yn erbyn y bwriad a chael nifer helaeth o'r pentrefwyr i arwyddo deiseb — aeth yr ymdrech i'r gwellt.

Rhaid cofio fodd bynnag fod yfed cwrw yn arferiad eitha cyffredin yr adeg honno. Clywais i'r Hybarch David Griffith (cyn-Weinidog Bethel) fynd i bregethu i'r Bont-newydd ar gefn ei geffyl un noson boeth yn yr haf, ac iddo fynd i mewn i'r dafarn yno a gofyn am 'beint o'r cwrw gorau a hwnnw mewn powlen os gwelwch yn dda'. Yfodd ef ar ei dalcen ac yna ar ei union i bulpud Bontnewydd i bregethu'r Gair. O leiaf ni ellir honni fod David Griffith yn bregethwr sych! Beth oedd ymateb y saint ys gwn i?

Os am stori ynglŷn â Blaen Rhos fel tafarn, darllenwch *Hen Atgofion*, W. J. Gruffydd (tud. 91). Sonnir am nai Wil Ffowc y tafarnwr wedi cael mwy na llond ei geubal yno. Tua deg o'r gloch codwyd Owen ar gefn ei gaseg gan droi ei phen i gyfeiriad ei gartref, sef Cae Meta, fel y gwnaed sawl tro cyn hynny. Cyrhaeddodd y gaseg adre'n ddiogel ond nid oedd sôn am Owen, 'yr unig arwydd ohono oedd cornaid o wirod yn hongian wrth y cyfrwy'. Er chwilio amdano drwy'r nos ni ddaethpwyd o hyd iddo. Bore trannoeth yr oedd gŵr o'r Felinheli wrth giât Eglwys Llanddeiniolen yn holi a oedd 'na rhywun o'r plwyf ar goll. Aed i lawr i'r Felinheli a phwy oedd yn yno yn eistedd ar seld tua allan ar fuarth fferm y Bwsh, ond Owen. Yr oedd wedi cael ei 'fwrw'n llaprwth' o'r awyr ar fuarth y Bwsh ychydig wedi deg nos Sadwrn, yn wir o fewn ychydig funudau o'r adeg y rhoddwyd o ar gefn Lloffti tu allan i Dafarn Blaen Rhos, tua dwy filltir o fferm y Bwsh. Byddai Owen o hynny ymlaen yn amseru pob digwyddiad yn y fro o'r amser 'y cipiodd y diawl fi i'r awyr oddi ar gefn y gaseg'.

Tra 'roedd Blaen Rhos yn dafarn fe anwyd yno un o'r enw Owen Williams, tua'r flwyddyn 1814. Dywedir ei fod yn ŵr hynod o ffraeth, ac wedi iddo dyfu'n llanc arferai ddiddori y cwmni a fyddai'n ymgynull yn Nhafarn Blaen Rhos. Ond buan y blinodd ar y bywyd diota ac fe ymunodd a'r Gymdeithas Ddirwestol. Yn y flwyddyn 1839, ac yntau yn 25ain oed, ymunod â'r Eglwys Annibynnol ym Methel a bu'n un o gewri'r Achos yno. Un o'i gyfeillion pennaf oedd John Griffith, Parc-y-wern a bu'r ddau farw o fewn wythnos i'w gilydd. Pan oedd Owen Williams ar ei wely angau dywedodd, 'Mi fydd John Griffith wedi synnu fy ngweld i'n dod i'r nefoedd mor fuan ar ei ôl o'. Byddai John Griffith yn arfer torri i wylo'n hidl wrth weddïo a dywedodd Owen Williams ar lan ei fedd, 'Ni chlywais Siôn Griffith yn gweddïo erioed na fu iddo dorri blwch enanint ar ben ei Waredwr, a byddai hynny yn fwy o fendith i'r addolwyr na dim'.

Yn Blaen Rhos y ganed Ffowc Williams a fu'n ysgolfeistr ym Methel, wedi ymddiswyddiad G. R. Hughes yn 1923, hyd 1929. Bu'n brifathro yn Llandudno am flynyddoedd wedyn a daeth i amlygrwydd y genedl fel cerddor, arweinydd a darlledwr. Bu'n gadeirydd 'Byd Natur' am flynyddoedd ac ef hefyd oedd cadeirydd pwyllgor gwaith Eisteddfod Genedlaethol Llandudno, 1963.

Pam y bu i mi eich arwain o'r siambar i'r dafarn y tro hwn deudwch? Wel rhowch y bai ar David Whiteside. Iechyd da i chi gyd.

## DAVID GRIFFITH

**Congl bleserus i droi i mewn iddi am stelc yw Siambar Selwyn. Cefais bleser neilltuol wrth alw heibio ym mis Mai. 'Roeddwn yn falch o ddarllen ei nodiadau ar y diweddar Barchedig Rhys J. Huws a chael fy atgoffa o gyfraniad pwysig eithriadol y gŵr nodedig hwn i fywyd crefyddol a diwylliadol pentref fy maboed.**

Rwy'n rhannu'r un amheuon â Selwyn ynghylch anwybodaeth sawl to diweddar o blant a fagwyd yn yr ardal am hanes y fro. Parodd hyn i mi godi cwestiwn arall — faint tybed o blant ac ardalwyr Bethel heddiw, yn wir faint o aelodau Capel Bethel, sy'n gwybod rhywbeth am yr un a sefydlodd achos yr Annibynwyr yno? Fawr neb mi wranta.

Gwrteithio a dyfrhau yr had a blannwyd fu tasg y Parchedig Rhys J. Huws. Cafodd fod y tir a etifeddodd o ansawdd dda, a'r tyfiant eisoes yn 'cynnar blaendarddu'. Ond pwy fu'n braenaru'r tir a'i gymhwyso ar gyfer y cynhaeaf?

Myfyriwr ifanc o'r Panteg, ym mhlwyf Llanegwad, Sir Gaerfyrddin biau'r clod am yr aredig arloesol a'r plannu cynnar. Deunaw oed oedd David Griffith pan dderbyniodd alwad i fugeilio eglwys ifan yr Annibynwyr ym Methel yn y flwyddyn 1814.

Mae'n debyg fod 'crefydda' wedi cyrraedd i ran isaf plwyf Llanddeiniolen beth yn hwyrach o ran amser na'r rhai o'r ardaloedd cyfagos. Erbyn dechrau 1800 roedd tri ar ddeg o gredinwyr ffyddlon yn addoli yn gyson yn y Coed Bolyn Bach — cartref gwraig weddw, wedi ei marw hi bu'r criw bychan yn cyfarfod i addoli ym mhen isaf y pentref, yn y Ddôl Ddeuto, neu'r Ddôl fel ei gelwir erbyn hyn.

Derbyniodd y praidd selog yma gefnogaeth a chyfarwyddyd gweinidogion capel Pendref, Cernarfon, ar y dechrau. Erbyn 1810 bu'r praidd yn ddigon hyderus i godi addoldy bychan ar yr un safle a'r un presennol, neu yn ôl yr Athro W. J. Gruffydd, 'ar gwr y rhos oergleiog a gwlyb'. Yn ôl pob disgrifiad adeilad bychan a diaddurn iawn, gyda llawr pridd a muriau moelion a godwyd yn 1810.

Yn 1814 gwnaeth y ddiadell ddau benderfyniad pwysig, dan gyfarwyddyd y Parchedig Ddr Lewis, gweinidog Pendref ar y pryd. Yn y lle cyntaf, gan fod nifer yr addolwyr yn araf gynyddu, penderfynasant ymestyn yr addolyd; ac yn ail penderfynwyd galw gweinidog i'w bugeilio.

Dan gyfarwydd y Dr Lewis o Gaernarfon syrthiodd y goelbren ar y myfyriwr ifanc o Sir Gaerfyrddin. Cytunodd David Griffith i'r alwad ar yr amod fod ei ordeiniad i'w ohirio am flwyddyn. Roedd am sicrhau dyfalbarhad a diffuantrwydd yr aelodau ieuainc yn y ffydd, cyn mentro selio'r cyfamod.

Roedd 1815 yn flwyddyn nodedig yn hanes Prydain gyda papurau newyddion y cyfnod yn clochdar am fuddugoliaeth waedlyd 'Bat Waterloo'. Roedd hi'n flwyddyn yr un mor nodedig yn hanes pentref Bethel a'r cylch hefyd. Dyma pryd yr ordeiniwyd David Griffith yn weinidog cyntaf yr Annibynwyr yno. Dyma hefyd pryd y cychwynnodd ar ei frwydr fawr i newid bywyd y werin yn y fro.

Dyma ei ddisgrifiad o gyflwr yr ardal ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg:

*Yr oedd tywyllwch ysbrydol i raddau mawr yn gordroi y gymdogaeth, y preswylwyr gan mwyaf a gashaent addysg, nid oedd pleser mewn dim ond chwarae interliwdiau, pel droed, cathclap, cardiau, ac ymladd ceiliogod. Dirmygent yn naturiol y neb a amcanai eu diwygio.*

Yn ddiamau daeth newid sylweddol ar fywyd yr ardalwyr yn sgil dyfodiad crefydd i'r ardal.

Llwyddodd gweinidogaeth y Parchedig David Griffith yn gynnar, yn bennaf oherwydd ei ymroddiad egniol i holl waith y Weinidogaeth. Tyrai'r tyrfaoedd o'r ardaloedd cyfagos i Fethel ar y Sul. Rhoddai bwyslais mawr ar gyhoeddi'r Gair, ac yn ôl y dystiolaeth roedd ganddo 'lais fel udgorn'. Gan ei fod hefyd yn eiddgar a dyfal i gyfrannu addysg grefyddol i'r ieuenctid buan y daeth dylanwad yr Ysgol Sul yn amlwg yn y fro. Yn sgîl ymdrechion y gweinidog o blaid y ddyletswydd deuluaidd codwyd addolwyr a gweddiwyr atebol yn fuan iawn.

Dewisodd ferch o'r plwy cyfagos, sef merch Y Bryn, Llanfairisgaer, yn wraig ac yno yr ymgartrefodd gyda'i deulu yng nghyfraith am gyfnod, ac yna eu dilyn fel amaethwr medrus yn ogystal â gweinidogaethu. Ganwyd iddynt bedwar o blant, dwy ferch,



*Y Parchg David Griffith, gweinidog cyntaf yr Annibynwyr ym Methel.*

Mary a Margaret, bu'r ddwy farw yn gymharol ifanc; a dau fab, David a Robert. Ar un cyfnod ar ddiwedd ei yrfa, bu'r ddau yn cyd-weinidogaethu â'u tad. Gadawodd David am Ddolgellau ond arhosodd Robert i olynu ei dad.

*(I'w barhau ar dudalen 8)*

## DRAENOG

**Roedd gweinidog diarth a pharchus o'r Cyfundeb yn pregethu yn Nant Peris. Roedd ar ganol pregethu brawdgarwch a chyfeillgarwch pan glywyd sŵn corn car yn atsain drwy'r capel. Ond . . . cario mlaen i bregethu wnaeth y gweinidog.**

**Barn y Draenog ydi y dylai'r Hen Gorff anfon llythyr o ymddiheuriad i'r canwr y corn hynaws am ei amynedd a'i ddyfalbarhad yn disgwyl tan ddiwedd yr oedfa gan mai wedi cau ei fynedfa â'i gar yr oedd y gweinidog.**




GWÊL Y LLYN

Lake View Hotel

LLANBERIS

870422

Prydau Arbennig ar gyfer partïon

Byddai perchnogion a staff y gwesty yn falch o'ch croesawu ar gyfer dathliadau o bob math.

# BOD YN AFRESYMOL

**Mae'r hyn sy'n rhesymol i un yn afresymol i arall; a'r hyn sy'n afresymol i un yn gwbl resymol i'r llall. Mae hyn yn arbennig o wir ynglŷn â'r Gymraeg.**

Dyna i chi'r ysbyty yna ym Mhenrhosgarnedd er enghraifft. Un enw fu i'r lle o'r cychwyn, a hwnnw'n enw Cymraeg syml, Ysbyty Gwynedd. A chwarae teg, mae gweithwyr a chleifion ac ymwelwyr, Cymraeg a di-Gymraeg fel ei gilydd, wedi defnyddio'r enw yn ddigon naturiol dros y blynyddoedd. Wrth yr enw hwnnw hefyd y cyfeiriwyd yn gyson at y lle mewn papur newydd a bwletin newyddion, Cymraeg a Saesneg. Ac roedd hynny yn naturiol, ac yn rhesymol. Ond mater o amser oedd hi cyn bod rhywun yn penderfynu'n wahanol. Ac yn ddiweddar gosodwyd dau arwydd mawr wrth fynedfa'r ysbyty yn nodi bod gan y lle ddau enw erbyn hyn: Ysbyty Gwynedd a Gwynedd Hospital. Ac mae'n siŵr gen i mai ar y Llywodraeth Doriaidd y mae'r bai am hyn eto. Un o benderfyniadau cyntaf Ymddiriedolaeth Ysbytai Gwynedd a sefydlwyd gan y Llywodraeth honno yw bod raid wrth enw Saesneg yn ogystal â Chymraeg ar y lle. Tybed pa un o uchel swyddogion di-Gymraeg yr Ymddiriedolaeth a benderfynodd ei bod yn gwbl afresymol caniatáu i'r enw uniaith barhau?

A dyna i chi'r Etholiad Ewropeaidd wedyn. Peth cwbl resymol oedd bod pamphledi'r gwahanol bleidiau yn y ddwy iaith. Doedd hynny siawns ddim yn ormod i'w ddisgwyl? Oedd. Ac o ganlyniad mi gefais y sgwrs arferol â'r Blaid Doriaidd adeg Etholiad. Nid eu bod nhw wedi galw heibio'r tŷ acw cofiwch. Mi faswn i'n lecio eu gweld nhw'n dod, tasa hi ond er mwyn arbed cost galwad ffôn i mi. Erbyn hyn mae'r patrwm wedi ei hen sefydlu; bydd y postmon yn dod â phamphled etholiadol y Toriaid acw, ac mae un olwg arno (y pamphled, nid y postmon), yn ddigon i gadarnhau mai'r un yw'r stori eto. Mae ambell air ac ambell bennawd Cymraeg ar bamphledyn Saesneg yn gwneud y tro yn iawn wrth i'r Toriaid ddod ar ein gofyn am bleidlais. A dyna pryd bydda inna'n codi'r ffôn i gwyno. Dwn i ddim pam 'dw i'n trafferthu na gwastraffu cost yr alwad; yr un ydi'r stori pan ddaw pob etholiad heibio. Rôn i'n meddwl mod i'n rhesymol yn awgrymu i'r wraig ar ben arall y ffôn y dylai'r pamphled fod yn ddwyieithog. Ond na, afresymol oeddwn eto. Roedd y wraig o'i swyddfa ym Mae Colwyn yn awyddus i mi ddeall bod yr Etholaeth Ewropeaidd yn ymestyn dros Ogledd Cymru, *'and not just Gwynedd'*, a *'surely you don't expect the pamphlet to be in Welsh only?'* (Gyda llaw, mi ddigwyddais ffonio swyddfa'r Toriaid yn Etholaeth Gogledd-orllewin Clwyd yn hytrach na Swyddfa'r Etholaeth Ewropeaidd i ddechrau. *'It's nothing to do with us,'* meddai cynrychiolydd yr Aelod Seneddol Rod Richards cyn rhoi rhif ffôn swyddfa arall yn yr un adeilad i mi. Ond dydi o'n od bod aelod o staff swyddfa Mr Richards yn gwadu cyfrifoldeb am bamphledyn etholiadol ei blaid, tra bo'r Aelod Seneddol yn gwneud popeth ym mhobman yn fusnes iddo'i hun.

A beth am y Prif Gwnstabl newydd? Peth cwbl resymol oedd disgwyl i'r sawl a benodid i'r swydd fod yn rhugl yn y ddwy iaith. Doedd dim byd llai na hynny yn ddigon da. Ond wrth gwrs nid felly roedd y Swyddfa Gartref yn ei gweld hi, ac fe gawsom bellach ddyn di-Gymraeg o Norfolk. A'r hyn sy'n rhesymol iddo fo ydi ei fod o'n dysgu Cymraeg. Ond y drwg ydi ei fod o eisoes wedi penderfynu na fydd yn cael fawr o hwyl arni. Wrth gwrs, bydd ei ferch fach yn mynd ati i ddysgu Cymraeg. Da iawn hi. A bydd ei thad yn trio dysgu efo hi. 'Ond wrth gwrs,' medda dad, 'mi fydd hi'n cael tipyn gwell hwyl na fi'. Mae'n debyg ei bod hi'n afresymol disgwyl i ddyn prysur a phwysig fel Prif Gwnstabl ddysgu'r iaith yn rhugl.

B.R.

(Roeddem yn rhesymol feddwl fod B.R. ar streic, ond fe ddaeth yr erthygl — yn brydlon — i'w chysodi ar FORE MERCHER!)

---

# DRAENOG



**Ydi nyrsus lleol yn nabod eu hardal? Druan o'r cleifion os na all y nyrs ddarganfod ble maent yn byw. Mae map ar ei ffordd i un nyrs arbennig a fu'n eistedd yn y Vaynol, Pentir, yn disgwyl am ei chydweithwyr, tra roedd rheini'n brysur clirio'r holl fwyd yn y Vaynol, Nant Peris.**


GWASANAETH TACSI
HURIO BWS MINI
**CABS LLANRUG**
Ffôn: Caernarfon
**675951**
Prisiau Cystadleuol – Gwaith Contract – Pell ac Agos

**CYNGERDD**
ER BUDD CRONFA TŴR
EGLWYS SANT PADARN
LLANBERIS
NOS SUL
24 GORFFENNAF 1994
am 8 o'r gloch
~
SUSAN BULLOCK
(SOPRANO)
DAFYDD BULLOCK
(PIANO)

National Grid
**RAS RYNGWLADOL YR WYDDFA**
DYDD SADWRN,
GORFFENNAF 23, 1994
am 2 o'r gloch
gyda
MARCHNAD AGORED
A
FFAIR I BLANT
HAMDDEN ARFON LEISURE
Gyda chymorth a chydweithrediad
Cyngor Bwrdeisdref Arfon

# AMDDIFAD YN LIMBO

## gan Miss O. M. DAVIES, Bangor

Bu gwraig gyntaf Yncl Edward farw o'r diciâu a'i adael a dwy eneth fechan. Roedd Anti — Mary Ann Humphreys — a hannai o Flaen y Ddôl, hithau wedi colli'i gŵr o'r diciâu yn wyth ar hugain oed, pan oeddynt yn byw ym Mhorthaethwy, Sir Fôn. Daeth yn wraig i Yncl Edward a magodd ei ddwy ferch. Roedd un dros y nyth yn gweithio yn y Royal Hotel, Capel Curig, erbyn i ni gyrraedd. Roedd Anti'n hanner cant a chwech oed pan oeddym ni'n blant pump, pedair a thair. Dynes fechan, gwallt du yn dechrau britho, a dau lygad brown caredig. Dywedodd y byddai Harri, ei gŵr cyntaf, yn ystyried fod ei thrwyn yn rhy hir i fod yn berffaith. Gwisgai ei gwallt yn gocyn ar dop ei phen a byddai'n ei iro ag olew cnau coco, i'w gadw'n loew, meddai hi.

Ychydig o fisoedd ar ôl claddu Yncl Edward dywedodd yn bryderus wrthym, 'Dwn i ddim sut rwy'n mynd i dalu'r biliau'. Cofiai ei bod wedi mynd i siop Jôs Cytar — Mr R. E. Jones, teiliwr a gŵr diwylliedig, amryddawn — i gael siwtiau duon iddi hi a dwy ferch Yncl Edward. Yn ogystal rhaid oedd cael menyg, sanau, crafeti, hancesi-ymyl-ddu a hetiau, a sgidiau o Siop Dicks. Rhaid oedd talu am yr holl gerbydau ac angenrheidiau eraill. Sylwais na ddaeth unrhyw bapur newydd byth wedyn i'r tŷ bob bore.

Un diwrnod daeth Dr Roberts at y drws a throwyd ef i'r parlwr. Safodd a'i gefn at y grât. Aeth Anti i mewn a'i hwyneb yn welw, a chlywais hi'n crio. Mae'n rhaid ei bod wedi gorfod dweud wrtho nad oedd ganddi ddima goch y delyn i dalu ei fil mawr. Yna wedi iddo fynd dywedodd wrthyf ei bod wedi cynnig rhai o'r ffigyrau porslen prydferth a oedd ar y silff ben tân, iddo a'i fod wedi derbyn y cynnig. Roedd lle gwag ar y silff a symydodd Anti yr ornaments eraill i lenwi'r bylchau. Mi ges innau hen deimlad cyfoglyd yn fy mol. O hynny 'mlaen byddai Anti'n talu chwecheiniog yr wythnos tuag at gael meddyg. Dim ond gwŷr cyflogedig a gymerid ar y panel gan y meddygon. Cynllun Lloyd George oedd hwn i drefnu gofal i'r dosbarth gweithiol — ond ni ddeuai'r gwragedd a'r plant o dan y cynllun. Cleifion preifat oedden nhw. Gwyddai meddygon y byddai rhaid i'r cleifion cyfoethog dalu digon i fedru iddynt godi tâl bychan ar y tlodion.

Yn 1925 codai un meddyg 3s 6c am ymweliad. Pris potel o sieri oedd 3s 6c a photel o wisgi'n 5s. Byddai rhai meddygon yn cyflogi gŵr i fynd o gwmpas y pentre i gasglu swllt yr wythnos ar leihau'r ddyled. Cadwai'r claf ei hunan-barch a gwyddai y gallai alw ar y meddyg eilwaith. Mawr fyddai'r pryder a'r ofn rhag syrthio i'r haen isaf o gleifion — y rhai oedd ar y plwy. O dan Ddeddf y Tlodion y trinid y bobl dlawd, ac fe apwyntiwyd un o feddygon yr ardal i fod yn feddyg swyddogol y llywodraeth. Pryder a braw y werin barchus oedd gorfod mynd ar y plwy, ac yn y cefndir bygythiai drychiolaeth y Tloty. Lawer gwaith y clywais Anti'n cwynfan yn dorcalonnus, pan oedd dal pen llinyn ynghyd yn ymdrech, mai yn y Wyrcws y byddem ni. Gwyddwn hefyd ei bod yn teimlo'r gwarth o orfod cyfaddef wrth y doctor nad oedd ganddi ddim wrth law i dalu iddo, a hithau'n wraig i stiward. Pryder mawr arall oedd methu talu'r rhent, a chael ein troi allan o'n cartref. Ac wrth gwrs byddai'r rhent yn cael ei godi o bryd i'w gilydd. Cofiaf ei fod yn £1 4s y mis.

Erbyn hyn roedd llythyrau'n dod o Iwerddon a stamp dieithr arnynt a'r geiriau 'SAORSTAT ÉIREANN' wedi'i printio mewn llythrennau bras ar ei draws. Roedd wedi ymuno â byddin Gweriniaeth Rydd Iwerddon, 'The Irish Free State'. Yn y llythyrau cyfeiriai at weithgareddau cerddorol — mae'n amlwg mai fel meistr band y gweithiai. Nid oedd weli cyfrannu dim at ein cynhaliaeth pan oedd Yncl Edward yn fyw, ac yn awr bu rhaid i mi sgrifennu ato — ni chofiaf weld Anti'n sgrifennu fawr ddim mwy na'i llofnod.

'Dear Daddy,' a'r 'daddy' yn cyfleu rhywbeth gwahanol i 'tada' neu 'dad' neu "nhad' a glywem ar wefusau ein cyfeillion yn y stryd. Roedd tadau Vera a Bel a Gwenfron a Dorothy a Wini a Watkin a Cecil yn ddynion y byddwn yn eu gweld yn ystod yr wythnos un ai'n mynd i'w gwaith yn y chwarel neu ar y Sul yn cerdded heibio i'r eglwys neu'r capel. Byddent hefyd yn twtio'r gerddi ffrynt ar brynhawn Sadwrn, tra byddai Anti a ni blant yn bustachu i dorri'r gwair hefo siswrn heb lawer o fin iddo. Cyn hyn oredd y 'Daddy' hwn wedi magu rhyw awyrgylch o arwriaeth pell. Ond yn awr roeddwn i'n gofyn iddo am arian i'n cadw, a dim yn dod. O'r diwedd fe aeth Anti i weld Mrs Fisher, a oedd yn byw yn Tyddyn Eilian ar y ffordd i'r eglwys; roedd hi'n Gynghorydd Sir ac yn bersonoliaeth gref. Fe sicrhaodd hi bod lwfans swyddogol yn dod bob pythefnos drwy sianelau swyddogol byddin Iwerddon. Ar un adeg cofiaf mai £1 10s. oedd y swm, sef 15 swllt yr wythnos, ond nid oedd yn ddigon i gynnal tri o blant ar eu tyfiant. Unwaith pan ysgrifennais i ofyn am chwaneg o arian — pan oedd fy chwaer ar fin mynd i Ysgol Sir Brynrefail — fe yrrodd yn ôl i ddweud ei fod wedi cael golwg ar gartref, 'Home', hwylus i ni heb fod ymhell o'i gartref ef yn Nulyn. Roedd hefyd yn mynd i ail-briodi. Llanwyd ni i gyd â braw. Ofn y byddai'r Awdurdodau yn dod at y drws a'n gorfodi i fynd. Yr oedd Anti'n wraig weddw, heb ŵr yn gefn iddi. Nid oedd yn berthynas o waed i ni, a theimlai na allai ddylanwadu ar ein penderfyniadau. Yr oeddem yn gorfod gwneud ein meddyliau i fyny heb ei chyngor na'i gorfodaeth hi. Teimlwn fel yr awn yn hŷn ei bod yn ymwybodol fod gennym ewythod a modrabedd ar ddwy ochr y teulu, ac y byddai hi'n cael y bai pe byddai unrhyw achos cynnen. Gwn bod rhywun yn y stryd wedi edliw i Anti ei bod yn 'cael arian mawr o dros y môr'! Gyrrais at y 'daddy' hwn i ddweud fy mod innau ar fin eistedd y Scholarship i geisio cael lle am ddim yn yr Ysgol Sir.

Pan oeddem yn blant 'drwg' anystywallt, yn gwrthod gwneud hyn a'r llall, yn ffraeo â'n gilydd, yn cau mynd ar neges, neu helpu yn y tŷ neu'r ardd, byddai'n gwylltio ac yn dweud 'Biti na fasach wedi mynd i Werddon, wir!' Fe fyddai yna lawer o strancio a gweiddi a phobol tŷ nesa yn clywed. Fe fyddai fy mrawd fel hogyn ac yn fengach yn cael mwy o ryddid. Ac un achos cynnen fyddai ein bod ni'r genod yn gorfod glanhau ei esgidiau. Ninnau'n flin, ateb Anti fyddai, 'Hogyn ydio a'r unig frawd sy gynnoch chi'!

Byddai ef, fel pob bachgen, a'i fryd ar fynd i chwarae pêl yn y stryd. Ond byddai'n mynd i hel priciau i'r Parc Mawr gerllaw, ac yn palu tipyn ar yr ardd erbyn Dydd Gwener y Groglith pan fyddai'n amser plannu tatws.

*(I'w barhau)*


Cefnogwch Fusnesau Lleol

**CEIR CYMRU**

**BETHEL (0248) 670451**

**(Hefyd yng Ngherrig-y-drudion a'r Gaerwen, Môn)**

A ydych yn ystyried newid eich car o fewn y flwyddyn nesaf? Ystyriwch y ffeithiau hyn:

1. Mae tri-chwarter y ceir newydd a gaiff eu gwerthu ym Mhrydain yn colli rhwng 25% a 30% o'u gwerth erbyn eu bod yn naw mis oed.
2. Mae cwmnïau mawr a chwmnïau lesio a llogi yn derbyn oddeutu 25% o ddisgownt wrth brynu eu ceir ac felly mae'r cerbydau hyn yn dod ar y farchnad am brisiau isel ac fel arfer mewn cyflwr rhagorol wedi cael eu cynnal a'u cadw heb ystyried costau.
3. Mae gennym brofiad o 40 mlynedd yn prynu a gwerthu ceir ail-law ac rydym, ar gyfartaledd, yn trafaelio mil o filltiroedd bob wythnos yn chwilio am y bargeinion gorau er mwyn eu cynnig i bobl Gwynedd ar elw sydd fel arfer o gwmpas 5% o'r pris.


## DAVID GRIFFITHS

*(parhad o dudalen 6)*

Yn ogystal â'i weithgarwch gwerthfawr a diflino i'r eglwys a'i galwodd yn weinidog iddi, cyfrannodd David Griffith yn sylweddol at godi a chynnal eglwysi eraill yn y cylch, ac ymhellach. Dyma sut y disgrifiodd un o feirdd y fro ei faes llafur:

*Yr eglwysi fu'n eu plannu*
*Sydd i'w henwi yma'n awr,—*
*Siloh, Beulah, Ebenezer,*
*Pentir hefyd a'r Waunfawr,*
*Dolyddelen a Llanberis,*
*A Ffestiniog, dyma wyth,*
*Os cyfrifir y canghennau,*
*Bydd y rhif dros ddeuddeg llwyth.*

Rhaid ystyried fod sawl ffactor i'w chydnabod yn llwyddiant anhygoel Griffith Bethel. Yn ddiamau roedd cryfder ei bersonoliaeth a'r modd y bu iddo ennill parch ac ymddiriedaeth ei bobl yn elfen allweddol. Hefyd, bu ei ddefnydd crefftus o'r Beibl yn gyfrannog iawn i'w lwyddiant. Hwn oedd yr erfyn a ddefnyddiodd i frwydro yn erbyn ofergoeliaeth ei bobl, ac i'w gwareiddio, eu diwyllio ac addysgu.

Fel ym mhob cyfnod profodd David Griffith yntau gyfnodau amrywiol o lanw a thrai crefyddol, ni fu'r daith yn fêl i gyd, ond yn ystod y cyfnod maith o hanner can mlynedd o weinidogaethu bu sawl deffroad crefyddol yn ysgubo'r ardaloedd hyn. Yr hynotaf o'r rhain oedd 'Diwygiad y Plant'. Mae sôn am blant bach yn gadael eu chwaraeon ac yn ei gwadnu hi am y capel i foli a chanmol eu Duw. Gwnaeth yntau yn fawr o bob cyfle i hyrwyddo y Deyrnas a'i gwaith yn y fro.

Dyma bwt arall o farddoniaeth o'r cyfnod sy'n croniclo ei rawd a'i faes llafur:

*Nid am arian y llafuriai,*
*Nid ar elw roedd ei fryd,*
*Ennill dynion at Waredwr*
*Oedd ei neges yn y byd.*

*Yn y mannau bu'n llafurio*
*Am flynyddau, cafodd barch,*
*Ond am arian, prin y cafodd*
*Ddigon at bedoli'i farch.*

Llwyddodd David Griffith i wyrdroi cymdogaeth o bobl werinol a thlawd, diddysg a llac eu moesau yn ardal lle roedd cymdogaeth dda yn ffynnu, a chymdeithasau elusennol yn gymeradwy. Bu iddo yn ogystal feithrin pobl ag asgwrn cefn iddynt, rhai a fu'n sefyll i fyny i feistr tir a chyflogwr ar draul colli gwaith a thyddyn. Gadawodd ar ei ôl gymdeithas y bu ei dylanwad yn aros am genedlaethau.

Bu farw ar 27ain Chwefror 1873. Dilynwyd ef gan ei fab ieuengaf, y Parchedig Robert Griffith, a'i olynydd yntau oedd y Parchedig Rhys J. Huws. Manteisiodd yntau ar lafur ei ragflaenwyr a llwyddodd i adeiladu'n rymus ar y sylfeini a osodwyd iddo.

Rwy'n siŵr y bydd Selwyn yn cytuno â mi wrth i mi fynnu i ni ein dau gael ein magu mewn pentref tra cyfoethog ei draddodiad ac inni, yn ogystal, gael cyfle yn ein magwraeth i fanteisio ar rai o drysorau ein hetifeddiaeth glodwiw.

Gobeithio hefyd y bydd yn maddau i rhyw bwt o flaenor methodus' am feiddio mentro i'w Siambar i dalu teyrnged i glamp o Annibynnwr.

HELEN JONES, Caernarfon

**Llyfryn digon diddorol ydi *Cynllun Strydoedd Arfon* sy'n cael ei gyhoeddi ar gyfer ymwelwyr. Mae ynddo gynlluniau o strydoedd Deiniolen a Llanberis a rhai o bentrefi eraill Arfon. Ond bu raid i bobol Capel Coch fynd i sbio oedd y capel yn dal yno ar ôl darllen y llyfryn. Dim ond bwlch mawr sy ar y map lle dylai'r capel fod.**

# NANT PERIS

**Elwyn Searell Jones, Dwyfor Ffôn: 870440**

**Dau Fedydd:** Ar y 5ed o Fehefin, yng Nghapel Rehoboth, bedyddiwyd Miriam Ella Pritchard, merch fach Dafydd a Heddwen Pritchard, Fronrhedyn, ac wyres i Meirion a Rhian Pritchard, Tŷ Isaf. Y Parchg John Pritchard oedd yn gweinyddu.

Ar y 12fed o Fehefin, yn Eglwys Sant Peris, bedyddiwyd Catrin Elidir, merch fach Jennifer a Robin Davies, Bethel, a wyres Margaret a Tony Ellis, 5 Nant Ffynnon, a hefyd Huw a Renee Davies, Hafod Lydan, Llanberis. Y Parchg Lewis Edwards, Y Groeslon, oedd yn gweinyddu.

**Cymorth Cristnogol:** Eleni yn y Nant fe gasglwyd £61. Diolch i bawb am eu haelioni arferol ac i'r casglyddion Myfanwy Thomas, Tony Gwyn Pritchard ac Elwyn Searell Jones am fynd o ddrws i ddrws.

**Graddio:** Llongyfarchiadau i dri o hogia'r Nant sydd wedi bod yn llwyddiannus yn eu arholiadau gradd yr haf yma. Rydym yn falch iawn o glywed am lwyddiant Elfyn Williams, Carmel (Pennant, Nant Ffynnon gynt); Iestyn Roberts, Llanrug; a John Ellis, 5 Nant Ffynnon. Dymunwn bob llwyddiant iddynt eto.

**Llongyfarchiadau** i Tomos Bleddyn Jones, mab bychan Teresa Jones, 10 Glan'rafon Terrac ar ennill y wobr gyntaf am ysgrifennu llythyr i raglen Wali Tomos (Mei Jones) ar Radio Cymru. Cafodd wobr o £10.

**Treialon Cŵn Defaid:** Cynhaliwyd degfed Treialon Cŵn Defaid Nant Peris a'r Cylch dros benwythnos Gŵyl y Banc. Bu'r ddau ddiwrnod yn eithriadol o brysur a daeth cystadleuwyr i'r Nant o bob rhan o Gymru ac o Ogledd Lloegr. Bu amryw o gystadleuwyr lleol yn llwyddiannus. Enillwyd yr Ail Ddosbarth a Chwpan Wavell Roberts gan Elwyn Griffith, Waunfawr, â'i gi Ben; Cwpan Rheilffordd y Wyddfa i'r cystadleuydd gorau o blwyfi Llanberis, Llanrug, Llanddeiniolen a Llandinorwig gan Elwyn Williams, Penisarwaun â Siân; Cwpan Dolbadarn i'r gorau o blwyf Llanberis gan Dafydd Pritchard, Nant Peris â Roy; Cwpan R. Williams, Mynytho, i'r cystadleuydd lleol gorau dan 25 oed gan Huw Davies, Cwm-y-glo (ac yntau ond yn 11 oed) â Lad; a Thlws Cwmni Tithebarn i'r cystadleuydd lleol gorau dan 50 gan W. A. Williams, Bethel. Enillwyd Cwpan 'Morris Bros.' yn y Dosbarth Agored gan E. L. Morgan, Aberystwyth â Smotyn; a Chwpan Gwety'r Fictoria i'r cystadleuydd lleol gorau yn y Dosbarth Agored gan W. H. Hughes, Deiniolen; Cwpan F.M.C. i'r gorau dan 25 gan R. V. Hughes; Cwpan Rhedwyr Eyri gan Cyril Jones, Llanwddyn.

Enillwyd gwobrau'r Raffl gan — 1, 671157, Helen, Llanberis; 2, 671167, J. Jones, Felinheli; 3, 671598 J. Ffoulkes, Felinheli; 4, S. N. Goodman, Llangristiolus; 5, Gwyn Lloyd, Chwarel Penrhyn; 6, T. Closs, Cricieth; 7, 670468; 8, Dave, Penbont; 9, Nicole Sugent, Ysgol Castell Alun, Yr Wyddgrug; 10, Brenda 871278; 11, Marged Williams, Brunswick; 12, 601532; 13, Lowri Roberts, Rhosbrodrual; 14, D. A. Parry, Bethesda.

Hoffai'r pwyllgor ddatgan eu gwerthfawrogiad i'r ardalwyr am eu cefnogaeth.


**AR WERTH:** dwy wardrob; dwy dri-darn-eistedd; gwely dwbl; dau ddrych. Ffoniwch (0286) 870440.



*William Arthur Williams, Bethel, a Huw Davies, Cwm-y-glo.*



*Dafydd Pritchard, Nant Peris.*




*Elwyn Griffith, Lôn Glai.*

# DRAENOG



**Mae gan ambell ysgol ardd er mwyn i'r plant gael dysgu am fyd natur a chynnyrch y tir. Gobeithio'n arw nad oes gardd yn un o ysgolion cynradd Eifionydd. Rhag creu embaras, wna i ddim dweud pa ysgol chwaith — ond mae hi rhywle rhwng Bryncir a Chwm Pennant. Roedd prifathro'r ysgol wedi penderfynu plannu coeden yn ei ardd yma ym mro'r Eco. Fel unrhyw arddwr profiadol da, y peth cyntaf a wnaeth oedd mynd dros y ffordd i fenthyg rhaw. Wedyn torri twll, a gosod y goeden yn daclus yn y twll. Ond ddeudodd neb wrtho fo bod rhaid tynnu'r goeden o'r potyn caled i ddechrau. Os oes angen help arnoch efo'r garddio ewch ato am gyngor i'r Tŷ. Crwn oedd y potyn, gyda llaw.**



*'Clywch, tydi Percy Thrower ddim yn byw yma . . . iawn ! !'*


GWYNETH ROBERTS
84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491
CAFFI "BWYTY ERYRI
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION
Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati
BECWS ERYRI
Stryd Fawr, Llanberis 870491



ANTUR WAUNFAWR
SIOP GREFFTAU
CAFFI
CANOLFAN GARDD
ANTUR WAUNFAWR
Ar agor bob dydd Sadwrn o 10 a.m. – 3 p.m.
o Fai 1af
Galwch i weld ein cynnyrch arbennig

# Y Llaw sy'n Siglo'r Crud...

## gan Selwyn Pritchard, Llanberis

*Canrif y Chwarelwr; Bargen Dinorwig; Atgofion Hen Chwarelwr;* 'Cerdd yr Hen Chwarelwr' — diau eu bod yn haeddu lle anrhydeddus iawn ar silff lyfrau pawb sydd a'u gwreiddiau'n ddwfn rhywle yn hanes a diwylliant bro'r chwareli. Eleni mae pum mlynedd ar hugain ers cau Chwarel Dinorwig. Parchus goffadwriaeth am y gwŷr a fu gynt nid yn unig yn naddu, hollti a 'pleru' creigiau, ond hefyd wedi medi eu hymdrechion blin i greu cymdeithas y mae chwithdod mawr ar ei hôl erbyn heddiw.

Mae rhyfeddod a champwaith peirianegol yr Orsaf Drydan yn Llanberis yn ennyn edmygedd o bedwar ban byd. Ond nid yw atsain tinc y morthwyl a'r cŷn wedi llwyr ddiflannu o Ddyffryn Peris eto. Gorchwyl anodd iawn yw dileu atgofion a disodli gwreiddiau dyn a'i deulu.

Er mwyn gogleisio tipyn ar gydwybod pobl, meiddiaf ofyn y cwestiwn: oni ddylid talu teyrnged yn ogystal i wragedd a merched y chwarelwyr am eu cynnal drwy helyntion a chaledi bywyd? 'Rydym i gyd yn gyfarwydd â Leusa Jones, cymar William Jones yn y nofel gan T. Rowland Hughes. Gwraig sobor o sâl yn meddwl am ddim ond amdani ei hun gyda'r canlyniad i William Jones ei gwadnu hi am y Sowth gan ei fod wedi cael llond bol ar fethiant Leusa i fod yn wraig a mam dda.

A dweud y gwir 'does 'na fawr o sôn am y gwragedd a adawyd yn weddwon ar ôl colli eu hanwyliaid mewn damweiniau erchyll yn y chwarel. Heb gymorth nawdd cymdeithasol o unrhyw fath rhaid oedd sianelu eu bywydau i fagu'r plant a hynny mewn oes ofergoelus iawn. Roedd tlodi, salwch a heintiau o bob math yn chwalu a rheibio teuluoedd yn yfflon gyda'r canlyniad mai buan iawn y llanwyd mynwentydd y plwyf.

Yn yr oes honno roedd problemau mawr gyda thystiolaeth o salwch. Yn aml roedd diagnosis a chofnodi heintiau yn wallus, a gwahanol iawn oedd labelu salwch wrth gymharu â dulliau heddiw. Am ran helaeth o'r ganrif roedd yr helyw o bobl oes Fictoraidd mewn cyfnod o salwch yn dibynnu nid ar feddygon ac ysbytai ond ar ymarferion traddodiadol cefn gwlad. Gwelwyd nifer o lysieuwyr a chrach-feddygon yn teithio o amgylch y fro, ond yn bennaf, roedd merched 'trwyddedig' yn barod i ymdopi â threialon ac anawsterau bywyd yn bwysicach gan y werin na meddygon. Parhaodd y gred yma hyd ddiwedd oes Fictoria. Hyd yn oed pryd hynny anodd iawn oedd i feddygaeth wyddonol ddisodli yr hen draddodiadau gwerinol yn arbennig llysieueg. Roedd hyn yn wir ym maes beichiogi, genedigaeth a gofal plant. Roedd 'doethineb' (ac yn aml ffolineb) merched profiadol yn y gymuned yn cael lle amlwg.

Roedd pedwar hain yn cwtogi cryn dipyn ar gymdeithas y pryd hynny: (a) Y Pas *(whooping cough)* yn lladd 16,000 y flwyddyn; (b) Y Dwymyn Goch *(scarlet fever)* rhwng 1859 a 1875, 4-6% o'r boblogaeth yn marw; (c) Y Dwymyn Heintus *(typhus)*, 19,000 yn 1837; a 17,000 yn 1847. Ond y salwch mwyaf oedd (d) y dicàu *(tuberculosis)*, neu ar lafar 'Y Pla Gwyn'. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd yn lladd un ym mhob chwech ac yn trethu mwy ar y boblogaeth na'r heintiau eraill i gyd hefo'i gilydd. Tystia'r hen fynwent yn Nant Peris i nifer o fabanod a phlant bach a fu farw pan oeddynt ond ychydig fisoedd oed — rhwng 1840 ac 1845: 153 ym mhob 1,000 yn marw; 1896: 156 ym mhob 1,000 yn marw; 1899: 16 ym mhob 1,000 marw.

Yn gyffredinol roedd y sefyllfa yn raddol wella erbyn diwedd y ganrif ond roedd rhagor o gymylau duon yn crynhoi ar y gorwel.

Dydd Sul hynod o braf oedd hi ym mis Mehefin, 1914. Roedd Franz Ferdinand a'i wraig Sophie yn ymweld ag un o daleithiau Awstria. Yn sydyn ymwthiodd myfyriwr penboeth, ifanc o'r enw Gavrilo Princip allan o'r dorf gan saethu deirgwaith at y pâr brenhinol, a chyn pen chwarter awr roedd y ddau yn farw. O'r achlysur hwnnw y cynheuodd fflam rhyfel a oedd i chwythu ar draws Ewrop — mor fawr fel y daeth dyniolaeth i'w hadnabod fel y Rhyfel Mawr.

*(I'w barhau)*

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

## YR ANTUR YN ARWAIN

Mewn cyfarfod o Antur Padarn a gynhaliwyd ar nos Iau, Mehefin 16, adroddwyd bod trefniadau cofio cau Chwarel Dinorwig chwarter canrif yn ôl wedi eu cwblhau ac edrychir ymlaen at noson arbennig iawn ar nos Wener, Gorffennaf yr 8fed am 7 o'r gloch yn Ysgol Brynrefail, Llanrug.

Cafwyd adroddiad o gyfarfod Ardal Chwareli Arfon a gynhaliwyd ar y 25ain o Fai. Soniwyd fel yr oedd rhai o'r syniadau a ddaeth fel canlyniad i arolwg Antur Padarn ychydig flynyddoedd yn ôl yn cael eu hystyried yn awr ar gyfer eu gweithredu gan y cynghorau Sir a Dosbarth. Hefyd yn yr un cyfarfod cafwyd ar ddeall bod gobaith i gynnwys Dyffryn Padarn fel rhan o gynllun Leader 2. Byddai sicrhau hynny yn dwyn manteision lu i'r ardal ac yn gyfrwng i adfywio yr economi lleol. Gobeithio clywed mwy am y datblygid hwn yn ystod y misoedd nesaf.

Cynhelir cyfarfod nesaf yr Antur ar nos Iau, Medi 15fed, am 7 o'r gloch yn Ysgol Gynradd (Ystafell Gymuned) Penisarwaun. Fel arfer bydd croeso cynnes i unrhyw un ddod i'r cyfarfod hwn.

## DRAENOG



**Tybed ydi Côr Meibion Dyffryn Peris yn canu'r gân werin honno sy'n sôn am 'dwll bach y clo'? Mi glywais bod un o'r hogia wedi bod yn canu a gweiddi trwy drwy dwll bach clo drws ei dŷ ei hun. Roedd y côr wedi cyrraedd adref yn y bore bach, a fedrai'r dyn yn ei fyw ag agor y drws ffrynt. Roedd ganddo allwedd, ond roedd un o'i feibion wedi troi'r 'latch' pan ddaeth ef i'r tŷ awr neu ddwy yn gynharach. Mi glywsoch am gloeon 'Chubb' mae'n siŵr — clo 'Chiv' oedd hwn.**

Rhowch i'r Draenog eich stori bigog!

# NEWYDDION YSGOL BRYNREFAIL

## YMLAEN I'R GENEDLAETHOL

Yn dilyn mabolgampau ysgolion Gwynedd yn ddiweddar bydd Alun Vaughan o Lanberis yn cynrychioli'r sir ym mhencampwriaeth Cymru ym Mae Colwyn ddechrau mis Gorffennaf. Pob dymuniad da iddo ar gam arall i fyny'r ysgol lwyddiannus mae'n ei dringo ar hyn o bryd.

Rhaid canmol ymdrech Arwel Jones, Penisarwaun, yng nghystadleuaeth y bicell i fechgyn dan 17 oed. Taflodd y bicell dros 46 metr i dorri record yr Ysgol, a safai yn enw Eifion Roberts (44.14m) ers 1962. Yn anffodus nid oedd y perfformiad yn ddigon da i ennill ei le ym Mae Colwyn. Yn hynod o agos i gyrraedd y 'National' roedd Manon Williams a ddaeth yn ail yn y 200 a'r 300 medr i ferched o dan 17 oed. Daeth Lois Dafydd yn bedwerydd dros y clwydi ac Eluned Davies yn drydydd yn taflu'r bicell i'r genethod o dan 15 oed.

## ATHLETAU TSB YM MANGOR Mehefin 16, 1994

Rhodri Roberts, 1af, 200m, dan 16
Alun Vaughan, 1af, 1500m, dan 16
Dylan Williams, 1af, naid driphlyg, dan 16
Iwan Hughes, 1af, picell, dan 16
Ambrose Choy, 2il, naid hir, dan 16
Alan parry, 2il, disgen, dan 16
Dylan Y. Williams, 3ydd, 800m, dan 16
Julie McGubbin, 2il, naid uchel, dan 16
Julie McGubbin, 3ydd, 100m, dan 16
Eifion Jones, 1af, 800m, dan 14
Gerallt Hughes, 1af, naid uchel, dan 14
Dewi Griffiths, 2il, disgen, dan 14
Irfon Hughes, 2il, picell, dan 14
Tom Hastings, 3ydd, 1500m, dan 14
Andrew Williams, 3ydd naid driphlyg dan 14
Steven P. Williams, 3ydd, naid hir, dan 14
J. Corless, 1af, picell, dan 14
Sera Thomas, 2il, pwysau, dan 14
Susan Thomas, 3ydd, 1500m, dan 14
Martin Willis, 1af, clwydi, dan 13
Wayne Jones, 1af, picell, dan 13
C. Boothroyd, 2il, 100m, dan 13
Martin Willis, 2il, 200m, dan 13
C. Boothroyd, 2il, naid driphlyg, dan 13
R. O'Donnell, 2il, disgen, dan 13
Alwyn Jones, 3ydd, 1500m, dan 13
Lee Hughes, 3ydd, naid driphlyg, dan 13
Sian Pritchard, 1af, naid uchel, dan 13
Jemma Orlick, 1af, pwysau; picell, dan 13
Sian Pritchard, 2il, naid hir, dan 13
Kelly Jones, 2il, pwysau, dan 13
Llinos Roberts, 2il, disgen, dan 13
Kelly Jones, 2il, picell, dan 13
Ellen Robinson, 3ydd, 100m a 200m dan 13
Meleri Ellis, 3ydd, clwydi, dan 13
Bechgyn dan 16, 2il, ras gyfnewid.


**Emyr Jones**
PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI
Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 673513

Y Bistro
43 - 45 Stryd Fawr
LLANBERIS. Ffôn 871278
*Rhwng Ynys Môn a Pharis*
*Does unlle gwell i'w dewis*
*Am bryd o fwyd, waeth ble y bo,*
*Na'r Bistro yn Llanberis*

OSMOND SHAW
DEINIOLEN





GWERTHU
- TRWSIO
★ Teledu
★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth
Ffôn 24 awr
LLANBERIS 870545

# DIWRNOD HIRAF

**Daeth yr wythnosau diwethaf ag atgofion lu i Ifan Hughes, 3 Bryn Golau, Waunfawr. Hanner can mlynedd yn ôl, yng Nghorffennaf 1944, ac yntau yn fachgen 21 oed o Glwt y Bont roedd yng nghanol y gyflafan erchyll yn Normandy yn dilyn y glanio yno ar D-Day. Roedd yn aelod o'r 7th Battalion o'r RWF a oedd, gyda'r 4th a'r 5th Battalion, yn rhan o'r 53rd division a laniodd ar y traeth enwog hwnnw a enwyd yn 'Gold'.**

Roedd hi dipyn tawelach pan ddychwelodd yno eleni, yng nghwmni John Owen Hughes ac Aled Eames. Roedd Ifan yno'n benodol i recordio rhaglen radio yn croniclo ei brofiadau ar ddiwrnod cyntaf yr ymosodiad — 'y diwrnod hiraf' — ond cafodd gyfle yn ystod y pum niwrnod y bu yno i ymweld â nifer o'r mannau yn gysylltiedig â'r brwydro. Heb os y profiad mwyaf ysgytwol oedd ymweld â beddau rhai o'r bechgyn ifanc a gollwyd, nifer ohonynt yn ffrindiau agos.

Bu Ifan yng nghanol y brwydro am fisoedd, yn aelod o'r infantry ar flaen y gad wrth i'r fyddin frwydro ei ffordd ymlaen i Caen, ac wedi trechu yno, ymlaen drwy Ffrainc, Yr Iseldiroedd a Gwlad Belg i ffiniau yr Almaen ei hun. Daeth digwyddiadau'r wythnosau diwethaf a nifer o atfogion am erchylltra ei brofiadau, yn enwedig am y brwydro caled a chiaidd yn strydoedd y pentrefi a'r trefi wrth iddynt symud yn nes a nes at yr Almaen.

Mae'n cofio'n arbennig am y frwydr am dref a'r cyfnod pan fu ei platoon yn cael ei harwain gan Hughie Thomas o Langristiolus, Môn — un o'r dynion dewraf a welodd Ifan erioed.

Wedi iddynt drechu'r gelyn mewn un o'r trefi yma, a mynd i mewn i'w chanol, daeth hen wraig at Ifan a chyflwyno croes fechan iddo: 'This will keep you alive', oedd ei geiriau a bu'r groes yn ei boced, gyda'r Testament Cymraeg, am weddill y rhyfel.

Cyn croesi'r ffin i'r Almaen cafodd Ifan ei glwyfo yn ei fraich pan drawodd shell yn erbyn coeden yn y goedwig ble roeddent yn llechu gan wasgaru'r shrapnell i bob cyfeiriad. Cafodd pedwar neu bump o'i gyfeillion eu lladd yn y fan a'r lle ac mae Ifan yn cofio hyd heddiw y shrapnell gwynias yn 'ffrio' y tu mewn i'w fraich. Cafodd driniaeth mewn ysbyty milwrol yn agos i'r man lle cafodd ei glwyfo ac yna ei gludo mewn awyren yn ôl i Brydain, a thrên i Abertawe. Bu yno mewn ysbyty am rhyw ddeufis cyn cael 'discharge' oherwydd ei anaf.

Heb os, wynebodd brofiadau arthurol yn ystod y misoedd hynny yn 1944, nifer ohonynt yn brofiadau na all eu disgrifio hyd yn oed hanner can mlynedd yn ddiweddarach. Bu farw brawd iddo yn ymladd yn yr Eidal, ac mae'n cofio fel ddoe gweld



*Ifan Hughes yn cofio glanio ar draeth 'Gold' yn 1944*

enw bachgen o Bryn Teg, Clwt y Bont ar fedd newydd yn Normandy.

Ond mae rhai atgofion melys hefyd, yn enwedig am y brawdgarwch ymhlith y milwyr cyffredin pan oedd pethau ar eu gwaethaf. Mae ganddo rai atgofion doniol hyd yn oed, fel y cyfnod pan gyrhaeddodd Wrecsam yn dilyn ei 'call-up' a chael coes brwsh llawr fel gwn, sgidiau ail-law a thair ceiniog o dâl am wisgo'i grys ei hun. roedd hyn ar yr union gyfnod pan oedd Churchill wrthi hefo'i 'Fight them on the beaches . . .'! Dipyn o 'cheek' oedd barn Ifan.

**COFIWCH NA FYDD ECO YM MIS AWST DAW Y RHIFYN NESAF O'R WASG 8fed MEDI**

# COFIO CAU'R CHWAREL

## NOSON Y COFIO

Y dyddiadau yw Gorffennaf 8, 9 a 10, sef y penwythnos pryd y cofir am gau Chwarel Dinorwig chwarter canrif yn ôl ym mis Gorffennaf 1969. Cynhelir noson y cofio ar nos Wener, 8 Gorffennaf am 7 o'r gloch yn Ysgol Brynrefail, Llanrug. Y siaradwyr gwadd fydd Dafydd Wigley, A.S.; Tom Jones, Swyddog Undeb; Yr Athro Merfyn Jones o Goleg y Brifysgol, Bangor; a'r cadeirydd fydd Dr Dafydd Roberts, Ceidwad Amgueddfa'r Gogledd, Llanberis.

Bydd Hogia'r Wyddfa yn bresennol i ganu tair cân a bwriedir dangos uchafbwyntiau o'r ffilmiau 'Ffarwél Roc' a 'Y Chwarelwr'. Bydd croeso cynnes i bawb ddod i'r cyfarfod. Dylai fod yn noson arbennig iawn.

## ADUNIAD I'R CYN-CHWARELWYR

Ar ddydd Sadwrn a dydd Sul, 9 a 10 Gorffennaf bwriedir cynnal cyfres o ddigwyddiadau arbennig yn yr Amgueddfa gyda mynediad yn rhad ac am ddim ar gyfer cyn-chwarelwyr a'u teuluoedd. Bydd staff Gwasanaeth Archifau Gwynedd yno i dderbyn a chopïo unrhyw ddarluniau, llythyrau neu ddogfennau sydd yn ymwneud â'r chwarel a hanes y cyn-chwarelwyr ar ôl i'r chwarel gau. Gwneir trefniadau i recordio siaradwyr. Gellir gwneud cais am docyn i'r aduniad (nid oes angen tocyn i'r noson arbennig) drwy ysgrifennu at y Ceidwad, Amgueddfa Lechi Cymru, Gilfach Ddu, Llanberis. Croeso i bawb o bell ac agos. Dewch yn llu i achlysur y cofio.


MAE'R **SAMARIAID** YN GWRANDO, YN ABBEY ROAD

**BANGOR 354646**


**RHODIO'R HEN LWYBRAU**

Mi es ar y bws i fyny at Ty'n y Fawnog  
Gyda'r bwriad o gael clywed y gog  
Sylwais bod gwelliannau ymlaen ar Dŷ Capel Sardis  
Tra'n ymlwybrwn yn araf i fyny at Bryn Sardis

Seibiant yn yr arosfan, man disgwyl y loriau  
A gludai i Swalo y chwarelwyr dewr a cryf eu breichiau  
Mynd heibio Glan Gors ar hyd Lon Robin Ifan Sion  
Hen lon oer ddigysgod, a daeth i mi lu o atgofion.

Y Gwalia hen a newydd yn fylchog  
Peidiwch beio gormod ar y defaid newynog  
Cofiwn a canmolwn y rhai a'u cododd ar y llethrau serth  
Hen grefftwyr y gwaliau sych, diwyd a mawr eu haberth.

Y gwaliau newydd yn warthus o fylchog  
O gofio eu codi gan weithwyr mawr eu cyflog  
Defaid ar y ffordd yn crwydro gydai hwyn  
Yn wael eu gwedd, yn pori'r lleiniau brwyn.

Pa ryfedd eu gweld yn crwydro a chwilio  
Am flewin glas, pwy all ei beio?  
A oes maeth mewn mwsog, grug, a brwyn, heb eu gwrteithio  
A ddaw i'th gof yr hen dyddynwyr, a'u berfeydd yn teilo.

Dyma fi cyferbyn a Cerrig y Nyth  
A cofiais nad yw y gog yn berchen nyth  
Sgwatiwr beiddgar yw'r gog lwydlas  
Sy'n llogi gwas i'w thendio fel gŵr y Plas.

Chanodd i ddim pnawn ma, ond peidiwch poeni  
Rwyf wedi ei chlywed droeon eleni  
Clywais y gylfinir, a gweld wennol a gwenynen  
Mae'r haf yn agos bobl byddwn lawen.

H.J.


AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU

**AMGUEDDFA LECHI CYMRU, LLANBERIS, GWYNEDD**

**MOLDIWR / TECHNEGYDD**

*Apwyntiad dros ddwy flynedd*

*Cyflog: Technegydd Amgueddfaol 4, sef £9,524 (oed 20+) yn codi i £10,124 y flwyddyn*

Rydym ynchwilio am weithiwr cymwys ar gyfer swydd Moldiwr/Technegydd yn Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis.

Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus fod â pheth gwybodaeth o'r diwydiant llechi, fod yn Foldiwr neu'n Dechnegydd cymwysedig ac yn hyderus mewn perthynas â'r cyhoedd.

Gwybodaeth o'r Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol.

*Am fanylion pellach, ffonier ein ffôn ateb ar (0222) 645511 gan nodi'r cyfeirnod MT/WSM*

**Dyddiad cau i dderbyn ceisiadau: 11 GORFFENNAF 1994**



**GARTH MAELOG**

**PET CENTRE AND GROOMING SALON**

Bwyd ac anghenion  
Anifeiliaid anwes bychan  
Pysgod dwr oer  
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio  
cwn a chathod  
o bob math  
gan arbenigwr

**STRYD FAWR, LLANBERIS 870840**

# SEFYDLU MAER ARFON

**Un o gynghorwyr y fro hon yw Maer Bwrdeistref Arfon eleni. Cafodd y Cynghorydd Brian Jones, Cwm-y-glo, ei sefydlu yn y swydd mewn cyfarfod yn Siambr y Cyngor, nos Lun, Mai 23ain.**

Ar ôl y cyfarfod croesawyd cynghorwyr a chyfeillion i dderbyniad swyddogol a gynhaliwyd yn Amgueddfa'r Gogledd yn Llanberis. Yno cafwyd anerchiad gan yr Athro Merfyn Jones, un o westeion arbennig y Maer newydd; a hithau'n 25 mlynedd ers cau'r Chwarel, soniodd yr Athro am yr effaith a gafodd cau'r Chwarel ar y fro. Cafwyd gair hefyd gan y Dr Dafydd Roberts, Curadur yr Amgueddfa; soniodd ef am waith yr Amgueddfa a'r Amgueddfa Lechi. Un arall o'r gwesteion oedd Joe Wilson, sydd ers hynny wedi ei ailethol yn Aelod Seneddol Ewropeaidd y Gogledd. Mae'n debyg bod amryw o'r cynghorwyr yn ymweld â'r Amgueddfa am y tro cyntaf erioed y noson honno, a chawsant gyfle i weld y ddarpariaeth arbennig sydd yno.

Cynghorydd Llafur yw Brian Jones a bu'n aelod o Gyngor Arfon ers 14 mlynedd. Cafodd ei ethol yn wreiddiol i gynrychioli Cwm-y-glo a Llanberis, ond wedi i ffiniau'r etholaethau gael eu newid mae wedi cynrychioli ardal Cwm-y-glo, Llanrug, Tanycoed a Phontrug.



*Y Maer a'r Faeres gyda Dr Dafydd Roberts a'r Athro Merfyn Jones.*

Dros y blynyddoedd bu'n gadeirydd ar fwy nag un o bwyllgorau'r Cyngor, ac mae'n ymddiddori yn arbennig yng ngwaith y Pwyllgor Hamddena a'r Pwyllgor Cynllunio.

Wrth ei waith bob dydd fe'i gwelir yn rhedeg Argraffdy Eryri ym Methel. Mae ei wraig, Olwen, a fydd yn Faeres am y flwyddyn wrth gwrs, yn gweithio i'r Awdurdod Iechyd fel Ymgynghorydd Hybu Iechyd. Mae eu hunig ferch, Siân Rhiannon, yn dilyn cwrs Masters mewn Dawns ym Mhrifysgol Irvine yn Los Angeles. Pan ddaw hi adref yn ystod yr wythnosau nesaf fe gynhelir y gwasanaeth arferol ar Sul y Maer. Y Parchg John Morris, Llanrug, yw Caplan y Maer am y flwyddyn.

Dymunwn bob llwyddiant i'r Maer a'r Faeres yn ystod y flwyddyn. Gyda llaw, gan fod ad-drefnu'r awdurdodau lleol i ddigwydd ym mhen y flwyddyn, Brian Jones fydd yr olaf i gael yr anrhydedd o lenwi swydd Maer Arfon.

**Cofiwch anfon deunydd at y rhifyn nesaf erbyn NOS LUN, AWST 29**

# BLAS AR GYMRU

Mae'n debyg y bydd cannoedd o ymwelwyr yn darllen y llyfryn *Blas ar Gymru* eleni eto. Cyhoeddir y llyfryn yn flynyddol ers 1991 er mwyn tynnu sylw at y nifer cynyddol o dai bwyta o safon sydd trwy Gymru. Mae'r llefydd a enwir yn y llyfryn wedi cyrraedd safon arbennig o ran y bwyd a'r gwasanaeth a gynigir. Nodwedd arall yw eu bod yn defnyddio cynnyrch lleol o safon uchel ar bob achlysur posibl. Eleni mae dau dŷ bwyta o Lanberis wedi eu cynnwys yn y llyfryn. Mae'r Bistro wedi derbyn cymeradwyaeth *Blas ar Gymru* ers y rhifyn cyntaf; mae Nerys a Danny Roberts wedi dod yn hen gyfarwydd bellach â derbyn cymeradwyaeth Michelin, Good Food Guide, Egon Ronay a'r AA.



*Danny'r Bistro.*

Ond eleni mae ail dŷ bwyta o Lanberis yn cael ei gymeradwyo gan *Blas ar Gymru.* Roedd Mrs Pat Jones, perchennog Crefftau Fferm Cae Coch wrth ei bodd o ddeall bod Cegin Cae Coch wedi ei chynnwys yn y llyfryn, a hynny o fewn ychydig fisoedd i'w hagor. (Piti nad yw safon argraffu'r llyfryn cystal â safon y bwyd a ddarperir, gan mai 'Crefftall Ferm Cea Coch' a restrir ynddo!) Llongyfarchiadau i'r ddau fwyty. Ac edrychwn ymlaen at weld rhagor o dai bwyta y fro yn cael eu cynnwys mewn llyfrynnau o'r fath yn y dyfodol.




*Lynette a Nicola o Gegin Cae Coch*

**CEFNOGWCH GARNIFALS Y FRO YR HAF YMA**

# CROESO I'R HACWYR



*Meirion Hughes yn barod i agor y cwrs golff.*

Bydd cwrs golff naw twll yn agor cyn diwedd yr haf ar dir Tyddyn Mawr yn Llanrug — gyferbyn ag Ysgol Brynrefail. Mae'r cwrs wedi cael ei gynllunio gan y perchennog, Meirion Hughes. Bwriada Meirion roi cyfle i bawb o bob oed a siâp sy'n dymuno cydio yn y gamp boblogaidd hon gymryd y 'swing' cyntaf at wireddu breuddwyd. Bydd croeso hefyd wrth gwrs i olffwyr profiadol. Cefais gyfle i fynd o amgylch y cwrs gyda Meirion. Sylwais ar unwaith bod yna dipyn o sialens ar nifer o'r tyllau, yn enwedig pan oedd y gwynt yn ein herbyn. Ond nid y gwynt na'r gelltydd yw'r rhestr pennaf. Rhaid wynebu'r broblem fwyaf ar yr wythfed twll; mae yna lyn canllath o hyd yn gwahodd y chwaraewr dibrofiad neu'r chwaraewr gor-fentrus i foddi wrth ymyl y lan (ynteu a ddylid dweud wrth ymyl y lawnt?). Mae'n siŵr y bydd y twll hwn yn codi braw ar chwaraewyr di-brofiad. Rhaid cyfaddef i mi ofyn i Meirion am ganiatâd i daro'r ergyd gyntaf ar y twll hwn oddi ar lwyfan y plant. Yn naturiol, mae Meirion yn bwriadu datblygu'r cwrs ymhellach wedi i'r cwrs gael ei agor. Y mae'n awyddus iawn i gael gwybod pa ddiddordeb sydd yn y fenter yn yr ardal. Ceir manylion pellach gyda'r daflen arbennig sydd rhwng tudalennau'r Eco y mis hwn. Gyda llaw, oes gan rywun wellingtons i mi er mwyn i mi allu chwilio am y bêl yn y llyn?

**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD**
**CANOLFAN CARPEDI**
**WAUNFAWR**
**Ffôn/ffacs: 650291**


Ar Agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher



Dewis eang o
Welyau a '3P/Suites'.
Lleni 'Venetian' a Llenni 'Roler'
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc – allwch chi
fforddio prynu o batrymau?
**GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK**

Geni ♥ Bedyddio ♥ Priodas
Dyweddio ♥ Diarhebion ♥ Graddio
Achlysur arbennig?
Anrheg unigryw?
Beth am un o sampleri
**PWYTHAU CAIN**
Cynllunir pob sampler
yn ôl dymuniad ac anghenion yr unigolyn.
Hefyd gwniadwaith o bob math
gwneud dillad, newidiadau, llenni, a.y.y.b.
Cysylltwch â
MARY ELLIOTT
Llanberis 872438
Cartref Newydd ♥ Darnau o Farddoniaeth

## CANTORION LLEOL yn cyflwyno O GAETHIWED I RYDDID



Yr oedd tri pherfformiad Cantorion Elidir o'r ddrama gerdd 'O Gaethiwed i Ryddid' yn llwyddiant ysgubol. Yr oedd Theatr Seilo yng Nghaernarfon yn llawn i'r ymylon ar y tair noson y bu'r cwmni yn perfformio. Cyfansoddwyd y ddrama gerdd gan Roger Jones, ac addaswyd y gwaith i'r Gymraeg gan Elisabeth James a Peter Thomas, Aberystwyth. Hanes pobl Israel yn dod o gaethiwed yr Aifft i ryddid gwlad Canan sydd yn rhan gyntaf y ddrama gerdd, a hynny yn arwain at gyflwyno yn yr ail ran hanes Swper Olaf a marwolaeth ac atgyfodiad yr Iesu.





Fel yr adroddwyd yn yr Eco y mis diwethaf yr oedd Cantorion Elidir wedi gwahodd nifer o gyfeillion i ymuno â hwy ar gyfer y cyflwyniad hwn. Ac yr oedd arweinydd Cantorion Elidir, Robin Jones, wedi asio'r cyfan yn llwyddiannus iawn erbyn y noson agoriadol. Cymerwyd rhan gan Gôr Ysgol Bethel, dawnswyr o Ysgol Brynrefail, Nia Land, Lyndsey Vaughan Parry, Euron Hughes, Geraint Williams, Arwel Wyn Roberts a Raymond Glyn Williams, ynghyd â nifer o offerynwyr ieuainc a Chantorion Elidir eu hunain wrth gwrs. Yr oedd elw'r nson yn cael ei rannu yn bennaf rhwng Ysgol Gynradd Bethel ac Ysgol Pendalar, sy'n dathlu ei phen-blwydd arian eleni.



*Menna Williams a Lowri Prys Roberts, cyfeilyddion Cantorion Elidir.*

### GWERTHFAWROGIAD GAN RICHARD LLOYD JONES

**Y mae llawer rheswm dros gyfrannu colofn neu erthygl i bapur bro, ond teimlaf y tro hwn mai'r prif gymhelliad yw balchder. Yr wyf yn falch ar sawl lefel. Yn gyntaf, fod y 'pibydd brith' Robin Jones wedi cartrefu yn ein plith, ac wedi gwneud mwy na siarad — yn wir rhoddodd ei gred yn llythrennol ar waith — fel y disgwyliai rhywun gan Wesla' da!**

Yr oedd ei weledigaeth i berfformio'r 'Croeshoeliad' y llynedd ac yna'r ddrama gerdd yma eleni yn wir ysbrydoledig. Rhaid cofio bod yn agos i 2,000 o bobol wedi mynychu'r perfformiadau hynny — a rhai wedi teithio o gryn bellter.

Yr wyf yn hynod falch hefyd ym mharodrwydd cynifer i roddi eu hysgwydd dan yr iau. Yn gefn i'r perfformwyr gwych ar y llwyfan oedd y 'fyddin gudd' tu ôl i'r llwyfan. Dyma griw y jobsus bach sy'n cynnal perfformiad. I'r criw diymhongar yma, na ddymunent sylw yn aml, tynnaf fy het.

Y mae'r fro yn frith o dalentau — mae hynny yn hysbys i lawer. Mor falch ydwyf fod rhywun yn cael y weledigaeth i drwsio rhwygiadau trwy dynnu pobol at ei gilydd. Yr oedd y cymysgedd oedd yn drawiadol, ac yn elfen bwysig o'r perfformiad. Yn sicr cawsom ein rhyddhau o gaethiwed y syniadaeth mai problem yw'r genhedlaeth ifan. Yr oedd y dawnswyr, unawdwyr a'r côr ifanc yn adlewyrchu'r daioni sy'n bodoli. Yn sicr roeddent wedi dysgu 'mwy na geiriau yn y perfformiad. Yr oedd y ddisgyblaeth, a safon y perfformiad yn glod mawr nid yn unig i'r unigolion ond i'r sawl fu yn eu paratoi. Yr oeddwn yn falch hefyd o werthfawrogiad y gynulleidfa. Yr oedd eu hymateb yn real a dwfn. Mewn cymanfa ganu yn Edern ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd dechreuodd y Parchg Tom Nefyn Williams ganu 'Rwy'n gweld o bell y dydd yn dod . . .' wedi i ddwsin o garcharorion rhyfel Almeinig ganu emyn yn eu hiaith eu hun. Mor astud a dwfn oedd gwrandawiad y gynulleidfa synhwyrwn fod ambell un bron â dechrau canu ar ddiwedd y perfformiad. Yr oedd arweiniad Nia Land yn y Corws, 'Dirmygedig Ŵr' yn ysgytwol ac yn ein dwyn yn ôl at ddiben ac ystur bywyd. I'r crefyddwyr selog yn y gynulleidfa sy'n cynefino 'â'r fflam sy'n llosgi'n isel', rwy'n siŵr fod rhyw fywyd newydd o gynhaliaeth wedi ei dderbyn yn y perfformiad. I'r sawl a 'adawodd y gorlan' rwy'n sicr fod syllu ar y plant yn taflu'r blynyddoedd heibio'n ôl i ddyddiau cynnar yr Ysgol Sul. Yn sicr, nid yn unig cafwyd perfformiad yn Seilo, ond hefyd cafwyd datganiad. Dibwys yw diolch i neb, yr oedd safon a derbyniad y datganiad yn deyrnged teilwng i'r sawl a lafuriodd yn y winllan i gynhyrchu gwin o safon.

Fel bro diolchwn i bawb a gyfrannodd oherwydd y maent hwy yn eu gweledigaeth, eu pendantrwydd a'u mwynhad wedi gwneud i ni feddwl am ein broydd ni. O gofio'r talentau, yr hyder, onid yw'n amser i lawer ohonom ni symud 'o gaethiwed' y tŷ a'r teledu i 'ryddid' cydrannu profiadau, derbyn her perfformio, a thrwy hynny ehangu gorwelion ein cymuned. Diolch am y wefr o fod yno.



*Y criw llwyfan.*

# LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

**Undeb y Mamau:** Prynhawn dydd Mawrth y 7fed o Fehefin cynhaliwyd cyfarfod yn Festri Eglwys St. Padarn. Y gŵr gwadd oedd Mr Bobby Haines o Gaernarfon. Hen atgofion o'r dre' oedd pwnc ei sgwrs, a dangosodd luniau o adeiladau mawreddog sydd erbyn heddiw wedi ei dinistrio. Mwynhawyd y pnawn yn fawr. Mrs Dilys Phillips gymerodd y rhan ddefosiynol. Gwnaed trefniadau terfynol y wibdaith i Gaer ar y 14eg o Fehefin.

Mrs Muriel Morris a Mrs Audrey Evans oedd yn ymorol am y baned a diolchwyd iddynt hwy a Mr Haines gan Mrs Clara Roberts gyda Mrs Cheeseman yn eilio. Enillydd y raffl oedd Mrs Nellie Morris.

Gan ddechrau ar y 4ydd o Orffennaf gobeithir gwneud 'Milltir Arian' gan gychwyn o rhif 2 Maes padarn a'r elw yn mynd tuag at atgyweirio tŵr Eglwys St. Padarn. Dewch yn llu i weld y fenter newydd hon.

**Côr Meibion Dyffryn Peris:** Cafwyd mis digon prysur unwaith eto gan y côr. Ar Fai 5ed cafwyd noson i ddathlu 'Gŵyl Fai' Capel Beulah, Caernarfon. Roedd criw da wedi dod yno i wrando ar y côr a chafwyd eitemau unigol hefyd. Y llywydd oedd y Parchg Harri Parri a chafwyd anerchiad da ganddo. Talwyd diolchiadau gan Mr H. G. Roberts.

Nos Sadwrn, Mai 14eg, roedd y côr yn cadw Noson Lawen yn Bontuchel, Rhuthun. Dyma'r trydydd tro iddynt fod yno a chafwyd gwledd o noson (gyda llaw, os oes rhywun yn dymuno cael gweld Cymru am bunt, beth am ymuno â ni os y cawn wahoddiad am y pedwerydd tro!!)

Nos Fawrth Mai 17eg, roedd y côr yn diddanu plant ac athrawon o Lydaw yn Ysgol Bodfeurig, Mynydd Llandygai. Cafwyd hwyl a sbri gyda'r plant yn ymuno i ganu ambell i gân. Roedd lluniaeth arbennig wedi cael ei drefnu gan rieni ac athrawon yr ysgol a mawr yw ein diolch iddynt.

Ar nos Sadwrn, Mai 27ain, er nad oedd y côr yn cymryd rhan y tro hwn, cafwyd Noson Lawen ddifyr iawn yng Ngwesty Dolbadarn yng nghwmni 'Hogia'r Mynydd', Mynytho. Dyma'r tro cyntaf iddynt fod yn canu yn Llanberis ac rwy'n siŵr nad dyma fydd y tro olaf — cofiwch am yr enw. Trefnwyd raffl gan Roy Griffith a'r enillwyr oedd: 1, Dilys, Mynytho; 2, Pete Shipley; 3, Margaret Cae Rhos; 4, Jason Roberts; 5, Wil Cefngwyn; 6, Cyril Jones; 7, Roy Griffith; 8, Pete Shipley; 9, Terry Cae Coch; 10, Ned Llansadwrn; 11, Maldwyn Jones. Roedd y noson dan ofal Elwyn Jones, ac ef hefyd wnaeth dalu'r diolchiadau.

GORONWY LEWIS



*Mr Cyril Jones, Cadeirydd Côr Meibion Dyffryn Peris, yn cyflwyno siec o £556 i Mr Hywel Evans o Antur Waunfawr yn dilyn noson o 'Codi'r To' a gynhaliwyd yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis, ar nos Wener, Mehefin 24.*

**Yr Urdd:** Bydd aelodau Adran yr Urdd yn cael trip diwedd tymor ar nos Lun, Gorffennaf 4ydd. Bwriedir mynd i'r Ganolfan Bowlio Deg yn Llandudno.



*Llongyfarchiadau i Tim Ward am ennill y drydedd wobr ar yr Unawd 19-25 yn Eisteddfod yr Urdd.*

**Capel Coch:** Bydd trip yr Ysgol Sul yn mynd i'r Rhyl ddydd Sadwrn, Gorffennaf 2il. Gobeithio can ni dywydd braf a digon o hwyl. Bydd rhai o blant yr Ysgol Sul yn mynd i fwrw'r Sul yng Ngholeg y Bala yr wythnos ganlynol.

**Cwpan Her Francis Jones:** Cynhaliwyd rownd derfynol Cwpan Her Francis Jones yn yr Ystafell Snwcer yn y Ganolfan, nos Fawrth, Mehefin 21. Enillwyd y gystadleuaeth wedi gêm gyffrous rhyngddo ef a Stephen Edwards gan Alan Ellis. Llongyfarchiadau i Alan ar ei fuddugoliaeth o 3 ffrâm i 0. Meirion Evans oedd y dyfarnwr; Alan Jones oedd y marciwr; ac Oliver Edwards oedd yn trefnu'r gystadleuaeth.

**Cymorth Cristnogol:** Diolch i bawb a gyfrannodd at y casgliad a wnaed o ddrws i ddrws yn Llanberis yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol ym mis Mai. Diolchir yn arbennig i'r rhai a fu yn casglu eleni eto. Yn ystod yr Wythnos hefyd cynhaliwyd oedfa arbennig yn Capel Coch, a chymerwyd rhan gan gynrychiolwyr Jerwsalem, Nant Padarn, Capel Coch ac Eglwys Sant Padarn.

**Y Carnifal:** Cynhelir y Carnifal blynyddol ddydd Sadwrn, Gorffennaf 16eg. Bydd wythnos lawn o weithgareddau cyn diwrnod y Carnifal ei hun. Edrychir ymlaen at Garnifal llwyddiannus arall.

**Ras y Wyddfa:** Dymunwn yn dda i drefnwyr a rhedwyr Ras y Wyddfa a gynhelir ddydd Sadwrn, Gorffennaf 23ain. Fe gewch y manylion llawn am y Ras yn yr hysbyseb arbennig yn y rhifyn hwn.

**I'r Fyddin:** Mae Eifion Wyn Griffiths, mab Mrs Elizabeth Griffiths a'r diweddar Stanley Wyn Griffiths, 23 Dôl Elidir, wedi ymuno â'r Gwarchodlu Cymreig. Dymunir yn dda iddo.

**Diolch:** Dymuna Wendy, Stryd y Dŵr, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, blodau a galwadau ffôn a dderbyniodd tra bu yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty. Hefyd diolch i'r meddygon a staff y clinig.

**Diolch:** Dymuna Olwena a Gwilym Morris, 4 Rhes Efrog, ddiolch o galon i'w teulu a'u ffrindiau ymhell ac agos am eu caredigrwydd i Olwena tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar — am y rhoddion, y llu cardiau a'r galwadau ffôn. Diolch hefyd i'r offeiriaid a'r gweinidogion fu'n ei gweld ac yn estyn geiriau o gysur. Mae ein diolch



yn fawr wrth gwrs i staff Ward Conwy am eu gofal. Diolch yn fawr iawn i bawb.

**Diolch:** Dymuna Dwynwen Roberts ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau i gyd am y gofal caredig tra yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref. Diolch yn fawr.

**Ysgol Dolbadarn:** Bu tîm o'r ysgol yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth Rygbi'r Ddraig ym Mhwllheli. Enillwyd y chwe gêm gyntaf a chyrraedd y rownd go-gynderfynol. Diolch i Mr Bryn Williams am eu hyfforddi. Mae plant dosbarth 6 wedi gorffen eu cwrs gwersi beicio erbyn hyn. Ar Fehefin 24 buont hefyd yn y pwll nofio yn cael prawf ar eu medrau mewn dŵr. Ar Fai 27, cynhaliwyd gala nofio ysgolion cynradd y cylch a gwnaeth tîm yr ysgol eu gorau glas. Mae'r plant yn cael eu tripiau blynyddol y tymor hwn, a threfnwyd y tripiau i gyd-fynd â themau eu gwaith ysgol. Bu plant adran y babanod yn Pili Palas ar Fehefin 13, ac yn Theatr Gwynedd ar Fehefin 27 yn gweld y sioe 'Cerdyn Post o Wlad y Rwla'; a bydd dosbarth Mr ap Elwyn yn mynd ar daith gerdded i Gwm Dwythwch, a dosbarth Mr Williams yn mynd i Gastell Dolbadarn a'r Chwarel cyn diwedd y tymor. Mae'n amser hefyd i feddwl am ffarwelio â rhai plant a chroesawu rhai newydd. Cafodd plant dosbarth 6 ail ymweliad ag Ysgol Brynrefail, a diolch i Mrs Carys Jones am drefnu hwnnw; a bydd y plant bach fydd yn dechrau yma ym mis Medi yn cael treulio diwrnod efo ni cyn bo hir. Cynhelir mabolgampau'r ysgol brynhawn Mercher, Gorffennaf 13, ac estynnir gwahoddiad i rieni a ffrindiau'r ysgol i ddod i Ddôl y Goeden i gefnogi'r plant. Cafwyd Ffair Haf lwyddiannus nos Fercher, Mehefin 22, a gwnaed elw o £1,126 er budd yr ysgol. Bydd ffrindiau'r ysgol yn brysur eto yn ystod yr haf yn darparu bwyd ar ddydd y Carnifal ac yn cynnal gêm bêl-droed yn erbyn tîm Cwmderi (Pobl y Cwm) ar ddiwrnod Ras y Wyddfa. Cofiwch am y ddau ddydd Sadwrn pwysig yna felly!: Gorffennaf 16 a 23. Gan mai dyma'r adroddiad diwethaf am yr haf, dymunwn wyliau hapus a dedwydd i'r plant ac i holl ffrindiau'r ysgol. Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn.


J.M. JONES
A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR LLANRUG
Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael
Ffôn:
C'fon 672898 (dydd)
C'fon 676285 (nos)


TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
MERCHED ★ DYNION ★ PLANT
Lynette Evans
GARNET, LLANRUG
Ffôn: 673981/675807

# TOYS 'R US YN AWSTRALIA

**Mae'r cwmni Americanaidd Toys 'R Us yn bwriadu agor nifer o siopau yn Awstralia. Ond beth sydd gan hynny i'w wneud ag Eco'r Wyddfa meddech chi? Hogyn o Lanberis fydd un o brif gynrychiolwyr y cwmni enfawr hwn yn Awstralia. Bydd Kevin Davies yn ymfudo i Awstralia ddechrau mis Gorffennaf ac yn ymgymryd â'i swydd newydd fel Cyfarwyddwr Datblygu'r cwmni yno.**

Ychydig ddyddiau cyn iddo ymfudo roedd Kevin, fydd yn 37 mlwydd oed ym mis Gorffennaf, gartref yn Llanberis yn ymweld â'i rieni, Emlyn a Gracie Davies, Rhes Fictoria, Llanberis, a dyna pryd cafodd yr Eco rywaint o'i hanes. Ond nid dyma'r tro cyntaf i'r papur hwn gynnwys erthygl amdano. Fe gofir am yr adroddiadau am Kevin fel mabolgampwr addawol ac mae llawer yn cofio'n dda am y llwyddiant a gafodd fel pêldroediwr yn ystod dyddiau ysgol. Bu'n cynrychioli tîm pêl-droed dan 15 oed Cymru, ond daeth yn fwy amlwg fel rhedwr rhyngwladol. Gwibiwr oedd Kevin, a neb yn dod yn agos ato yn lleol yn y rasus dros 100 medr a 200 medr. Cynrychiolodd dîm ysgol a thîm iau Cymru, a dod yn aelod o dîm dynion Cymru mewn cystadlaethau yn yr Eidal a Sbaen a'r Iwerddon. (Gyda llaw, mae un o festiau rhyngwladol Kevin i'w gweld o hyd yn neuadd Ysgol Brynrefail.) Roedd pawb wedi edrych ymlaen at ei weld yn datblygu ymhellach fel rhedwr, ond yn anffodus, tra'n chwarae pêl-droed yn y coleg torrodd Kevin ei bigwrn a bu raid iddo roi'r gorau i redeg wedyn.

Wedi gadael Ysgol Brynrefail yn 1975 treuliodd bedair mlynedd yng Ngholeg Borough Road yn Llundain. Yr oedd wedi graddio yn y coleg cyn mynd i weithio am gyfnod mewn Canolfan Chwaraeon yn Slough. Fe ddaeth gyrfa ym maes marchnata iddo yn annisgwyl. Dywed Kevin bod swyddi athrawon ymarfer corff yn brin ar y pryd, a digwyddodd sgwrsio efo rhywun am y byd marchnata a chael gwahoddiad i gyfweliad. Cafodd swydd gyda chwmni Medicare, a setlo ar unwaith yn y gwaith. Ar ôl hynny bu'n gweithio i gwmnïau Asda a Sainsbury cyn ymuno â chwmni Toys 'R Us ddeng mlynedd yn ôl a dod yn Reolwr siop y cwmni yng Nghaerdydd. Yn ddiweddarach cafodd swydd newydd yn gofalu am siopau'r cwmni dros ran helaeth o wledydd Prydain. A bellach mae



*Kevin â'i ddwy ferch Laura a Georgina ar Lan Llyn Padarn.*

wedi cychwyn y swydd newydd yn Awstralia.

Ym Melbourne y bydd prif swyddfa'r cwmni, ond bydd Kevin yn gorfod teithio cryn dipyn o gwmpas y wlad er mwyn adolygu datblygiad Toys 'R Us yn y wlad. Mae wedi cytuno i dreulio dwy flynedd yn Awstralia yn y lle cyntaf cyn penderfynu a fydd yn aros yno'n barhaol ai peidio. Dymunwn yn dda iddo ef a'i deulu. Merch o Gasnewydd yw ei wraig Rosemary. Roedd hithau a'u dwy ferch, Georgina, sy'n 12 oed, a Laura, sy'n wyth oed, yn edrych ymlaen at symud i'w cartref newydd. Mae'n amlwg bod Georgina wedi etifeddu rhywfaint o ddawn ei thad gan iddi ennill y Victrix Ludorum yn yr ysgol yng Nghasnewydd y llynedd. Mae Laura hithau'n edrych ymlaen at ddigon o gyfle i chwarae tenis a beicio yn ei chartref newydd. Un aelod arall o'r teulu oedd yn bwriadu mynd yr holl ffordd i Eltham, Melbourne, oedd Smudge y gath fach fis oed.

Er bod yn chwith ganddo feddwl am fynd mor bell, roedd Kevin yn amlwg yn edrych ymlaen at y cyfle i gael bod ynglŷn â dechrau gwaith Toys 'R Us yn Awstralia. Dymunwn y gorau iddo yn ei swydd a'i gartref newydd.


CYMDEITHAS CYMRY ARIANNIN

**ASADO**

**a CHYNGERDD**

**I DDATHLU GŴYL Y GLANIAD**

**gan**

**GÔR MEIBION Y GAIMAN, PATAGONIA**

**Nos Sadwrn, Gorffennaf 9fed**

**am 7.30 o'r gloch**

**yn LLANGERNYW**

**Cysyllter â Cathrin Williams (0248) 712576**


# CLWB FFERMWYR IEUAINC CAERNARFON

Ydym, 'rydym ni yma o hyd!' Mae'r Clwb yn dal i gyfarfod bob nos Fawrth yn Neuadd Goffa Bethel ond heb fod yn anfon adroddiadau i'r Eco. Bu nifer o'r aelodau yn brysur yn ystod y misoedd diwethaf yn cystadlu mewn gwahanol gystadlaethau ac fe ddaeth cryn lwyddiant iddynt. Daeth llwyddiant i Bethan Jones yn dod yn ail am nofio dull rhydd a dull broga i ferched dan 26 oed; Iwan Hughes yn gyntaf am nofio dull broga i fechgyn dan 17 oed, ac yn ail am nofio dull rhydd; Eurwyn Jones yn drydydd am nofio dull rhydd i fechgyn dan 26 oed; ac Aled Jones yn gyntaf am nofio dull broga dan 26 oed. Nofwyr o fri yn y Clwb felly.

Ar Fai 2il cynhaliwyd Diwrnod Chwaraeon Awyr Agored Eryri ym Methesda. Roedd y Clwb yn cael ei gynrychiol mewn pêl-droed, pêl-rwyd, hoci a rygbi. Daeth y merched yn ail yn y gystadleuaeth pêl-rwyd a'r bechgyn yn drydydd yn y rygbi. Yn y rownderi, a gynhaliwyd ar Fai 10fed, daeth y Clwb yn drydydd.

Arwel Jones a Rhys Morgan fu'n Glynllifon yn saeth colomennod clai ar Mai 11eg. Gwnaeth Rhys yn dda iawn gan ddod yn ail.

Dydd Sadwrn, Mai 28ain, cynhaliwyd Rali Clybiau Eryri yn fferm Tŷ Hen, Llangwnadl. Dyma uchafbwynt y flwyddyn i'r aelodau a bu cystadlu brwd drwy'r dydd a dyma'r canlyniadau — Llyfr Lloffion: Ffion Jones (4); paratoi oen ar gyfer sioe: Iwan Hughes a Siôn Williams (2); gyrru tracor a threlar: Bethan Jones ac Arwel Jones; addurno ŵy: Sara Wood; lwc mwnci: Eurwyn Jones a Llio Jones (3); coginio bocs o nwyddau: Helen Jones a Tudur Parry; gosod blodau: Gwenno Jones; y salon coluro: Eurwyn Jones a Llio Jones; tynnu rhaff i ferched; tynny rhaff i fechgyn (2); y ras fawr: Aled, Meryl, Tudur, Ellen a Sara; ras rafft: Meryl, Bethan, Ffion, Eurwyn, Alwyn a David; barnu Gwartheg Duon; barnu defaid masnachol: David Denham (2); ras i feiciau traws-gwlad: Ffion ac Aled; gwaith coed — adeiladu cwt ci: Alwyn a Siôn.

Cynhaliwyd ein Cyfarfod Blynyddol ar Mai 31ain ac fe etholwyd y canlynol yn swyddogion am y flwyddyn — Cadeirydd: Tudur Parry; Is-gadeirydd: Bethan Jones; Trysorydd: Carolyn Jones; Ysgrifenyddion y Rhaglen: Ffion Jones, Sara Wood ac Aled Jones; Ysgrifennydd Cystadlaethau: Meryl Parry; Ysgrifennydd y Wasg: Sara Wood. Cyflwynwyd Cwpan Dinas i'r aelod mwyaf gweithgar i Aled Jones.

Diweddwyd y tymor yng ngwesty'r Antelope ar nos Fawrth, Mehefin 14. Hel yn eu boliau fu'r aelodau ac fe fwynhaodd pawb y noson. Bydd y Clwb ar gau yn awr tan mis Medi.


**Aled Jones**
Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio
**4 Bryn Eglwys**
**PENISARWAUN**
**Ffôn Llanberis**
**871047**

**Gwynedd Hotel**
**& Restaurant**
**Llanberis 870203**
Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall.
Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b.
Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING**
**MACHINE CENTRE**
**40 Stryd Fawr**
**PORTHAETHWY**
**Ffôn:**
**(0248) 714043**
**neu C'fon 674520**
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

**MODURDY**
PLAS
BACH
**CAEATHRO**
**Ffôn: C'fon 672072**
Gwerthu, Trwsio
Trin Cyrff
H.P. ar gael

# CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

**Yn yr Ysbyty:** Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad buan i Hefin Williams, 5 Dôl Afon, sydd yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn Lerpwl. Hefyd i Mrs E. Morris (Nain Becws) sydd yn Ysbyty Gwynedd.

**Adref o'r Ysbyty:** Croeso adref i Mrs Barbara Owen, Bryn Hyfryd, ar ôl derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn Lerpwl; ac i Siân Hughes, 2 Bryn Gro, ar ôl triniaeth yn Ysbyty Dewi Sant ac Ysbyty Gwynedd. Dymunwn wellhad llwyr a buan i chwi.

**Llongyfarchiadau** i Huw Davies, Alexandra House, ar ennill Cwpan Llwyncoed (y gorau o dan 21 oed) yn Ymryson cŵn Defaid a gynhaliwyd yn Nant Peris. Da iawn Huw.'

Llongyfarchwn hefyd Mrs Esme Jones, 24 Dôl Afon, am fod yn Nain am y tro cyntaf — ganwyd mab bach, Owain Glyn, i Catherine ac Arfon.

**Yr Urdd:** Aeth y canlynol i gaeau Ysgol Syr Hugh Owen i gynrychioli'r gangen yn Mabolgampau'r Urdd — Chris, Anthony, Angharad, Branwen, Keith, Carys, Karrah, Arwyn, Ben, Josh, Clair, Llion, Ceri, Dylan, Kim a Jenny. Diolch i bawb a'i cludodd hwy yno.

**Eglwys Sant Gabriel:** Llongyfarchiadau i Keith Williams, Carys Jones, Arwyn Jones, Llion Jones a Delyth Roberts, ar ennill tystysgrifau yn yr Ŵyl Gorawl yn Llandinorwic yn ddiweddar.

**Cydymdeimlad:** Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs Mair Lloyd Hughes a'r teulu (prifathrawes yr Ysgol) yn ei phrofedigaeth o golli ei mham.

**Taith Gerdded Eglwys Sant Gabriel:** Diolch i bawb am bob cefnogaeth, am gasglu noddwyr, rhoddion, a'r rhoddion tuag at y raffl a'r lluniaeth. Arweiniwyd y daith gan y Parchg Idris Thomas ac ef hefyd a ofalodd am dynnu'r raffl. Enillwyr y raffl oedd — Meirion Williams; Margaret Williams; Marjorie Roberts; Parchg Idris Thomas, Trefor; Mrs Mari Jones; Margaret Williams; Mrs H. Orritt; Mrs Glenys Pritchard; Mrs Williams, Goleufryn; Mrs M. Williams, Bwlch; Mrs Beryl Griffith, Deiniolen; Idwal Williams, Bwlch; Mrs Dorothy Jones; Mrs Diana Pritchard, Llanberis; Mrs Jennifer Thomas, Llanrug; Mrs Glenys Pritchard, Mrs Roberts, Bryn Gro; Mrs Peggy Rowlands.

**Ysgol Cwm-y-glo:** Mae'n braf llongyfarch y plant a fu'n cystadlu yn y Gala Nofio i Ysgolion dan 100 o blant. Daeth yr ysgol yn bumed allan o unarddeg o ysgolion, diolch i ymdrech arbennig Daniel, Angharad, Matthew, Keith, Samantha a Gwynfor.

Mr Ted Roberts, Bod Gwilym, oedd enillydd Clwb yr Ysgol am fis Mai ac aeth yr ail wobr i Mrs Elisabeth Hughes, Dôl Afon.

Unwaith eto mae Cynllun Chwaraeon Ysgol Brynrefail wedi dechrau ac mae'r plant hynaf yn cael cyfle i gyfarfod â phlant eraill yn y dalgylch. Treuliodd plant blwyddyn 6 ddiwrnod arall yn yr ysgol, y tro hwn yng nghwmni plant ac athrawon blwyddyn 8. Diolch o galon i Mr Richard Parry a Mrs Carys Jones am drefnu y gweithgareddau hyn.

Rydym yn falch eto o gael croesawu dwy eneth fach newydd i'r ysgol. Mae Ceri Bryn a Rhian Wyn Morris wedi ymgartrefu ym Minffordd, Brynrefail. Maent wedi setlo yn ardderchog yn nosbarth y Babanod ac wedi gwneud ffrindiau newydd yn yr ysgol.

Nos Sadwrn, daeth profedigaeth sydyn iawn i ran un o staff yr ysgol ym marwolaeth Mrs Hughes, Bryn. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn ag Anti Margaret, Gwilym, Carys, Terry a Keith yn eu colled o fam, mam yng nghyfraith a nain garedig ac annwyl iawn.


**Diolch:** Dymuna Sian, 2 Bryn Gro, ddiolch am y cardiau, blodau a'r anrhegion a dderbyniodd tra yn Ysbyty Dewi Sant ac Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

**Marwolaeth:** Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd nos Sadwrn, Mehefin 18, yn 82 mlwydd oed bu farw Mrs Annie Hughes, Bryn. Un o'r Ceunant oedd Mrs Hughes a'i phrif ddiddordebau oedd cerddoriaeth, llenyddiaeth a'i chapel. Bu'n arweinydd y gân yng Nghapel Ceunant am flynyddoedd. Wedi priodi ymgartrefodd yng nghartref ei phriod, y diweddar Mr Gwilym Hughes, gan ymaelodi yng Nghapel Baracia, ac yna wedi capel ymaelodi yng Nghapel y Tabernacl. Bydd y golled yn fawr nid yn unig i'r teulu ond i'r ardal gyfan y byddai drws Bryn ar agor bob amser a chroeso cynnes i bawb ar yr aelwyd.

Bu'r angladd ddydd Iau, Mehefin 23, gyda gwasanaeth yng Nghapel y Tabernacl ac yn dilyn ym mynwent Llanrug. Gwasanaethwyd gan y Parchg Gwynfor Williams a'r Parchg John Morris, gyda Mr Gareth Jones with yr organ.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w hunig ferch Margaret a'i phriod Gwilym, Carys, Terry a Keith yn eu profedigaeth lem o golli mam a nain annwyl a charedig; hefyd ei brodyr a'i chwaer a'r teulu oll.

# BLE TYNNWYD Y LLUN HWN




Cawsom fenthyg y llun arbennig yma er mwyn gwneud ychydig o ymholiadau amdano. A oes unrhyw un o ddarllenwyr yr Eco all awgrymu ym mhle y cafodd ei dynnu? Mae gwybodaeth ar ei gefn yn dangos mai R. C. Symonds, ffotograffydd o Lanberis, a'i tynnodd, ac mae awgrym hefyd mai yn ardal Llanrug yr oedd yr adeilad sy'n ymddangos ynddo. Os oes gennych unrhyw wybodaeth neu awgrym ynglŷn â'r lleoliad cysylltwch â'r golygydd ar (0286) 675649.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr


**ERIC JONES**
**PENISARWAUN**
**Ffôn: 872421**

★ Prisiau rhesymol
★ Spreio tu mewn a thu allan
★ Estimates am ddim

PEINTIO • PAPURO • MÂN ATGYWEIRIO

**Y STORFA LLANRUG**
(Richard a Meirwen Williams)
Ffôn: C'fon 672790
Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth
Nid oes unrhyw dâl am ddanfon archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr gan y bobl BROFFESIYNOL
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i CHWI
Y Gwasanaeth Technegol Gorau i'ch CAR. Cystal â Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych CHWI yn ei yrru, o Audi i Zastava

AA Specialist · MOT · Retail Motor Industry Federation · RAC Selected

GEMINI SERVICE CENTRE
Car neu Fan · Petrol neu Disel · Carb. neu Chwistrelliad
bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed £ £ £ ichwi ac yn ymestyn oes eich car

AVW · YSTAD CIBYN · CAERNARFON (0286) 673559 · BOSCH SERVICE

AM FFENESTRI, DRYSAU A STAFELLOEDD HAUL UPVC, PREN CALED AC ALWMINIWM
**FFENESTRI CELTAIDD**
(CELTIC WINDOWS)
**2 TAN Y BRYN, BETHEL** NHBC
★ Gwydro Dwbl a Sengl
★ Gwaith Domestig a Chontract
★ Gwarant 10 mlynedd
★ Amcangyfrif prisiau yn rhad ac am ddim



CYMHARWCH EIN PRISIAU CYSTADLEUOL NI CYN PRYNU!
FFONIWCH (0286) 671181 NEU (0831) 326160

# LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn, Ffôn; 675384.

**Sefydliad Coffa:** Dymuna pwyllgor y Sefydliad Coffa ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth drwy gymeryd rhan a chyfraniadau hael at y sesiwn Bingo a gynhaliwyd yn yr Ysgol Gynradd ar Fai 4ydd. Trefnwyd y noson gan mrs Eurwen Williams, Bryn Gro, a gwnaed elw o £200 tuag at y Sefydliad Coffa.

**Llongyfarchiadau** i Michelle Louise Roberts am ei llwyddiant yn Eisteddfod Môn. Enillodd bedair gwobr gyntaf, sef yr unawd ac unawd cerdd dant, 10-12 oed; llefaru dan 12 oed ac o dan 15 oed. Da iawn hi unwaith eto.

**Gwellhad buan:** Mae Mrs Barbara Owen, Cwm-y-glo, merch Mr a Mrs Cecil Williams, Hafan Elan, wedi dychwelyd gartref o Ysbyty Walton ac wedi aros gyda'i mherch Dilys a'r teulu yn Sycharth am gyfnod. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddi.

**Genedigaeth:** Llongyfarchiadau i Awen ac Aled Gibbard, Gorlan, Ffordd Glanmoelyn, ar enedigaeth eu merch fach, Gwenno Angharad, ar yr ail o Fehefin.

**Cymdeithas y Chwiorydd:** Prynhawn dydd Mawrth, 17 Mehefin, cynhaliwyd cyfarfod arbennig yn festri'r Capel Mawr gan Gymdeithas y Chwiorydd. Cafwyd gwasanaeth byr a lluniaeth ysgafn ac anrhegwyd y swyddogion oedd yn cwblhau eu tymor – Mrs W. O. Roberts, llywydd; Mrs Beryl Thomas, ysgrifenydd; a Mrs Dorothy Jones, Trysorydd. Tystiolaeth o ddiolch gan y chwiorydd i'r dair oedd Sampler o waith Mrs Elliot, Penisarwaun. Bu y dair yn weithgar iawn am flynyddoedd lawer. Diolchodd Mrs W. O. Roberts i bawb a weithiodd er lles yr Eglwys a chyfeiriodd at wasanaeth Mrs Mair Jones (Ogwen gynt) fel organyddes a hyfforddwraig y plant. Croesawyd aelodau oedd wedi bod yn wael a diolchwyd am y te.

Gan mai hwn oedd y cyfarfod olaf o Gymdeithas y Chwiorydd Capel Mawr, penderfynwyd rhannu'r arian rhwng yr Ysgol Sul, Cymdeithas Chwiorydd Capel y Rhos, ac Antur Waunfawr.

**Y Gymdeithas Lenyddol:** Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas Capel y Rhos ar y 5ed o Fai, gyda Mr John Wyn Owen yn llywyddu. Penderfynwyd mynd ar wibdaith i Southport ar y 3ydd o Fedi a gofynnir i'r rhai sydd â diddordeb i roi eu henwau i un o'r canlynol – Mrs Jean Davies, Rhyd y Delyn; Mrs Mair Jones, 24 Hafan Elan neu Mrs Mai Parry, 2 Bryn Heli.



*Michelle Louise Roberts enillydd pedair gwobr gyntaf yn Eisteddfod Môn.*

**Merched y Wawr:** Cynhaliwyd Helfa Drysor (hawdd) i orffen y tymor. Pwy fuasai'n meddwl y cymerai hi fwy nag awr a hanner i fynd o amgylch Cwm-y-glo? Fe lwyddodd pawb i orffen yr Helfa a chyrraedd Ty'n Llan, Nant Peris, mewn amser da. Mwynhawyd pryd o fwyd blasus tu hwnt yno. Yr enillwyr oedd Eryl, Margaret, Einir a Cerid. Yn ail agos daeth Ann, Margaret, Menna a Mary, ac yn dynn wrth eu 'bympar' hwythau roedd criw Penisarwaun – Phillis, Myfanwy, Heulwen ac Ann. Diolchwyd i Carys a Gwenda am wneud yr holl drefniadau. Yn wir roedd trefniadau Carys mor drwyadl fe wyddai'r holl atebion ar ei chof – er iddi eu gadael adref!! Diolch genod am noson hwylio i orffen y tymor.

Llongyfarchwyd Eurgain Haf ar ei champ a holl blant bro'r Eco. Llongyfarchir Ffionl a Paul, Cwm-y-glo ar enedigaeth merch fach, Ffion Fflur. Hyfryd oedd clywed gan Mrs Lovatt, anfonai ei chofion annwyl at yr holl aelodau. Etholwyd Meirwen Lloyd yn Is-lywydd a Mary Roberts yn Is-drysorydd; gyda Ann Gibbins yn aelod o Is-bwyllgor y Dysgwyr. Diolchir i Meryl am lywyddu mor siriol a hamddenol drwy'r flwyddyn a dymunir pob rhwyddineb i Menna ym mis Medi.

Estynnir ein cydymdeimlad llwyraf i Mair a'r teulu yn eu profedigaeth lem o golli un mor annwyl â mam Mair.

**Yr Ysgol Gynradd:** Diolch i'r rhieni i gyd a gyfrannodd deisen at y stondin ar y Maes ac i bawb fu'n cynorthwyo. Cafwyd bore llwyddiannus iawn.

Llongyfarchiadau i dîm nofio'r ysgol ddaeth yn ail yng Ngala Nofio Cyngor Bwrdeistref Arfon.

Daeth Mr John Owen a Calley ei gi tywys newydd i roi sgwrs i Blwyddyn 1 a 2 fel rhan o'u gwaith thema. Cyflwynwyd cyfraniad i Mr Owen tuag at Cronfa Cŵn Tywys ac roedd y plant wrth eu bodd yn cael gweld ei gi newydd ac yn ei holi.

Dydd Iau, Mehefin y 9fed, aeth adran y Babanod ar eu teithiau addysgol. Aeth y Dosbarth Derbyn i'r Sŵ Fôr ac i'r porthladd yng Nghaergybi ac aeth Blwyddyn 1 a 2 i dreulio'r diwrnod yn Pili Palas. Cafodd pawb ddiwrnod wrth eu bodd.

Aeth criw o Blwyddyn 6 i'r Coleg Normal yn ddiweddar i gyflwyno eu gwaith thematig i'r myfyrwyr fel rhan o addysg a busnes.

**Yr Urdd:** Llongyfarchiadau arbennig i Gavin am ennill y wobr gyntaf mewn gwaith printio yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nolgellau, a braf oedd gweld y 'Sioni Rhew' yn cael ei arddangos yn y babell Celf a Chrefft hefyd gan griw y babanod Blwyddyn 1.

Cafodd pawb oedd yn cystadlu hwyl fawr a gwnaeth pawb eu gorau glas. Da iawn chi.

Pob hwyl i bawb sy'n cystadlu yn y Mabolgampau Sir ym Mhorthmadog. Cafodd chwech o blant o Blwyddyn 5 a 6 fwrw sul prysur a gweithgar iawn yng Ngwersyll Glan-llyn yn canwio, nofio, dringo a bowlio deg. Gwnaeth pawb nifer o ffrindiau newydd gyda phlant eraill y cylch ac fe fyhafiodd pawb yn dda iawn.

Cydymdeimlwn â Margaret Williams a'r teulu yn eu profedigaeth a'u hiraeth o golli ei mam. Estynnwn gydymdeimlad hefyd i Mair Hughes a'r teulu yn eu colled a'u galar o golli ei mam hithau.

**Enillwyr Clwb Cyfeillion yr Ysgol am fis Mehefin** – 1, Mrs R. Williams, 18 Rhos Rug; 2, Sionwyn Morris, Fernlea; 3, Dennis Jones, Rhos y Grug, Ceunant; 4, Dafydd Owen, 21 Glanffynnon; 5, Linden Parslow, Hafryn.

**Llongyfarchiadau** i Huw Lloyd Jones gafodd ei ddewis yn Myfyriwr y Flwyddyn drwy Brydain mewn cystadleuaeth i'r rhai sy'n cael eu hyfforddi yng nghrefft plastrwyr.

**Diolchiadau:**

Dymuna Mrs Beryl Thomas, Awel Deg, ddiolch yn gynnes iawn yr ymweliadau, cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar ôl ei llawdriniaeth yn ddiweddar.

Dymuna Elen Wyn Parry, Gwynant, Ffordd yr Orsaf, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed.



*Gavin Parry Jones gyda'r print a enillodd y wobr gyntaf iddo yn Eisteddfod yr Urdd yn Nolgellau.*



*Elinor Williams o Benisarwaun yn derbyn y wobr o ginio i ddau yn y Seiont Manor a enillodd yn raffl yr NSPCC yn ddiweddar.*



*Plant yr Ysgol Feithrin yn canu i'r rhieni yn ystod y Bore Agored a gynhaliwyd yn ddiweddar.*

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

# DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

**Hwyl Haf:** Cafwyd prynhawn i'w gofio eto eleni pan gynhaliwyd Hwyl Haf yn yr Allt Ddu, prynhawn dydd Sadwrn, Mehefin 11eg. Er na ddaeth yr haul allan fe gadwodd y tywydd yn sych ac fe gafodd pawb amser wrth eu bodd. Fel pob blwyddyn cafwyd cefnogaeth gref gan ein cyfeillion o Ddeiniolen ac o bentrefi eraill y fro. Gwerthfawrogir eu cefnogaeth yn fawr iawn.

Uchafbwynt y prynhawn oedd perfformiad Robert John, y Consuriwr o Fangor ond un a gafodd ei eni a'i fagu yn Cae Canol, Fachwen. Cafodd groeso cynnes iawn yn ôl i'w gynefin a braf hefyd oedd gweld ei frawd, Glyn, wedi dod draw i gefnogi.

Ymysg y llu gweithgareddau a drefnwyd cafwyd cystadleuaeth Gwist Ffansi a'r enillwyr oedd – dan 2 oed: 1, Einion Glyn; 2, Steven Wardle. Dan 5 oed: 1, Catrin Griffiths. Dan 110 oed: 1, Helen, Jenny a Rachel; 2, Claire Williams a Julie Jones. Diolch i bob un ohonynt am ymuno yn yr hwyl. Diolch i'r canlynol am bob cefnogaeth: Ambiwlans St Ioan, Dŵr Cymru, Cyngor Bwrdeistref Arfon, Dafydd Morris, Robert John. Rhoddwyd gwobrau raffl gan Caradog Thomas, Garej Beran, Rita Wood, Eifion Griffiths, Margaret Jones, Rennell Williams, Alf ac Ann Dearn a Katie L. Hughes. Diolch i bawb am y nwyddau ar gyfer y stondinau; am gyfraniadau ariannol cyn y diwrnod ac i bawb a fu'n cynorthwyo mewn sawl ffordd yn ystod y dydd. Sicrhawyd elw o £200 ac fe fydd yr arian yn cael ei rannu ymysg cymdeithasau lleol fel y Gymdeithas Undebol Lenyddol, Clwb Hwyl Hwyr, Gwerin y Coed, Ysgol Feithrin Deiniolen, Clwb Ti a Fi, Ysgol Gwaun Gynfi ac Ambiwlans St Ioan.

**Dymuniadau Da** i William a Rita Morris a'r plant, Dafydd, Ceri, Rhian a Elin, o Dŷ Capel Dinorwig, a symudodd yn ddiweddar i'w cartref newydd ym Mrynrefail. Bydd colled ar eu hôl yn Ninorwig a bydd yn chwith heb y plant yn Clwb Hwyl Hwyr. Cofiwch alw i'n gweld yn Ninorwig o bryd i'w gilydd.

**Cyfarfodydd Pregethu:** Er nad oes efallai gymaint o fri ar Gyfarfodydd Pregethu y dyddiau hyn mae Capel Sardis ac Eglwys St Mair yn dal i gadw at y traddodiad hwnnw. Arferiad selogion Sardis yw cynnal eu Cyfarfod Pregethu ar y Sulgwyn a'r pregethwr gwadd eleni oedd y Parchg Carl Williams, Abergwaun. Yna ar 19 Mehefin cynhaliwyd Cyfarfod Pregethu Eglwys St Mair gyda Mr Derek Jones, Llanberis, yn arwain a'r Parchg J. Aelwyn Roberts yn pregethu. Hoffai swyddogion y ddau enwau ddiolch i bawb am eu cefnogaeth i'r oedfaon hyn.

**Diolch:** Hoffai Eifion Griffiths, Foel, a'r teulu ddiolch yn gynnes iawn i bawb am fod mor garedig wrthynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain. Diolch o galon i bawb.

**Adferiad Buan:** Bellach mae'n dda gallu adrodd fod Mrs Heulwen Jones, 9 Bro Elidir, wedi dychwelyd gartref ar ôl triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Dymuniadau da i bawb nad sydd yn mwynhau iechyd da ar hyn o bryd.

**Plygu'r Eco:** Cyfle pentrefwyr Dinorwig fydd plygu rhifyn mis Medi o'r Eco. Felly, cofiwch ddod i'r Ganolfan ar nos Iau, Medi 8fed, o 6 o'r gloch ymlaen. Os daw criw da ynghyd fe allwn orffen y gwaith mewn dim o amser.

**Gwyliau Hapus:** Gan mai hwn yw y rhifyn olaf cyn yr haf gobeithio y caiff pob un ohonoch wyliau wrth eich bodd. Mwynhewch eich hunain.



*Aduniad Chwarelwyr Dinorwig yn Milburn, Gaerwen, 1974. O'r chwith i'r dde: Emlyn Griffiths, Andrew Griffiths, Hywel Griffiths, Rennell Williams, Wil Griffiths, John Jones a Charles Griffiths.*

**O'r Rwbel i'r Dyfodol:** Er bod nos Wener, Gorffennaf yr 8fed wedi ei neilltuo ar gyfer cofio Cau Chwarel Dinorwig yn 1969 mewn noson arbennig yn Ysgol Brynrefail Llanrug, a'r aduniad yn y Gilfach Ddu ar y 9fed a'r 10fed o Orffennaf, daeth llun i law yn ddiweddar oddi wrth Mr Rennell Williams oedd yn cofnodi aduniad i chwarelwyr yn y saithdegau. Mae'r llun yn dangos rhai o'r cyn-chwarelwyr a ddaeth i'r aduniad hwnnw, a gynhaliwyd yn Milburn, Gaerwen, yn 1974. Oes rhywun arall yn cofio yr aduniad yma? Diolch i Mr Williams am y llun ac am ein hatgoffa o'r digwyddiad.



*Y plant yn mwynhau perfformiad y Consuriwr.*



*Teulu Brenhinol Dinorwig.*

# CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna 679501 (gwaith); 677438 (cartef)

**Gwasanaethau Capel y Pentref:** Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod mis Gorffennaf:

3: Gweinidog am 10.
10: Parchg S. O. Hughes am 5.30
17: Gweinidog am 2
24: Mr John Roberts am 2
31: Dim gwasanaeth

Fel arfer ni fydd gwasanaethau yn ystod mis Awst ac fe ail-ddechreuir addoli gyda'n gilydd ar ddydd Sul, 4 Medi.

**Llongyfarchiadau:** Yn Nghadeirlan Bangor yn ddiweddar fe ordeiniwyd y Parchg Eric Roberts yn offeiriad yn yr Eglwys yng Nghymru gan Esgob Bangor. Pryd y'i gwelir yn pregethu yng Nghaeathro tybed?

**Y Dynfa Fisol:** Enillwyr y Dynfa am fis Mehefin oedd — £40: T. Arfon Williams, Y Wern (17); £25: Peter ac Olga Evison, Cae Hesyn (2); £15: Jacky Evans, Llecyn Clyd Newydd (66).


**E. W. Pritchard**
**CENTRAL GARAGE**
**Llanberis**

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

**GORSAF BETROL**
**BERAN**
**DEINIOLEN.**
**Ffôn: Llanberis 871521**
Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Disel ● Nwy Calor ● Glo
Cylchgronnau ● Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd ● Wyau
Nwyddau Groser ● Melysion
Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

# BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

**Llongyfarchiadau** i Richard Sharpe a Nia Wynne Hughes ar achlysur eu priodas yng Nghapel Bethel, ddydd Sadwrn, Mai 14. Dymuniadau gorau i'r ddau.

Llongyfarchiadau i Rhian Parry, Waen Deg, ar achlysur ei phriodas â Gary Ellis o Gaernarfon. Dymuniadau gorau i'r ddau.

Llongyfarchiadau mawr i Llinos Angharad, Perthi, ar gael ei dewis yn brif ddisgybl y genethod yn Ysgol Brynrefail am y flwyddyn nesaf.

**Bedydd:** Ddydd Sul, Mai 22, yng Nghapel Cysegr bedyddiwyd Arron Martin, mab Martin a Catrin Hughes, Swyn Eryri.

**Merched y Wawr:** Nos Fercher, Mehefin 8, i ddiweddu'r tymor aeth aelodau'r Gangen ar Daith Ddirgel. Pen y daith oedd Coleg Glynllifon ac ar ôl pryd o fwyd blasus braf oedd cael mynd o gwmpas y Plasdy yng nghwmni Eluned Davies. Diolchwyd iddi ar ran y Gangen gan Jen Roberts. Llongyfarchwyd y canlynol — Non, merch Alys Jones, a Dewi, mab Glenys Griffiths, ar eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd, ac hefyd Mair a Goronwy Jones ar ddathlu eu Priodas Rhuddem. Cydymdeimlwyd â Rita Williams yn ei phrofedigath o golli ei mham. Enillydd y raffl oedd Delyth Williams. Diolchodd y llywydd, Eirlys Williams, i'w swyddogion a'r pwyllgor am eu gwaith drwy'r flwyddyn a dymunodd yn dda i'r pwyllgor newydd. Etholwyd fel a ganlyn ar gyfer tymor 1994-95 — Llywydd: Glenys Griffiths; Is-lywydd: Gwyneth Jones; Ysgrifennydd: Enid Williams; Is-ysgrifennydd: Joyce Gaffey; Trysorydd: Mair Jones; Is-drysorydd: Mair Read. Y pwyllgor fydd Jaqueline Jones, Jen Roberts, Eryl Roberts, Eirlys Sharpe, Nan Rowlands ac Eirlys Williams. Cynrychiolwyr i bwyllgorau rhanbarth — yr anabl: Gwyneth Jones a Nora Parry; chwaraeon: Nan Rowlands a Jen Roberts; celf a chrefft: Wendy Grail a Joyce Gaffey; y Gofeb: Eirlys Sharpe a Delyth Williams.

Cynhelir Twmpath Dawns yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis, ar nos Fercher, 6 Gorffennaf, am 7.30 o'r gloch. Pris fydd £5.50 yn cynnwys bwyd basged. Enwau ac arian i Nora Parry cyn diwedd y mis.

**Yr Urdd:** Y penwythnos diwethaf aeth deg o blant yr Adran am benwythnos i Ganolfan yr Urdd, Glan-llyn, ac er nad oedd y tywydd yn ffafriol iawn cafwyd hwyl yn canwio, dringo a dawnsio. Yn gwmni iddynt aeth Bethan Evans, Mair Read a Glenys Griffiths.



*Idris Rees, capten Tîm Snwcer Bethel, gyda tlysau'r gyngrair a'r cwpan.*

**Eisteddfod yr Urdd:** Cafodd plant Bethel eisteddfod lwyddiannus iawn eleni, gyda phawb oedd wedi mynd trwodd i'r Genedlaethol yn cael llwyfan ac yn rhoi cyfrif da iawn ohonynt eu hunain.

Roedd Andrea Pugh yn aelod o dîm Pendalar a enillodd dlws Nevil Williams am waith 3D o dan 12 oed ac roedd Andrea ac Iwan Morris yng nghôr Pendalar a ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth grŵp cerdd creadigol i ysgolion arbennig.

Daeth y grŵp dawnsio disgo gyda Susan Thomas, Fiona Lambrecht, Ellen Robinson, Meleri Ellis, Cheryl Morris, Rebecca Hall, Caryl Owen, Awen Thomas, Eleri Robinson, Lowri Williams, Kelly Jones ac Ellen Jones, dan hyfforddiant Miriam Thomas, yn ail yn y gystadleuaeth adran i blant blynyddoedd 7, 8 a 9 a'r Parti Llefaru, sef Gareth Birket, Lowri Williams, Bethan Williams, Meilyr Emrys, Eleri Robinson, Ellen Robinson, Llinos Williams, Delyth Michael a Caryl Owen, dan hyfforddiant Iorwerth Williams, yn drydydd yn y gystadleuaeth Parti Llefaru 12-15 oed.

Daeth Dewi Griffiths, hyfforddwr Dennis Williams, yn ail ar yr unawd pres 12-15 oed ac enillodd Non Llewelyn Tlws y Prif Gyfansoddwr.

Roedd nifer o blant y pentref yn aelodau o barti Glanaethwy hefyd. Llongyfachiadau mawr i bawb.



**Priodas:** Ddydd Sadwrn, Mai 14, yng Nghapel Bethel priodwyd Richard Sharpe, mab Mr a Mrs Brian Sharpe, Ael y Bryn, â Nia Wynne Hughes, merch Mr a Mrs W. G. Hughes, Cae Metta, Llanrug. Gweinyddwyd y briodas gan y Parchedig Gwynfor Williams gyda chymorth y Parchedigion W. R. Williams a R. E. Hughes. Mr Gwilym Vaughan Jones, Bangor, oedd yr oganydd.

Llio, Sioned ac Elliw oedd y morynion a Mr Myfyr Jones oedd y gwas; gyda Mr Noel Hughes a Mr Gareth Wyn Owen yn gwasanaethu fel ystlyswyr. Cyflwynwyd pedol lwcus i Nia gan Llio, Sioned ac Elliw.

Cynhaliwyd y wledd yn Seiont Manor, Llanrug, a threuliwyd y mis mêl yn y Gambia.

Mae Richard yn geithio yn Depo'r Cyngor Sir yn Llandegai, ac mae Nia yn gweithio ym musnes y teulu, Hughes' Meats, Bangor.

**Cylch Meithrin:** Hyd yma mae dros £550 wedi ei gasglu trwy'r Taith Gerdded Noddedig. Dymuna'r pwyllgor ddiolch o galon i Mr Seiriol Owen am ei ymdrech arbennig ac i bawb a'i noddodd.

Ar nos Fercher, Mehefin 15, cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol blynyddol pryd y penodwyd y canlynol yn swyddogion y pwyllgor — Cadeirydd: Lynn Lewis; Ysgrifenyddes: Menai Jones; Trysorydd: Glenda Owen; Is-gadeirydd: Deilwen Hughes; Is-ysgrifenyddes: Enid Christie; Is-drysorydd: Meryl Slater Parry. Aelodau y pwyllgor yw Sheila Lambrecht, Sian Harris, Llinos Huws Einir Pritchard, Petra Roberts, ac Alicia Price.

Bydd trip blynyddol y Cylch yn ymweld a'r Sŵ ym Mae Colwyn ar ddydd Mawrth, Gorffennaf 6. Yn ystod yr wythnos honno bydd plant yr ail flwyddyn yn ymweld â'r ysgol gynradd am bnawn i gael cyfarfod â'r athrawon a dod yn gyfarwydd â'r ysgol. Bydd 19 o blant y Cylch yn dechrau yn Ysgol Gynradd Bethel ym mis Medi. Pob lwc i chi blant yn yr ysgol fawr!

Cylch Chwarae Haf: Yn ystod gwyliau'r haf mae criw o rieni am redeg Cylch Chwarae yn y Caban Meithrin ar fore Mawrth a bore Iau i blant o 2½ i 4 oed. Mae dros 20 o enwau wedi eu derbyn disoes. Am fwy o fanylion ffoniwch Iola Jones ar 670898.



*Rhai o blant y Cylch yn chwarae allan yn y llecyn chwarae newydd.*



*Plant o'r Cylch fydd yn dechrau yn Ysgol Gynradd Bethel ym mis Medi.*

*(Mwy o Newyddion Bethel ar dudalen 17)*

**Royal Victoria Hotel**

**LLANBERIS**

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

**Ffôn: Llanberis 870253**

# CAPIO gan Y Gwalch

Doedd Gwylym Huws ddim yn sicr i ble roedd y trên yn mynd nes i ddyn y ticedi ddod ar ei daith, a dweud ei bod yn mynd i Newcastle. Roedd yn falch nad oedd raid iddo newid yng Nghaer.

Yn y fan honno daeth merch i mewn ac eistedd gyferbyn. Roedd hi tua ei oed, a dychmygodd mae un debyg â oedd wedi drefnu i'w chyfarfod yn y dref yr wythnos wedyn.

Roedd Gwyl yng nghanol ei ddeugeiniau ac yn ysgaredig: ei wraig wedi ei adael: neu fo wedi ei gadael hi, pwy bynnag gafodd y fargen orau: Gwyneth. Doedd o ddim wedi clywed dim o'i hanes ers tro. Yr ychydig a wyddai oedd drwy Angharad ei ferch. Roedd Gwyneth wedi cael gafael ar ddyn arall: Sais y tro yma am newid, ac yn trigo yn Sir Gaer. Roedd Gwyl yn gresynu briadd serch hynny na fuasai hi hefo fo y diwrnod hwnnw yn rhannu'r llwyddiant a'r balchder.

Angharad oedd y rheswm ei fod ar y trên o gwbl. Roedd yn mynd i Leeds i'w gweld yn cael ei chapio â gradd y gyfraith, a phan agorodd sgwrs â'r ferch gyferbyn, deallodd ei bod hi yn byw yn y dref honno, ac nis gallai lai na dadlennu pwrpas ei siwrne.

'Da iawn,' meddai hithau. 'Gobeithio caiph hi swydd ar y diwedd.'

Roedd hi'n gwybod am y Brifysgol, ac yr oedd yno hefyd oriel luniau dda meddai, ond yr oedd y dref yn gyffredinol wedi ei difetha gan benseiri diamcan. Ar ben hynny, roedd yno heidiau o bobl dduon oedd wedi disodli'r gymuned Iddewig, ac yn ddiarwybod wedi ysgwyddo peth o'u gwarthnod. Roedd y ddau wedi mynd i sgwrs mor ddiddorol, nes y daeth pen y daith yn rhy fuan i Gwylym.

Roedd Angharad ar y platfform yn ei ddisgwyl, a chyda hi yr oedd bachgen tywyll: Asiad yn ôl y gosodiad Saesnig. Os y cafodd Gwyl ei synnu, ddatgelodd o ddim drwy'r un ystym. O gil ei lygad gwelodd ei gydymaith ar y trên yn taflu trem o anghrediniaeth wrth fynd heibio.

Ar ôl cofleidio ei thad a dweud ei fod yn olygus yn ei golwg, trodd Angharad ei sylw at yr hogyn. 'Dyma Ramnath dad,' meddai.

Daeth hwnnw ymlaen gan ddal ei ddwy law wrth eu gilydd. 'Namatse,' meddai ac yna ysgydwodd law.

'Dowch,' meddai Angharad, 'mae 'na rhywun arall isio eich gweld.'

Yn sefyll yn uwch i fyny roedd Gwyneth a'i dyn, ac yr oedd Gwyl yn falch ei bod hi yno. Roedd y ddau wedi eu gwisgo yn nes i ddull yr amseroedd na Gwylym. Cyflwynwyd y dyn fel Meic, a rhoddwyd mawr bwyslais ar natur ei swydd: Food Distribution Area Executive. Ddadlenodd Gwyl ddim beth oedd o yn ei wneud, os rhywbeth. Teimlai fod y cwestiwn hwnnw eto i ddod. Ond yr oedd pawb ar delerau enwau cyntaf o'r dechrau ond gan Ramnath.

Awgrymwyd wedyn mai difai peth â fuasai cael pryd. Cymeradwywyd lle gan Angharad, gan ei bod wedi trefnu i gyfarfod ei chyfeilles yno, Nasreen, a oedd hefyd yn cael ei chapio trannoeth. Eisteddodd pawb o gylch y bwrdd fel pe buasent wedi arfer â chwmni eu gilydd erioed. Roedd y sgwrs yn sponcio o un peth i'r llall, fel y bydd un pobl heb weld eu gilydd ers tro, ond yr oeddent i gyd yn ymwybodol iawn o'u pwrpas yno. Roedd yn ddigon amlwg i Gwylym fodd bynnag, fod gan ei ferch newyddion arbennig ar ei gyfer pan ddeuai'r cyfle.

O'r diwedd deth merch brydferth dywell i mewn, a chyflwynodd Angharad Nasreen. Cododd Gwylym gan ddymchwel ei gadair o'i ôl, ac edrychodd Gwyneth a Meic yn syn arno. Arhosodd Nasreen ddim dau funud fodd bynnag, er fod Meic yn pwyso ei sylw arni. Ar ôl sipian dipyn o de, esgusododd ei hun gan obeithio eu gweld i gyd yn y bore.

Roedd hi bellach yn adeg i chwilio am le i aros y nos, ond doedd dim angen pryderu. Roedd lle i bawb wedi ei ddarparu yng nghartref Ramnath. Roedd Gwyneth a Meic fodd bynnag yn daer am fynd i'w gwesty eu hunain, a gwahanodd y cwmni ar y stryd.

Aeth y tri arall mewn tacsi yn cael ei yrru gan ddyn tywyll, gyda'r hwn yr oedd Ramnath yn sgwrsio yn Hindi. Erbyn hyn roedd Gwylym, a oedd wedi ei drwytho mewn storiau fel yr oedd yr ymfydwyr duon hyn yn cysgu ar bennau eu gilydd mewn adeiladau diymgeledd, yn dyfalu ffasiwn le i ddisgwyl, ond rhoddwyd iddo agoriad llygad. Arhosodd y tacsi gyferbyn â thŷ o faint ar gyrion y dref, ac yno croesawyd ef yn dwym gan rieni Ramnath a'i chwaer Neelam, a chanddi ferch fach o'r enw Sangeeta a gysgai ar y pryd ar soffa o dan groen teigr.

Rhoddwyd ystafell foethus i Gwylym, ac yn y man daeth Angharad. 'Wel,' meddai yntau, 'sut wyt ti mewn difri. Diwrnod mawr i ni fory.' Gorweddodd y ddau ochr yn ochr ar y gwely a daeth awr y dadlenu.

Cafodd Gwylym hanes teulu Ramnath; fel yr oeddent wedi gorfod ffoi o Punjab rhag y Moslemiaid. Dilladwr oedd y tad. Roedd hefyd wedi bod yn heliwr teigrod a oeddent wedi troi yn ddynladdwyr.

'Mi rwyt ti dipyn o lawia hefo'r hogyn yna,' meddai Gwyl.

'Ydw dad. Mi rydan ni mewn cariad.'

'Wela i. Mi rwyt ti'n gneud dipyn hefo'r bobol dduon 'ma?'

'Mae eu ffordd nhw yn debycach i'n ffordd ni. Mae ganddyn nhw gartrefi soled.'

'Gwell na dy un di wyt ti'n feddwl.'

'Na sori dad — dim hynny.'

'Hogan bach neis ydy Nasreen.'

'Ia, dydy petha ddim yn dda iddi hitha chwaith. Mae hi wedi dyweddïo hefo Sais yn erbyn ewyllys ei rhieni.'

'O taw. Ddaru hi ddim aros yn hir hefo ni.'

'Fy ffrindia i ydy hi ydach chi'n gweld. Mae'n rhaid i mi gadw fy mhobol ar wahân.'

'Pam hynny?'

'Moselm ydy Nasreen. Hindwiaid ydy'r teulu yma.'

'Mae'r hen grefydda 'ma yn achosi llawar o helynt os y gwnei di adael iddyn nhw. Gwranda, mae gen inna newydd i titha hefyd.'

'Am gael mam arall ydw i?'

'Sut y gwydda ti?'

'Roedd o ar y cardia. Pwy ydi hi?'

'Mi rydw i yn ei chyfarfod hi yn y dre yr wythnos nesa.'

'Dydach chi ddim yn ei nabod hi'n barod?'

'Dim cweit. Hysbysebu yn y papur wnaeth hi — 'make a date'.

'Dad — dydach chi rioed . . .?'

'Fydd raid i mi ddim ei chymryd hi yn na fydd.'

'Na fydd. Ond mae 'na flas ffair wartheg ar y cwbl i gyd.'

Cawsant alwad wedyn i fwyta — heb gyllell na fforch. Blasodd Gwyl y chapatis am y tro cyntaf. Roedd y cwmni yn siarad mewn lleisiau isel ac yn cael eu tarfu ddim wrth i Gwylym siarad Cymraeg â'i ferch. Wedyn eisteddodd Neelam ar y llawr yn ei sari i ganu alawon noswyl Punjab: (gwlad y pum afon).

Trannoeth yn y dref roedd y neuadd wisgo yn llawn a'r tynnwyr lluniau yn lladd nadroedd. Ar ôl bod drwy'r felin honno, cafodd Gwylym gyfle i siarad â Gwyneth a'i gŵr.

'Dydw i ddim yn meddwl y dylai Angharad fynd at yr hogyn yna,' meddai hi. 'Wnaiff o byth weithio. Y dyn ydy'r bos bob amser.'

'No way y dylai hi,' ategodd Meic. 'Mi rydw i wedi gweld gormod ar y blacs yn Nottingham. Fedra nhw ddim byw ymysg eu gilydd i ddechrau.'

Roedd Gwyl ar fin dweud wrtho nad oedd arno angen cyngor neb i wybod beth oedd er lles ei ferch ei hun, pan ddaeth galwad i Angharad. 'Come on hand grenade, you're on.' Roedd ganddi enw anffortunus ymysg Saeson.

Ar ôl seremoni'r capio, tynnwyd chwaneg o luniau preifat. Trefnwyd i fynd am bryd arall o fwyd. Erbyn hynny roedd Nasreen wedi diflanu. Pan aeth pawb i'w ffordd, pwyswyd ar Gwylym i aros diwrnod arall gyda theulu Ramnath, ond chrybwyllwyd dim am berthynas y ddau ieuanc. Ond pan gafodd Gwylym gyfle i sgwrsio â'i ferch, deallodd fod ei mam wedi gwneud yr un peth, ac wedi mynegi ei barn heb flewyn ar dafod. Nid oedd hynny yn ymddangosol wedi cael unrhyw effaith ar Angharad.

'Dydach chi ddim yn erbyn yn nac ydach dad?'

'Dy fywyd di ydy o. Dyn ydy dyn ar bob cyfandir. Mi rydw i'n licio'r hogyn. Mae o'n gwybod sut i ymddwyn beth bynnag.'

'Mi ddown i adra i'ch gweld chi ymhen rhyw wythnos,' meddai Angharad, ac felly y bu.

Ymhen rhyw ddeng niwrnod aeth Cwyl i Fangor yn ei gar i gyfarfod ei ferch a'i chariad oddiar y trên, ond roedd syndod yn ei aros. Doedd dim ond Angharad wedi cyrraedd.

'Ddaeth Ramnath ddim?' gofynnodd iddi yn y diwedd.

'Naddo,' meddai Angharad wrth fynd at y car, 'mi gawson ni ffrae.'

'O taw. Dim byd parhaol gobeithio.'

'Mae o wedi fy ngwahardd i weld Nasreen.'

Ddywedwyd dim wedyn nes yr oeddent ar eu taith.

'Wel, beth amdanoch chi?' gofynnodd Angharad. 'Ydw i am gael mam arall?'

'Na, dydw i ddim yn meddwl.'

'Welsoch chi hi?'

'Do. Roedd hi'n beth reit glên a deud y gwir, ac yn bisin ddifai o'i hoed. Ond . . .'

'Ond be'?'

'Rhyw hen Babyddas oedd hi wyt ti'n gweld.'


Cwmni TARIAN Cyf.

Yswiriant Car neu Yswriant Tŷ
Gadewch i ni Roi pris i chi.

TARIAN
6 Stryd Bangor, Caernarfon
Ffôn: (0286) 677787

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...




BYSIAU ARFON
LLANRUG
(Eric Morris)
Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858

FINE ART TRADE GUILD

ORIEL PLAS GWYN
Pontrug, Caernarfon
Gwasanaeth Fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol
Ar ffordd A4086
Caernarfon — Llanberis
Ffôn/ffacs: 0286 672619
Richard S. Humphreys

# WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

**Enillwyr Clwb 300 am fis Mai** – £40: Mrs Prtichard, 9 Bro Waun; £25: Fiona Johnstone, Tŷ Gwyn; £10: Mrs C. Evans, 14 Tŷ Hen.

**Eisteddfod yr Ardal: Mae'r Noson Goffi, er budd yr Eisteddfod, a oedd i'w chynnal ar Gorffennaf 1af wedi ei gohirio tan MEDI 9fed.**

**Llongyfarchiadau**

**Genedigaeth:** Llongyfarchwn Mrs J. Parry, Clydfan, ar ddod yn hen nain unwaith eto. Ganwyd merch fach, Molly Grace, i'w hwyr Arwel a'i wraig Lisa, chwaer fach i Tomos.

Llongyfarchiadau i Mrs Carrie Owen, Penrhos, ar ddod yn nain gan y ganwyd mab bychan i'w mherch Manoan a'i phriod Geraint.

**Dathlu Pen-blwydd:** Yn ystod y mis bu Elin Gwilym, Llidiart Wen, yn dathlu cyrraedd ei 18 oed; a bu Sioned Rees, Pant Afon; Sharon, Tref Eilian; Beca Brown, Gwelfor; Telor Head, Afallon; Gareth Rhys, Llwyn Afon; a Dylan, Rhanir Mwyn, yn dathlu eu 21 mlwydd oed.

Bu dwy o drigolion y pentref yn dathlu pen-blwydd arbennig – Miss Jennie Jones, Bryn Tirion gynt, yn dathlu cyrraedd ei 91 mlwydd oed; a Mrs Williams, Dwyfor, yn 96 mlwydd oed. Ein dymuniadau gorau a'n llongyfarchiadau ichi i gyd.

**Bedydd:** Mewn gwasanaeth yn ei gartref, Stad Glyn Afon, gyda'r Parchg S. O. Hughes yn gweinyddu, bedyddiwyd Cai Llywelyn, mab bychan Michael a Nesta Roberts.

Yng Nghapel Croes-y-waun, gyda'r Parchg John Owen yn gweinyddu, bedyddiwyd Arwel, mab bychan Dean ac Ann, Rhes Eilian.

**Adref o'r Ysbyty:** Anfonwn ein dymuniadau gorau am iachâd buan at Mrs Ray Hughes, Manchester House; Mrs E. Parry, Rhes Eilian; Mrs Gwendoline Rowlands, 5 Bryn Golau; Mrs Sheila Roberts, Llwyn Celyn; Mr Gwyn Davies, Bryn Eithin; a Mr Don Roberts, Sŵn y Gwynt, wedi iddynt ddod adref ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty.

**Cyfarfod â Damwain:** Anfonwn ein cofion at Mrs L. Evans, Tegfan, sydd wedi'i hanafu ar ôl syrthio yn ei chartref; ac at Annie Anderson, Storfa Tŷ Newydd; a Rhys Huws, Argoed, mae'r ddau wedi brifo ar ôl syrthio oddi ar eu beiciau.

**Cydymdeimlo:** Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mr Cyril Smith, Rhos-lan, yn ei brofedigaeth o goli mab; ac at Mr John Carlos Ferrarese, Gilfach, yn ei brofedigaeth o golli ei dad.

**Ymddeol:** Dymunwn ymddeoliad hapus i Mrs Meira Turner, Collfryn; a mr Don Roberts, Sŵn-y-Gwynt.

**Merched y Wawr:** Cyfarfu Merched y Wawr ar nos Iau, Mai 26, o dan lywyddiaeth Nan Huws Roberts. Dymunwyd yn dda i blant yr Urdd fyddai yn cystadlu gyda'r gân actol yn Nolgellau.

Cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Nyrs Glenys Parry, Llanberis. Bu'n dangos, a rhoi cyngor, ar sut i achub bywyd a chymorth cyntaf. Diolchwyd i Nyrs Parry gan Glenys Williams. Rhoddwyd y raffl gan nan ac fe'i henillwyd gan Glenys Williams. Mynd am drip diwedd y tymor a fyddwn y mis nesaf.

**Ar y Radio:** Yn ddiweddar bu Mr Evan Hughes, 3 Bryn Golau, gyda John Huws ar ymweliad â Normandy yn ailfyw profiadau rhyfel ac yn trafod digwyddiadau y glanio yno ar 'D-day' hanner can mlynedd yn ôl. Clywyd eu sgwrs ar y rhaglen 'Y Diwrnod Hiraf' ar Radio Cymru.

**Yr Urdd:** Yn dilyn cystadlaethau Mabolgampau'r Urdd yng Nghaernarfon yn ddiweddar bydd Ieuan Parry yn cynrychioli Cylch Arfon yn y cystadlaethau Sir ym Mhorthmadog ar y 27ain o Fehefin. Dymunwn yn dda iddo. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i Anti Carys Jones, Tref Eilian, a fu'n paratoi aelodau'r adran ar gyfer y cystadlaethau yng Nghaernarfon.

Llongyfarchiadau i'r parti cân actol ar ddod yn drydydd yn Eisteddfod Genedlathol yr Urdd yn Nolgellau. Da iawn.

Cafodd plant yr Urdd daith lwyddiannus i Eisteddfod Dolgellau lle y llwyddasant i ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth cân actol. Diolch i'r pump ar hugain o blant a gymerodd ran ac i'r rhieni am eu cefnogaeth. Diolch yn arbennig i Joy am fynd mor bell i brynu defnydd addas i'r gwisgoedd; i Meg a Delyth am eu gwaith gwnïo; i Yvonne a'r ddwy Heulwen am wneud y gwalltiau; ac i bawb a roddodd neu a roddodd fenthyg 'props' neu ddillad. Diolch i Eurwyn, Parc, am ein cludo ni i Ddolgellau, yn y bws, ac i'r Cyngor Cymuned am eu cyfraniad hael o ganpunt at ein costau. Diolch i bawb a ddaeth ar y bws am eu cefnogaeth

SYLVIA A JINA



**Diolchiadau**

Fe hoffai Heulwen Jones, Cyrnant Lodge, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, ffrindiau, a chymdogion, am y cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

Dymuna Mr a Mrs Gwynn Davies, Bryn Eithin, ddiolch i bawb am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag at y ddau ohonynt tra bu Gwynn yn yr ysbyty ym Mangor ac yn Lerpwl. Diolch yn fawr.

Dymuna Jason a Wendy Anderson, Caernarfon, ddiolch am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

Dymuna y Rheithor, y Parchg Barry Thomas, ddiolch yn gynnes iawn i bawb a gyfrannodd tuag at y casgliad Cymorth Cristnogol. Casglwyd £363.30.

**Cronfa Cymorth Cancr Macmillan:** Mae swyddogion ac aelodau'r pwyllgor yn ddiolchgar iawn i'r canlynol am gasglu o dŷ i dŷ yn ddiweddar pryd y casglwyd y swm o £147.78 – Mrs R. Bracegirdle, 23 Bro Waun, £9.05; Mrs Vernonica Owen, Cil y Mynydd, £25.09; Mrs Mair Parry a Mrs Hilda Williams, Stad Croes-y-waun, £39.40; Miss Marian W. Jones a Mrs Olwen Owen, 12 Dôl Erddi a Trefeilian, £26.95; Mrs Catherine A. Jones, Bryn Gwenallt, £22.85; Mrs Pearl Williams, Parc, £10.80; Gwesty Snowdonia Park, £13.64.

Roedd cyfanswm y casgliad i Gaernarfon a'r Cylch eleni dros £2,000, sef bron i £1,000 yn fwy na'r llynedd.

Dymuna Mrs Catherine Jones, Bryn Gwenallt (trefnydd Waunfawr) ddiolch yn bersonol i'r holl gasglyddion am eu hymateb parod i'w helpu i gasglu tuag at yr achos teilwng yma eto eleni.

**Yr Urdd:** Bu criw o blant yr Urdd yn mwynhau eu hunain yng Nglan-llyn dros fwrw'r Sul, Mehefin 17-19. Diolch i Anti Rhian Evans am fynd efo nhw.

**Cofion:** Anfonwn ein cofion at Miss B. Jones, Stad Tref Eilian, sydd wedi syrthio yn ei chartref ac wedi anafu ei chefn.

**Ffair Sadwrn:** Bydd criw hwyliog Ffair Sadwrn yn ymweld â'r pentref yn ystod yr wythnosau nesaf yma. Dowch yn llu i'w cefnogi ac i gael hwyl.

## NEWYDDION BETHEL *(parhad o dudalen 15)*



*Dewi Griffiths ddaeth yn ail yn yr Unawd Pres 12-15 oed yn Eisteddfod yr Urdd yn Nolgellau.*

**Diolchiadau**

Dymuna Barrie a Ceri Caulcutt, 17 Heol Elinor, Caernarfon, ddiolch yn fawr iawn i'r teulu a ffrindiau am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar enedigaeth eu mab Richard ar 31 Mai. Diolch yn arbennig i staff Ysbyty Dewi Sant, am bob gofal.

Dymuna Rita, Collwyn, Manon, Meinir a Menna ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a fynegwyd tuag atynt yn eu profedigaeth annisgwyl o golli mam a nain arbennig iawn. Diolch am y cyfraniadau at Apêl Bosnia Urdd Gobaith Cymru a fydd yn ein galluogi i anfon £700 er coffa amdani.

Dymuna Eifion a Dianne Roberts, 21 Bro Rhos, ddiolch o galon i'r teulu ac i ffrindiau am eu holl ddymuniadau da ar achlysur dathlu eu Priodas Aur ar Mehefin 14eg. Diolch yn arbennig i Kate, Clive, Kelvin ac Ian am y parti hollol annisgwyl.

Dymuna Goronwy a Mair, Glan-y-gors, ddiolch yn fawr iawn am y cardiau a'r anrhegion dderbyniasant ar ddathlu eu Pridas Rhuddem.

Dymuna Richard a Nia Sharpe ddiolch i'w teulu a chyfeillion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

**Enillwyr Clwb 200 y Neuadd Goffa am fis mai oedd** – £20: Pat Williams, Cefn (23); £10: Goronwy Owen, 18 Cremlyn (35); £5 yr un: Elizabeth W. Jones, 12 Stad Eryri (182); Dewi Williams, Cefn Gwyn (56); Gareth Hughes, Erddig (86); Margaret Jones, Cefn (64); M. B. Garnett, 1 Rhos Alun (19); Maldwyn Hughes, 27 Bro Rhos (177); Ivy Wright, 2 Tan-y-buarth (173); Gwyneth Jones, Fachell (72).

**Clwb 100 Ysgol Bethel:** Enillwyr gwobrau am fis Mehefin oedd – £20: Mr William Owen Griffith, Lôn Glai; £15: Mary Wyn Jones, Y Ddôl; £10: Helen Wyn Sutherland, Penybont, Deiniolen; £5: Mrs Lily Barlow, 2 Glan Cadnant, Caernarfon; £3: Joyce Pugh, 9 Tan-y-buarth. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

**Newyddion o'r Ysgol:** Llongyfarchiadau mawr iawn i aelodau côr yr ysgol ar eu perfformiadau arbennig yn Theatr Seilo yr wythnos diwethaf. Llongyfarchiadau hefyd i Miss L. P. Roberts ar ei gwaith deheuig yn eu hyfforddi yn ystod yr wythnosau diwethaf. Rhoddodd y plant o'u gorau yn yr ymarferion ac yn y perfformiad. Roeddech i gyd yn glod mawr i'r ysgol ac i'r pentref.

# DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

**Enillwyr Clwb Cant Plaid Cymru** am fis Mai — £10: Hywel Lewis, Llys Annedd; £5: Ifan Wyn Williams, 12 Ffordd Deiniol.

**Clwb Elidir:** Cafwyd cyfarfod, o dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Ll. Jones, ar y 6ed o Fehefin pryd y rhoddwyd y te gan Miss Jean Moeller, Mrs Sally Lewis a Mrs Eirlys Ll. Jones. Rhoddwyd y wobr lwcus gan Miss Jean Moeller a'r enillydd oedd Mrs Eirlys Ll. Jones. Diolchwyd i Mrs Sally Lewis a Mrs Megan P. Morris am gasglu arian y Tramping yn ystod y flwyddyn yn ôl eu harfer. Yr ydym fel Clwb yn ddiolchgar iawn i Mrs Alice Griffith am ei rhodd o £5 i ni ar gyfer ein trip blynyddol.

**Merched y Wawr:** Cynhaliwyd cyfarfod ar Nos Lun, Mai 16, yn y Caban o dan lywyddiaeth Mrs B. W. Davies. Dymunodd y llywydd wellhad buan i Mrs Jane Catherine Hughes ac i ferch yng nghyfraith mrs Marian Wyn Williams ar ôl ei damwain.

Y wraig wadd oedd Mrs Gracie Davies, Bethesda, a threuliwyd noson ddifyr yn ei chwmni yn sôn am ei bywyd tran yn byw yn Sambia. Daeth a nifer o eitemau a gasglodd o'r wlad honno i'w dangos. Diolchwyd iddi gan Mrs Buddug Jones. Rhoddwyd y te gan Mrs Eileen May Jones, Mrs Eirian Jones a Mrs Margaret Roberts.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Lun, Mehefin 20fed, pryd y cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol.

**Cyrddau Pregethu:** Cynhelir Cyrddau Pregethu Libanus ar ddydd Sul, Gorffennaf 10fed. Y pregethwr gwadd fydd y Parchg Gwilym Hughes, Abergele, a threfn yr oedfaon fydd 10, 2 a 5.30 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

**Clwb Ieuenctid:** Dyma enillwyr raffl y Clwb: 1. P. Pleming, 41 Pentre Helen; 2. Karen Price, 22 Hafod Oleu; 3. Ellen Williams, 1 Pentre Helen; 4. Sue Jones, 1 Tai Fictoria.

Diolch i Garej Beran a Siop VG am eu rhoddion. Diolch hefyd i bawb a'n cefnogodd ac, wrth gwrs, diolch i aelodau'r Clwb.

**Llwyddiant:** Llongyfarchiadau i Jennie Lyn, Cartref, Rhes Cynfi, ar lwyddo gydag anrhydedd yn ei arholiad, Gradd 3, ar y Cornet. Hefyd cafodd Jennie a'i brawd bach, Trystan, lwyddiant yn Eisteddfod Arthog yn ddiweddar.

Tocynnau Cyngerdd Coroni **Brenhines Carnifal Deiniolen ar werth am 12.00, Mehefin 29, yn 38 Pentre Helen.**

**PERERINDOD I ISRAEL: Sadwrn, 18 Chwefror 1995 i'r Sul, 26 Chwefror 1995. Cyfle i ymuno â chwmni o Gymry Cymraeg ar bererindod naw niwrnod i wlad gyfareddol. Manylion pellach oddi wrth: y Parchg Olaf Davies, Llys Cerdd, Ffordd Crwys, Bangor. Ffôn: (0248) 364613.**

**Diolch:** Ymateb yr Arddangosfa Ddarluniau i Apêl Ymchwil y Cancr, pleser yw cael cyhoeddi i gyfraniadau y rhai a gefnogodd yr Arddangosfa, gyrraedd y swm anrhydeddus o gant a hanner o bunnoedd, derbynied y cyfryw rai fy niolch gwresocaf am eu cefnogaeth deilwng. Diolch hefyd am eich anrhegion, cardiau a galwadau ffôn ar achlysur fy mhen-blwydd yn ddeg ar hugain; ac i Glenys am ei chusan felys. H.J.

**Y Seindorf:** Cynhaliwyd Cyngerdd Blynyddol y Seindorf nos Wener, Mai 20fed, yn Ysgol Brynrefail, Llanrug. Yn ogystal â'r Band cafwyd eitemau gwych gan Iwan Williams (cornet) a John Eifion Jones (tenor). Dymuna'r Band ddiolch i'r ardalwyr am eu cefnogaeth. Llongyfarchiadau i Gavin Saynor ar ennill cystadleuaeth Cerddorion Ifanc ym Mangor; i Euros Williams am ennill yn Eisteddfod yr Urdd yn Nolgellau; ac i Jennie Lyn Morris am ennill dwy wobr gyntaf yn Eisteddfod Môn ac am ennill cystadleuaeth yn y Rhyl ddiwedd y mis.

**Ysgol Gwaun Gynfi:** Bu blwyddyn 5 a 6 yn gweld Sean Adcock, pencampwr adeiladu waliau cerrig sych gogledd Cymru, yn adeiladu wal yn Nhan y Ffynnon. Daeth Nyrs Parry at blant blwyddyn O i siarad am 'Fi Fy Hun'. Bu plant dosbarth Miss Jones yn ymweld â Mrs Clark yn Swyddfa Bost Deiniolen i weld ei chasgliad o debotiau. Gwelwyd rhai siâp corn, Hari'r Wythfed, mul, dyn tân a Sion Corn. Llongyfarchiadau i Zoe Anderson, Ben Boothroyd a Gethin Jones am dderbyn tystysgrifau'r Gala Nofio. Diwrnod yr etholiad bu plant yr ysgol ar eu gwibdeithiau. Aeth y babanod a blwyddyn 3 i 'Bodvell Hall' ger Pwllheli. Aeth dosbarth Mr Jones i Gastell Penrhyn ac aeth dosbarth Mrs Jones i Pili Palas am y rhan fwyaf o'r dydd ac yna mynd i Barc Antur Castell Penrhyn. Neithiwr fe gynhaliwyd noson bingo yn neuadd yr ysgol, a diolch i bawb am eu cefnogaeth. TOM A KIRSTY

**Cyfarfod Coffa H. R. Jones:** Ddydd Sul, Mehefin 5ed, cynhaliwyd cyfarfod coffa H. R. Jones yng nghapel Ebeneser, Deiniolen. Yn y cyfarfod dathlwyd geni H. R. Jones, un o sylfaenwyr Plaid Cymru, gan mlynedd yn ôl. Mynychwyd y cyfarfod gan drigolion lleol, gan genedlaetholwyr o bell ac agos, a chan aelodau o deulu H. R. Jones. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mr Gwyn Parri, Deiniolen, a chymerwyd rhan gan y Cynghorydd Dafydd Orwig, Bethesda, a Mr Dafydd Wigley, A.S. Cafwyd eitem gerddorol gan Dafydd Iwan a Genod Tŷ'r Ysgol. Yn dilyn y cyfarfod aeth y gynulleidfa i fynwent Llandinorwig lle rhoddwyd torch o flodau ar fedd H. R. Jones gan Mr Dafydd Wigley.

**Sul y Blodau:** Cynhaliwyd cyfarfodydd blynyddol Sul y Beibl yng nghapel Ebeneser ar Fehefin 26. Yr oedd Ysgolion Sul y cylch yn cymryd rhan yn yr oedfa yn y prynhawn a chynhaliwyd Cymanfa Ganu gyda'r nos. Llywyddwyd gan Mrs Jane Jones, Ebeneser, yn oedfa'r pnawn, a daeth cynulleidfa gref i weld plant yr Ysgolion Sul yn gwneud eu gwaith. Llywyddwyd y Gymanfa gan Mr Gwyn Parri, Ebeneser, ar arweiniwyd y canu gan Mr Arwel Jones, Penisarwaun. Cymerwyd rhan yn y Gymanfa Gan gan Gôr Meibion Dyffryn Peris. Cyhoeddwyd y Fendith gan y Parchg John Morris, Llanrug.

**Llongyfarchiadau** i Sharon Wyn Williams, Rhydfadog, ar ennill gradd B.A. yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Caerdydd. Pob lwc i ti i'r dyfodol, Sharon.

**Diolch:** Dymuna Mrs Ann Williams, 26 Hafod Olau, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd, cardiau a galwadau ffôn tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref. Diolch yn fawr iawn.

## Agoriad Swyddogol Cae y Bwthyn

**Mae'r gwaith o atgyweirio cae pêl-droed y Bwthyn, Deiniolen, bellach wedi ei gwblhau a Chyngor Arfon wedi llwyddo i ymestyn y cynllun gwreiddiol i gynnwys mannau newid newydd a maes parcio.**

**Mae clwb pêl-droed y pentref yn gweithio ar y cyd â'r Cyngor i drefnu agoriad swyddogol i'r cae gan Faer Arfon, y Cynghorydd Brian Jones, ar ddydd Sadwrn, 2 Gorffennaf. Bwriedir cynnal gêm bêl-droed arbennig rhwng tîm Deiniolen a thîm 'Pobl y Cwm' a gobeithir y bydd sêr y byd pêl-droed yn bresennol, sef Malcolm a Gavin Allen, Wyn Davies ac Orig Williams.**

**Fe fydd y gymuned yn elwa o'r cae a chaiff ei osod ar gyfer mudiadau lleol trwy wneud cais yn nerbynfa Pwll Nofio Bangor (Ffôn: 0248 350600). Rhaid cofio fod cytundeb rhwng y Cyngor a'r Clwb Pêl-droed i ddefnyddio'r cae yn ôl gofynion eu gêmau swyddogol yn y gyngrair.**

**Mae hawl hefyd gan yr Ysgol Gynradd i ddefnyddio'r cae yn ystod oriau ysgol a thrwy wneud cais i Gyngor Arfon os am ei ddefnyddio y tu allan i oriau ysgol.**

**Gobeithia'r Cyngor y caiff y cyfleusterau newydd eu parchu a'u defnyddio yn helaeth a dymunir yn dda i'r cynllun hwn yn Neiniolen.**



*Tîm Pêl-droed Deiniolen a'r pedair cwpan a enillwyd eleni ar noson eu swper dathlu.*

**BUDDUGOLIAETH EUROS**

**Gwireddwyd ein dymuniad eleni yn ddi-os**
**Ym muddugoliaeth ysgubol Euros**
**Yn Eisteddfod yr Urdd yn Nolgellau.**
**Ardderchog a llongyfarchiadau**
**I ti am berfformiad caboledig fel yr eos**
**I ddyfod mae llwyddiannau eto yn dy aros.**

**H.J.**



Trefniadau Blodau Sych
a Ffres yn ôl eich gofyn
Alwyn a Sarah Jones

RACCA
PENISARWAUN

★ Danfon blodau i ysbytai a chartrefi henoed
★ Addurno capeli ac eglwysi ar gyfer priodasau
★ Blodau ar gyfer angladdau
★ Stoc o flodau ffres

Galwch neu ffoniwch
870605
am fanylion

# CROESAIR GORFFENNAF



**AR DRAWS**

1. Deio gry' sy'n curo (7)
5. Mae'n dywyll, pa bynnag ffordd yr edrychir arni (5)
8. O ddwyn mwy na deg o afalau, mae angen bod yn wyliadwrus (5)
9. Yr hyn a gawn, am rhyw hyd, rhag eiddo Mr Morgan (7)
10. Mae cyflymder y ddwy nyrs yn rhyfeddol o gwmpas dechrau'r diwrnod gwaith (9)
12. Trefniad i gyfarfod (3)
13. Rhoi mwy o wybodaeth, neu egluro ymhellach (6)
14. Jumbo ydi un o'r rhai mwyaf i wneud hyn (6)
17. Gradd gymharol agos (3)
18. Yr hyn sy'n cloi symudiadau cerddorol (9)
20. Mewn perthynas â chael ffein, gofalwch rhag gwneud niwed i dŷ Lowri (7)
21. Mynd yn fwy, neu'n uwch (5)
23. Mesen Saesneg a ddefnyddir gan blant yr ysgol fel cyfrifiadur (5)
24. 'Y __', newyddiadur wythnosol Eglwys Bresbyteraidd Cymru (7)

**I LAWR**

1. Rheswm honedig dros rhyw ffaeledd (5)
2. Crefftwr mewn haearn (3)
3. Yn canlyn y weithred o roi'r ffidil yn ôl yn y to (7)
4. Un sy'n dilyn un arall (6)
5. Y math yma o 'sgidia oedd gan y cŵn bach (5)
6. Un o donau tad Myfanwy sy'n ein gwneud yn llawen (9)
7. Mae deg Nodi yn anghyffredin o ryfedd (7)
11. Difetha'n llwyr (9)
13. Mae Ned a Myf yn paratoi lle i fynd i mewn (7)
15. Cymodlon a thangnefeddus (7)
16. Distyllu ag olew i greu gwyntoedd (6)
18. Yr ên isaf (5)
19. Un o'r pethau sy'n gyffredin rhwng efeilliaid (5)
22. Hiraethu (3)



## CROESAIR MEHEFIN

Ymdrech Jean Hughes-Jones, Llys Gwilym, Pencaerau, Rhiw, Pwllheli, sy'n mynd a £5 croesair mis Mehefin. Nid dyma'r tro cyntaf iddi ennill ond y hi ddaeth allan o'r het, fel petae.

Mewn ymateb i gais a dderbyniais gan un ddarllenwraig fe geisiais wneud croesair y mis hwn ychydig haws, ond nid yn hawdd. Pob lwc i bob un ohonoch.

Gyrrwch eich atebion i Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, erbyn 30 Awst, os gwelwch yn dda.


# AR WERTH

**BEIC HOGYN 8-12 oed**

**Raleigh Grifter coch, mewn cyflwr ardderchog.**

**£30**

**UNEDAU BATHRWM GLAS**

**yn cynnwys yr unedau arferol, cafn a ffitings cawod a'r holl dapiau**

**FFÔN:**

**(0286) 675605**


## RYGBI

Mae Clwb Rygbi Caernarfon yn darparu ymarfer a hyfforddiant ar bob lefel ac ar gyfer pob oed ar gaeau'r Clwb ar Y Morfa (ger Ysbyty Eryri), Caernarfon. Mae hyn ar gyfer chwaraewyr profiadol a di-brofiad. Bydd y sesiynau fel a ganlyn: chwaraewyr dros 16 oed, dechreuir nos Fawrth, 5 Gorffennaf, am 6.45 p.m.; chwaraewyr dros 7 oed ac o dan 16 oed, dechreuir nos Iau, 18 Awst, am 5.30 p.m. ar gyfer bechgyn a genethod ysgolion cynradd, ac am 6.15 p.m. ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd. Am fanylion pellach ffoniwch y Tŷ Clwb ar (0286) 674513.

# *Dyddiadur y Mis*

## MIS GORFFENNAF

**2. Sadwrn:** **DEINIOLEN:** Agoriad Swyddogol Cae'r Bwthyn
**4-9:** **DEINIOLEN:** Wythnos Carnifal
**5. Mawrth:** **BETHEL:** Trip y Cylch Meithrin i Sŵ Bae Colwyn.
**6. Mercher:** **BETHEL:** Merched y Wawr — Twmpath Dawns yng Ngwesty Fictoria, Llanberis am 7.30 o'r gloch.
**7. Iau:** **BRYNREFAIL:** Cymdeithas y Chwiorydd. Sgwrs gan Selwyn Griffith.
**8. Gwener:** Aduniad o gyn-chwarelwyr yn Ysgol Brynrefail.
**9. Sadwrn:** **DEINIOLEN:** Carnifal.
**LLANBERIS:** Aduniad yn y Gilfach Ddu.
**16 Sadwrn:** **LLANBERIS:** Carnifal.
**22 Gwener:** **NANT PERIS:** Carnifal (gyda'r nos)
**23 Sadwrn:** **LLANBERIS:** Ras y Wyddfa

## RHODDION

**£8.50**

**Maureen Rhys**

**£5**

**Olwena a Gwilym Morris, 4 Rhes Efrog, Llanberis**
**Dwynwen Roberts, Rhianfa, Llanberis**
**Ann Williams 26 Hafod Olau, Deiniolen**
**Eifion Griffiths, Foel, Dinorwig**
**Mari a Goronwy Jones, Glan y Gors, Bethel**
**Rita a Collwyn Williams, Bethel**
**Eirlys a Brian Sharpe, Bethel**
**M. G. Williams, Gwylfa, Bethel**
**Gwyneth Evans, Ty'n Buarth, Brynrefail**

**£3**

**Siân, 2 Bryn Gro, Cwm-y-glo**
**Beryl Thomas, Awel Deg, Llanrug**

**£2**

**Ceri a Barrie, 17 Heol Elinor, Caernarfon**


**THEATR BARA CAWS**
**yn cyflwyno**
**cynhyrchiad newydd sbon**

# DIANA

**gan John Glyn**

Drama newydd gyffrous am 'wehilion cymdeithas' mewn byd ble mae'r agendor rhwng tlodi a chyfoeth wedi ymestyn i'r eithaf. Byd ble mae trais yn rheoli a dyn wedi ei ddifreinio i'r fath raddau nes ei fod yn cael ei ddylanwadu a'i reoli gan ei reddfau anifeilaidd. Sut mae dianc? Drwy hiraethu am orffennol dychmygol? Drwy wireddu ffantasïau? Mae unrhyw beth yn well na bodoli yng ngorffwylledd y presennol.

**Actorion:**
**Catherine Aran, Alun Elidyr, Gwenno Hodgkins, Merfyn Jones a Trefor Selway**
**Cyfarwyddwr: John Glyn**

**AR DAITH:**
**13 Medi — 15 Hydref 1994**

Os bydd unrhyw gymdeithas neu sefydliad yn awyddus i drefnu noson yn y gymuned mi fyddwn yn falch iawn o glywed gennych.

**Am fwy o fanylion ffoniwch Linda ar:**
**(0286) 676335**


## INCWM A GWRIANT AM Y FLWYDDYN i 31ain Mawrth 1994

| *1993* | | | 1994 | |
|---|---|---|---|---|
| *£* | **DERBYNIADAU** | | £ | |
| *4987.25* | Gwerthiant | | 4366.83 | |
| *6713.80* | Hysbysebion | | 8001.00 | |
| *482.60* | Rhoddion | | 526.40 | |
| | Grantiau: | | | |
| *1128.73* | Cymdeithas Gelfyddydau | 1166.00 | | |
| | Cynghorau Cymuned: | | | |
| *10.00* | Betws Garmon/Rhyd-ddu | — | | |
| *50.00* | Llanberis | 100.00 | | |
| *200.00* | Llanddeiniolen | 200.00 | | |
| *300.00* | Llanrug | 350.00 | | |
| *50.00* | Waunfawr | 50.00 | | |
| | | | 1866.00 | |
| *50.44* | Llog | | 22.26 | |
| *130.00* | Incwm arall | | 137.00 | |
| | | | | **14919.49** |
| | **TALIADAU** | | | |
| *13373.01* | Argraffu | | 13353.06 | |
| *146.63* | Ffotograffiaeth | | 395.28 | |
| *37.00* | Amlenni, papur, a.y.y.b. | | 19.96 | |
| *225.95* | Stampiau | | 249.38 | |
| *60.00* | Gwobrau Croesair | | 50.00 | |
| *20.95* | Cystadleuaeth Pêl-droed | | 7.00 | |
| — | Costau eraill | | 28.50 | |
| | | | | **14089.18** |
| ***£239.28*** | Incwm yn fwy na Gwariant | | | **830.31** |

**MANTOLEN AR 31ain MAWRTH 1994**


| | |
|---|---|
| Cronfa'r Eco 1 Ebrill 1993 | **4676.95** |
| Elw am y flwyddyn | **830.31** |
| Cronfa'r Eco 31 Mawrth 1994. | **£5507.26** |

**G. HUGHES**
***Trefnydd Ariannol***

# CHWARAEON

## RHANNU MAES Â'R MAWRION

Bydd dydd Sadwrn, Mehefin 25, yn aros yng nghof dau o fechgyn ifanc y fro. Ar y diwrnod hwnnw roedd Tom Evison, 9 oed o Gaeathro a Kevin Roberts, 10 oed o Lanrug, yn chwarae criced ar faes criced Bae Colwyn. Roeddent yng ngharfan cynradd Gwynedd yn chwarae yn erbyn eu cyfoedion o Glwyd.



*Kevin a Tom.*

Dewiswyd y garfan allan o nifer o blant sy'n mynychu cyrsiau criced ledled Gwynedd. Y dull o chwarae yw Kwik Cricket, addasiad o'r gêm, gyda phêl ag offer pwrpasol sy'n magu hyder heb yr elfen gorfforol sy'n magu ofn. Ar y Sadwrn roeddent yn chwarae yn ystod yr egwyl ginio yn y gêm bencampwriaeth rhwng Morgannwg a Sir Gaerhirfryn. Roedd tipyn o brofiad i rannu maes gyda Michael Atherton, Maynard, Hugh Morris, Steve Watkin a'r gweddill.

Gallaf sicrhau aelodau Fron Dinas fod digon o 'hadau' yn y cylch os gwireddir eu bwriad i symud eu maes i fro'r Eco. Yr her iddynt fydd denu a datblygu'r 'had'. Mae Tom a Hefin yn dipyn o ffrindiau a gyda cryn ddiddordeb mewn llawer agwedd o chwaraeon. Mae'r ddau yn ymddiddori mewn tenis. Yn wir cyrhaeddodd Hefin rownd derfynol pencampwriaeth fewnol Gwynedd i rai dan 12. Yn y gaeaf bydd Tom yn chwarae pêl-droed i dîm Ysgol Bontnewydd a Chlwb Cae Glyn ar y Sadwrn. Yn y pwll nofio bydd Hefin wrth ei fodd ac mae'n aelod brwdfrydig o glwb nofio Caernarfon.


## CHWARAEWR Y FLWYDDYN I'R CLWB A'R GYNGRAIR

Am dri chwarter y tymor pêl-droed diwethaf roedd pethau'n edrych yn addawol i ddau dîm Llanberis. Yr oedd Jiws a'r prif dîm yn ymgiprys am y bencampwriaeth, ond yna aeth pethau ar chwal. Er hynny — o gofio cyflwr echrydus Maes Padarn ar brydiau — roedd y tîm yn chwarae pêl-droed deniadol. Y si yw fod Jiws wedi 'ymddeol' o'r gadair boeth, a hynny yn derfynol! Iolo Evans fydd wrth y llyw y tymor nesaf gyda Gareth Williams a Michael Griffiths yn rheoli'r ail dîm. (Tybed a fydd llyfr o yrfa liwgar Jiws yn ymddangos — yng 'Nhyfres y Cewri' efallai!) Fel bro gallwn ei longyfarch am ei gyfraniad a'i ffyddlondeb i'w bentref genedigol.

Daeth un Tlws nodedig i un o aelodau'r Clwb, sef Tlws Chwaraewr y Flwyddyn yng nghyngrair Sain, i Jason Roberts. Fe gyflwynir y Tlws i'r chwaraewr sy'n derbyn y nifer mwyaf o 'chwaraewr y gêm' gan y gwrthwynebwyr. Yn amlwg mae ennill y Tlws yma yn golygu cysondeb dros y tymor. Hwn fydd yr wythfed tymor i Jason gyda'r 'Darans' fe ymunodd â'r tîm ieuenctid yn 15 oed. Mae Jason yn amryddawn iawn gan chwarae yn y llinell flaen neu yng nghanol y cae. Llwyddodd i rwydo 16 o weithiau yn ystod y tymor — nifer boddhaol iawn. Mae'n rhaid fod ei berfformiadau wedi bod yn dda oherwydd fe dderbyniodd wyth cerdyn melyn. Pwysleisiodd i mi nad oedd unrhyw un o'r cardiau am gamymddwyn corfforol ond am daeru â'r dyfarnwr! Yn amlwg, nid yw'r gwrthwynebwyr yn gweld hyn yn drosedd difrifol. Yn naturiol Jason dderbyniodd y Tlws am Chwaraewr y Flwyddyn i ail dîm y Clwb. Prif chwaraewr y tîm cyntaf — ym marn ei gyd-chwaraewyr — oedd Terry Saynor; a dewis y cefnogwyr oedd Stewart Williams.



## Y BANC YN BUDDSODDI



*Dau o'r athletwyr ifanc.*

Ers ychydig o flynyddoedd bellach bu Banc y TSB yn noddi cystadleuaeth athletau rhwng ysgolion i daleithiau Gwynedd. Cynhaliwyd cyfarfod cylch Arfon ar drac y Coleg Normal ganol mis Mehefin. Mae timau pob ysgol wedi eu rhannu yn dair adran — i rai o dan 13, dan 14 a than 16. Ceir cystadleuaeth ar wahân i'r genethod a'r bechgyn. Roedd chwe ysgol yn ymgiprys am y Tlws — Botwnnog, Pwllheli, Porthmadog, Dyffryn Nantle, Syr Hugh Owen a Brynrefail. Cafwyd cystadlu brwd a safonol, a'r trefniadau yn teilyngu cefnogaeth hael y Banc. Llwyddodd Brynrefail i ennill y Tlws i'r bechgyn o dan 16 ac fe fydd y tîm yn cynrychioli Arfon ym Mhencampwriaeth Gogledd Cymru y TSB ym Mae Colwyn ddiwedd y mis. Pob lwc iddynt.

Wrth cyd-gyfri marciau'r adrannau daeth Ysgol Brynrefail yn drydydd yng nghystadleuaeth y bechgyn (un pwynt tu ôl i'r ail safle) ac yn gydradd drydydd yng nghystadleuaeth y merched.

Y sgôr terfynol, wedi cyd-gyfri pob oedran at eu gilydd, cafwyd y sefyllfa yma — Syr Hugh Owen 150; Pwllheli 138; Brynrefail 134; Botwnnog 118; Porthaethwy 85; Dyffryn Nantlle 72. Yn amlwg Brynrefail yw pencampwyr yr ysgolion 'llai'.

Y mae'r rhestr o'r rhai a enillodd bwyntiau yn rhy faith i'w cynnwys ar y dudalen ôl ac fe'i ceir yn adrodd yr ysgol.

Agwedd arall hynod o bwysig yn noddiant y TSB yw eu bod yn trefnu cwrs hyfforddi i athletwyr addawol. Eleni dewiswyd Malcolm Arnold, hyfforddwr yr athletwr gwych Colin Jackson, i Fangor. Mae denu hyfforddwr o'r fath safon i'r cylch yn gyfle prin ond hynod werthfawr i'r athletwyr ieuainc. Braf yw nodi fod saith wedi eu dewis o Ysgol Brynrefail — Catrin Jones, Eluned Davies, Sarah Thomas, Iona Williams, Andrew Williams, Kevin Williams a Dewi Griffiths. Gobeithio eu bod wedi elwa o'r profiad ac y byddant yn cynnal y record wych o droi athletwyr addawol o'n hysgol leol.

## AR FRIG Y DON

Cynhaliwyd Pencampwriaeth Unigol Nofio Gogledd Cymru dros ddau benwythnos yn ddiweddar. Y ddau leoliad oedd Bangor a Threffynnon ac yn cystadlu roedd goreuon clybiau nofio Môn, Caernarfon, Bangor, Llandudno, Bae Colwyn, Rhyl, Fflint, Treffynnon, Bwcle, Wrecsam a'r Wyddgrug.



Ym Mangor enillodd Elin Dafydd o Lanrug y fedal aur am nofio'r 100m ar y cefn, a'r fedal arian am y medli unigol dros 200m. Yn yr ail gyfarfod yn Nhreffynnon enillodd yr aur am y 100m dull broga, a medalau arian yn y 200m dull rhydd, a'r sbrint 25m. Enillodd efydd hefyd fel aelod o dîm cyfnewid Clwb Caernarfon.

Dylid esbonio mai'r rhan lachar y gamp yw'r hyn a ddisgrifir uchod. Er mwyn cynnal y fath safon golgyga cryn dipyn o ymdrech ac fe fydd Elin yn y pwll nofio bedwar bore o bob wythnos, a hynny cyn na brecwast nag ysgol.

## TLWS YR ECO

Ar nos Iau, Gorffennaf 7fed, cynhelir cystadleuaeth Tlws yr Eco i ysgolion cynradd y fro. Eto eleni, trwy garedigrwydd y prifathro, cynhelir y gystadleuaeth ar faes addas Ysgol Gynradd Llanrug gan ddechrau am 6 p.m. Bydd dwy gystadleuaeth i dimau 8-bob-ochr. Bydd cystadleuaeth i blant blynyddoedd 5 a 6, ac un arall i flynyddoedd 3 a 4. Os yw'r ysgolion llai ond yn gallu ffurfio un tîm yna fe dderbynnir tîm cymysg eu hoedran ac fe drefnir ymlaen llaw i ba gystadleuaeth i'w lleoli. Yr amcan yw rhoi cyfle i bob plentyn gymryd rhan. Fe godir tâl o £2 y tîm tuag at y costau.

Digon i edrych ymlaen felly, a'u CEFNOGI. Gobeithio am dywydd braf.